**Rhif: WG46649**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys:

- Cynigion ar Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth a gomisiynir
- Cynigion ar Fframwaith Tâl a Dilyniant ar gyfer gofal cymdeithasol
- Cynigion ar Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth
- Cryfhau trefniadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Newidiadau i’r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a deddfwriaeth gysylltiedig

Tachwedd 2023

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-198-3

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad:

WG46649 – Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 22 Mai 2023 a daeth i ben ar 14 Awst 2023. Daeth 96 o ymatebion i law gan amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â buddiant.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran y Dyfodol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: DyfodolGofalCymdeithasol@llyw.cymru

## Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth

## Cynnwys


**Adran 1** ..... **1**

1.1. Cyflwyniad ..... 1

1.2. Yr ymgynghoriad, y gynulleidfa a’r gwaith ymgysylltu ..... 2

**Adran 2** ..... **3**

2.1. Yr ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad ..... 3

2.2. Crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law ac ymateb Llywodraeth Cymru ..... 3

2.3. Rhan 8 – Cod Ymarfer – Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir (Pennod 1 yr ymgynghoriad) ..... 4

2.4 Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant (Pennod 2 yr ymgynghoriad) ..... 20

2.5. Cynigion ar gyfer Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth (Pennod 3 yr ymgynghoriad) ..... 25

2.6. Rhan 2 – Cod Ymarfer – (Swyddogaethau Cyffredinol) (Pennod 4 yr ymgynghoriad) ..... 39

2.7. Rhan 9 – Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth) (Pennod 5 yr ymgynghoriad) ..... 45

2.8 Rhan 8 – Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Pennod 6 yr ymgynghoriad) ..... 56

2.9 – Cwestiynau cyffredinol – Asesiad Effaith Integredig (Pennod 7 yr ymgynghoriad) ..... 61

2.10 Cwestiynau cyffredinol – Yr Iaith Gymraeg (Pennod 8 yr ymgynghoriad) ..... 63

2.11. Cwestiynau cyffredinol – Unrhyw faterion cysylltiedig eraill (Pennod 8 yr ymgynghoriad) ..... 67

2.12 Y Camau Nesaf ..... 69

# Adran 1

## 1.1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gofal cymdeithasol ar gyfer pobl Cymru trwy system integredig ac ataliol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn gynharach eleni, fe wnaethom ymgynghori ynglŷn â chyfres o gynigion yn ymwneud â'r nod cyffredinol hwn, fel rhan o un ymgynghoriad – sef ymgynghoriad y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Roedd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys:

- Fframwaith Cenedlaethol drafft ar gyfer gofal a chymorth a gomisiynir a fyddai'n rhwymo comisiynwyr ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Bydd y fframwaith hwn yn gosod safonau ar gyfer arferion comisiynu, yn lleihau cymhlethdod ac yn ailgydbwyso prosesau comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau.
- Cynigion a ddatblygwyd gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn ymwneud ag egwyddorion Fframwaith Tâl a Dilyniant, yn benodol yr elfen gyntaf o blith pedair elfen arfaethedig – sef disgrifiad cyffredinol o fandiau ar gyfer rolau swyddi gwahanol.
- Cynigion ar gyfer Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth a fydd yn goruchwylio'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol.
- Cynigion mewn Cod Ymarfer Drafft a Chanllawiau Statudol ynglŷn â chryfhau trefniadau Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod gweithio ar y cyd yn diwallu anghenion poblogaethau lleol; cefnogi gwaith partneriaeth cryfach ac integreiddio gwasanaethau a gwella'r broses o baratoi llwybr ar gyfer datblygu'r partneriaethau allweddol hyn yn y dyfodol.
- Newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn ymateb i newidiadau a gyflwynwyd gan y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd fel y gellir cynnwys defnydd o brofiadau pobl, yn ogystal â'r data a gesglir o dan y fframwaith.
- Newidiadau i Reoliadau Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol er mwyn pennu beth sydd angen i'r adroddiadau blynyddol newydd ei gynnwys.
- Casglu safbwyntiau ynglŷn â Rhan 2, Adran 9 (https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/9) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau llesiant a nodir yn Adran 8 o Ddeddf 2014 (https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/8).

## 1.2. Yr ymgynghoriad, y gynulleidfa a'r gwaith ymgysylltu

Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ar 22 Mai 2023 – sef y diwrnod y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad. Hefyd, anfonodd Llywodraeth Cymru e-bost at amrywiaeth eang o sefydliadau er mwyn rhoi gwybod iddynt am lansiad yr ymgynghoriad, yn cynnwys:

Ymhellach, hyrwyddwyd y lansiad ar gyfrif X (Twitter gynt) Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhwyswyd yr ymgynghoriad yng nghylchlythyrau e-bost wythnosol Gofal Cymdeithasol Cymru. Hefyd, rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo fel rhan o'r wybodaeth a oedd ar gael ar stondin Llywodraeth Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd rhwng 5-12 Awst. Yn ogystal, tynnwyd sylw at ddyddiad cau'r ymgynghoriad ar gyfrif X Llywodraeth Cymru, gyda negeseuon yn nodi 'pedair wythnos i fynd' ac 'wythnos i fynd' cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 14 Awst.

Ochr yn ochr â'r dulliau hyrwyddo uchod, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru ddau ddigwyddiad ymgysylltu yn ymwneud â'r ymgynghoriad yn ystod y cyfnod ymgynghori – un digwyddiad ar-lein ar 28 Mehefin ac un digwyddiad wyneb yn wyneb ar 11 Gorffennaf. Mynychwyd y digwyddiadau hyn gan amrywiaeth eang o gynrychiolwyr a oedd yn deillio o lywodraeth leol, y GIG, y trydydd sector a sefydliadau'r sector annibynnol, a rhoddwyd cyfle i'r mynychwyr ofyn cwestiynau'n uniongyrchol i swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau agweddau ar yr ymgynghoriad cyn iddynt gyflwyno ymatebion ffurfiol. Hefyd, mynychodd swyddogion Llywodraeth Cymru nifer o gyfarfodydd a drefnwyd gan sefydliadau eraill yn unswydd ar gyfer ystyried yr ymgynghoriad, yn benodol felly:

- Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf gan Cartrefi Cymunedol Cymru ac a fynychwyd gan randdeiliaid tai allweddol, lle'r aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ati i grynhoi elfennau allweddol yr ymgynghoriad ac ateb cwestiynau'r mynychwyr.
- Cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Awst gan Age Cymru ac a fynychwyd gan aelodau o'i fforwm ymgynghorol ynghyd â grwpiau cenedlaethol sy'n ymhél â phobl hŷn. Unwaith eto, fe wnaeth Llywodraeth Cymru grynhoi elfennau allweddol yr ymgynghoriad ac ateb cwestiynau'r mynychwyr.

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i gyflwyno'u safbwyntiau ar-lein, trwy e-bost neu drwy'r post. Hefyd, lluniwyd crynodeb Hawdd ei Ddeall o'r ymgynghoriad ac fe'i cynhwyswyd yn y pecyn ymgynghori, er mwyn annog amrywiaeth eang o ymatebion.

## Adran 2

### 2.1. Yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad

Daeth cyfanswm o 96 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law Llywodraeth Cymru, yn cynnwys 20 o ymatebion i'r prif ymgynghoriad a gyflwynwyd ar-lein, 71 o ymatebion a gyflwynwyd trwy e-bost, a 5 o ymatebion i'r fersiwn 'hawdd ei deall'.

Cyflwynwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion. Roedd y grŵp mwyaf yn cynnwys ymatebion y categoreiddiwyd eu bod yn deillio o'r Trydydd Sector/Sector Gwirfoddol, sef 29 o ymatebion. Roedd y grŵp mwyaf ond un yn cynnwys ymatebion gan sefydliadau llywodraeth leol – roedd 21 o ymatebion yn perthyn i'r categori hwn. Ymhellach, cafwyd 8 o ymatebion gan sefydliadau y dosbarthwyd eu bod yn sefydliadau'r GIG, a hefyd cafwyd ymatebion gan bob un o'r 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Cafwyd 6 ymateb yn benodol gan ddarparwyr gofal cymdeithasol, a 2 ymateb arall gan gyrff sy'n cynrychioli darparwyr. Categoreiddiwyd bod 5 o ymatebion eraill yn deillio o gyrff sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol. Roedd y categorïau eraill a gynrychiolir yn yr ymatebion yn cynnwys comisiynwyr statudol (4 ymateb), cyrff statudol annibynnol (2 ymateb) ac undebau llafur (2 ymateb). Roedd y categorïau eraill yn cynnwys ymatebion gan unigolion (4 ymateb) a sefydliadau academaidd (1 ymateb). Yn achos yr ymatebion sy'n weddill, ni ellir eu gosod yn rhwydd mewn unrhyw gategori penodol neu nid oedd yn amlwg a oedd yr ymateb yn cynrychioli unigolyn ynteu sefydliad penodol.

Ceir rhestr o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law ar ddiwedd y ddogfen hon – er, mae rhai wedi'u hanonymeiddio gan fod yr ymatebwyr wedi gofyn inni beidio â rhyddhau eu manylion i'r cyhoedd.

Nid ymatebodd yr holl ymgyngoreion i holl benawdau'r ymgynghoriad, nac i'r holl gwestiynau a ofynnwyd. Ymdriniwyd â'r holl ymatebion yn gyfartal, ni waeth sut y cawsant eu cyflwyno.

### 2.2. Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law ac ymateb Llywodraeth Cymru

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dadansoddi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, ac eithrio'r rhannau a oedd yn ymwneud ag egwyddorion y Fframwaith Tâl a Dilyniant. Dadansoddwyd yr elfennau hynny'n benodol gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar ran Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol Cymru.

Caiff y dadansoddiad ei rannu ar sail penodau'r ymgynghoriad. Mae pob pennod yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan randdeiliaid ar gyfer pob cwestiwn o fewn pob maes ymgynghori. Ac eithrio'r bennod sy'n ymwneud â'r Fframwaith Tâl a Dilyniant, ceir adran 'Ymateb Llywodraeth Cymru' lle nodir ymateb y Llywodraeth i'r

materion a godwyd. Hefyd, ceir adran 'camau nesaf' ar ddiwedd y ddogfen lle nodir yr hyn a fydd yn digwydd ar ôl cyhoeddi'r crynodeb hwn.

## 2.3. Rhan 8 – Cod Ymarfer – Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir (Pennod 1 yr ymgynghoriad)

### 2.3.1. Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 1.1** Ydych chi'n credu y bydd yr egwyddorion a'r safonau a amlinellir yn y Cod yn helpu i sicrhau cysondeb ledled Cymru ar gyfer prosesau ac arferion comisiynu, ac yn lleihau dyblygu a chymhlethdod?

Daeth 78 o ymatebion i'r cwestiwn hwn i law. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion hyn o'r farn y byddai'r egwyddorion a'r safonau a bennir yn y Cod yn esgor ar gysondeb ac yn lleihau dyblygu a chymhlethdod yn y broses gomisiynu – neu y byddent, fan leiaf, yn gam cadarnhaol tuag at wneud hynny. Er bod y mwyafrif hefyd yn credu y byddai'r egwyddorion a'r safonau'n lleihau cymhlethdod, cydnabuwyd y byddai rhywfaint o gymhlethdod yn anochel ar adegau, yn enwedig gan fod y farchnad gofal cymdeithasol mor fawr a chan fod nifer o sefydliadau comisiynu i'w cael ledled Cymru.

Aeth nifer o'r ymatebwyr ati i nodi pa adrannau o'r Cod roeddynt yn arbennig o falch o'u gweld, yn cynnwys rhoi pobl a'r 'pethau sy'n bwysig' iddynt wrth galon a chraidd y broses gomisiynu, pwyslais ar gydgynhyrchu, ffocws ar ganlyniadau, cael mwy o dryloywder ynglŷn â phenderfyniadau comisiynu, pwyslais ar ansawdd uwchlaw cost, ystyried bod gwerth yn fwy na chost, mwy o bwyslais ar gydweithio a phwysigrwydd hanesion cleifion wrth fesur llwyddiant. Hefyd, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod cael Cod sy'n berthnasol i Awdurdodau Lleol ac i'r GIG fel ei gilydd yn gam cadarnhaol, a'i fod yn ffordd ddefnyddiol o gefnogi comisiynu cydweithredol.

Roedd nifer fechan (7) o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai'r egwyddorion a'r safonau yn sicrhau cysondeb mewn prosesau ac arferion comisiynu nac yn lleihau dyblygu na chymhlethdod, a dywedwyd y byddai angen mwy nag egwyddorion a safonau i gyflawni hyn. Hefyd, roedd lleiafrif o'r ymatebwyr o'r farn y gallai rhestr o bethau 'y dylid' ac 'na ddylid' eu gwneud arwain at ddryswch ac anghysondebau.

Soniwyd am egwyddorion Pris Teg a Gwaith Teg, ac roedd un darparwr yn arbennig o'r farn na fyddai modd gwireddu'r weledigaeth sydd wrth wraidd Ailgydbwyso Gofal a Chymorth hyd nes y câi taliadau a phrisiau teg eu cyflwyno oddi mewn i'r sector gofal cymdeithasol. Ymhellach, roedd un unigolyn a ymatebodd o'r farn na fyddai'r Fframwaith Cenedlaethol yn datrys y system gofal cymdeithasol gan ei bod, yn eu barn hwy, wedi'i difetha drwy'r arferion comisiynu presennol. Mynegwyd y farn hon gan Unsain Cymru hefyd, a ddywedodd: *mae'r system gofal cymdeithasol wedi torri ac mae'n gweithredu oddi mewn i system gomisiynu ddiffygiol*. Er gwaethaf hyn, roedd yr undeb yn gefnogol iawn i fwriad Llywodraeth Cymru, sef anelu at wella gofal cymdeithasol.

Un pryder a fynegwyd oedd yr anallu i weld manteision y newidiadau arfaethedig o safbwynt dinasyddion ac o safbwynt y gweithlu. Wrth sôn am y cam nesaf, dywedwyd ei bod yn bwysig pennu sut beth yw llwyddiant a dangos sut y gwyddom ein bod yn gwneud gwahaniaeth. Soniwyd sawl gwaith am atebolrwydd a'r modd y

byddai comisiynwyr yn cael eu dwyn i gyfrif pe na baent yn cadw at y Cod. Roedd rhai ymatebwyr yn disgwyl i'r ymgynghoriad gynnwys rhagor o fanylion am yr agwedd hon, ond awgrymodd rhai y byddai'n angenrheidiol cael fframwaith gwerthuso i ddangos y cydymffurfir â'r egwyddorion a'r safonau ac i ddangos y manteision.

Er bod y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn gadarnhaol eu barn ynglŷn â'r Cod ei hun, cafwyd sawl cyfeiriad gan bob sector at yr heriau o ran rhoi'r Cod ar waith. Aeth y mwyafrif o'r ymatebwyr ati i grybwyll adnoddau fel her fawr o safbwynt pobl ac o safbwynt ariannol – "*er bod angen newid, mae'n anodd gweld sut mae modd newid pethau'n foddhaol heb adnoddau ychwanegol' ac mae 'timau comisiynu ar draws Cymru eisoes dan bwysau".*

Nododd llawer o'r ymatebwyr fod niferoedd timau comisiynu wedi lleihau dros y blynyddoedd a'u bod o dan bwysau enfawr ar hyn o bryd, felly byddai angen cynyddu capasiti timau comisiynu lleol a rhanbarthol er mwyn iddynt allu gweithio'n unol â'r Cod.

Wrth gyfeirio at adnoddau ariannol, mynegwyd pryder yn ymwneud â gallu comisiynwyr i dalu pris teg am ofal a chyflogau teg i'r gweithlu gofal cymdeithasol, yn cynnwys sicrhau nodweddion gwaith teg. Er mwyn cyflawni egwyddorion a safonau'r Cod mewn perthynas â chostau gofal, y gred oedd na fyddai modd cyflawni hyn yn yr hinsawdd ariannol bresennol; ac ar ben hyn, mae sefyllfa ariannol Awdurdodau Lleol yn fwyfwy heriol ar hyn o bryd. Felly, roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn gofyn am lefelau cyllid priodol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal a chymorth ac ar gyfer diwallu anghenion poblogaethau lleol – anghenion sy'n prysur gynyddu. Hefyd, y farn oedd y byddai'r heriau ariannol acíwt sy'n bodoli ar hyn o bryd yn siŵr o effeithio ar y dymuniad i gydgynhyrchu mewn modd ystyrlon, a hynny oherwydd yr amser a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i wneud hynny, er gwaethaf y ffaith y gwyddom fod cydgynhyrchu yn fwy tebygol o hybu'r canlyniadau comisiynu gorau.

Yn ychwanegol at gapasiti timau comisiynu, dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod angen sicrhau bod hyfforddiant a chymwysterau priodol ar gael i gomisiynwyr er mwyn eu galluogi i weithio'n unol â'r Cod. Nodwyd hefyd fod niferoedd a galluoedd comisiynwyr ledled Awdurdodau Lleol a'r GIG yn amrywio'n fawr, ac awgrymodd un ymatebydd fod gwaith comisiynu'r GIG yn llai datblygedig na gwaith comisiynu Awdurdodau Lleol. Cyfeiriwyd at adroddiad diweddar Archwilio Cymru, sef 'Cyfle wedi'i golli – Mentrau Cymdeithasol' a'r canfyddiad bod Awdurdodau Lleol yn brin o adnoddau a bod timau caffael a chomisiynu yn aml yn brin o sgiliau a chapasiti ar gyfer gwireddu'r manteision sy'n perthyn i werth cymdeithasol. Dywedwyd hefyd y dylid ystyried bod comisiynu yn rôl broffesiynol, ac o'r herwydd y dylai gael yr adnoddau a'r cymorth priodol. Y gred oedd y byddai cael fframwaith cymwysterau cenedlaethol ar gyfer comisiynwyr yn fuddiol o ran cydnabod y proffesiwn a'r sgiliau gofynnol.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn croesawu'r cynnig y dylid cael pecyn cymorth i gynorthwyo comisiynwyr, ac roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai cael yr offer iawn oddi mewn i'r pecyn cymorth yn gwella cysondeb ac yn lleihau dyblygu a chymhlethdod. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y byddai angen canllawiau ychwanegol er mwyn dangos yn glir sut y gellir rhoi'r egwyddorion a'r safonau ar waith, a dywedwyd y dylid cynnwys canllawiau o'r fath yn y pecyn cymorth

arfaethedig. Hefyd, roedd nifer o'r ymatebwyr yn credu bod yr ymrwymiad i adolygu a diweddaru'r Cod bob dwy flynedd yn gam cadarnhaol.

Cyfeiriwyd at arferion caffael. Dywedwyd bod yn rhaid mynd ati'n eithaf mynych i dendro ac aildendro am wasanaethau yn rhy aml, a phwysleisiwyd pa mor bwysig yw sicrhau bod adrannau caffael corfforaethol yn cefnogi'r dulliau caffael mwyaf effeithiol yn unol â'r egwyddorion a'r safonau er mwyn cyflawni gofynion y Cod.

Tynnwyd sylw at wahaniaethau mawr rhwng strwythurau a phrosesau Awdurdodau Lleol unigol a strwythurau a phrosesau'r GIG, ac yn arbennig felly eu cynlluniau dirprwyo unigol a'u rheolau ar gyfer gweithdrefnau contractio. Awgrymwyd y byddai'n parhau i fod yn anodd rhoi dull cyson ar waith ledled Cymru oherwydd hyn.

Soniodd nifer o'r ymatebwyr am yr angen i newid diwylliant ac ymwreiddio dulliau gweithio newydd, ac roedd un Awdurdod Lleol yn arbennig o'r farn y byddai'n cymryd amser i ddatod ffyrdd cyfredol o weithio er mwyn gallu gweithio'n unol ag egwyddorion a safonau'r Cod.

Roedd llawer o'r ymatebion yn awgrymu ffyrdd amgen a defnyddiol o eirio rhai o'r egwyddorion a'r safonau er mwyn eu cryfhau a'u hatgyfnerthu. Er enghraifft cyfeirio at les pennaf plant a phobl ifanc yn Safon 10, cyfeirio at rannu data gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Safon 4.

Gofynnwyd hefyd am gael cryfhau'r Cod trwy gyfeirio ymhellach at gyllid cynaliadwy i ddarparwyr, yn enwedig i'r trydydd sector. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried cam 'cyn comisiynu' fel y gellid llunio datganiad yn nodi 'sut beth fyddai sefyllfa dda'. Y gred oedd y byddai treulio rhagor o amser yn ystod y cam cynllunio hwn yn y cylch comisiynu, er mwyn cydgynhyrchu "*sut beth fyddai sefyllfa dda*", yn esgor ar gomisiynu mwy llwyddiannus.

**Cwestiwn 1.2** Ydych chi'n credu y bydd y safonau a amlinellir yn y Cod yn helpu i sicrhau cysondeb ledled Cymru ar gyfer prosesau ac arferion comisiynu, ac yn lleihau dyblygu a chymhlethdod?

Cydnabyddir bod gorgyffwrdd rhwng Cwestiynau 1.1 a 1.2 yn y cwestiynau ymgynghori. Cafwyd 56 o ymatebion i gwestiwn 1.2 ond nododd llawer o'r rhain eu bod wedi ymdrin â'r cwestiwn hwn yn eu hymateb i Gwestiwn 1.1. Felly, rydym wedi cofnodi'r ymatebion a gafwyd am y safonau o fewn Cwestiwn 1.1 yn y crynodeb ar gyfer Cwestiwn 1.2, yn hytrach na chynnwys yr un testun ddwywaith.

Fel yn achos yr egwyddorion, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gefnogol i'r safonau ac yn credu bod ganddynt y potensial i sicrhau cysondeb ledled Cymru o ran prosesau comisiynu, ymarfer, a lleihau dyblygu a chymhlethdod.

*"Mae'n ddefnyddiol cael set genedlaethol o safonau ac rydym yn cefnogi'r meysydd allweddol sydd dan sylw o ran y safonau".*

Roedd llawer o'r ymatebion yn croesawu'r dull cyson y byddai'r egwyddorion a'r safonau yn ei gynnig ac yn nodi'n arbennig y bydd y safonau'n helpu i sicrhau mwy o gydymffurfio â'r weledigaeth a bennwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, teimlid y byddai'r safonau'n golygu bod modd comisiynu'n fwy effeithlon.

Teimlai un Awdurdod Lleol bod y safonau'n ymestynnol ac yn uchelgeisiol mewn rhai meysydd a dywedodd eraill fod y safonau'n cynnwys yr hyn y byddent yn disgwyl ei weld. Nododd un arall y byddai'r safonau, pe baent yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd, yn ymdrin yn gynhwysfawr â'r holl elfennau allweddol sydd eu hangen i sicrhau comisiynu effeithiol, moesegol a chynaliadwy.

Gwnaed llawer o sylwadau cadarnhaol mewn perthynas â'r safonau, er enghraifft eu bod yn ymdrin â'r materion cywir ac yn amlwg yn gosod profiad pobl sydd angen gofal a chymorth wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Credid bod y deg safon yn helpu i sicrhau mwy o gydymffurfio â Deddf 2014. Croesawyd y cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â'r safonau o ran datblygu sylfaen werthoedd gyson i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu comisiynu. Yn ogystal roedd cael cyfeiriad at ofalwyr di-dâl o fewn y safonau hefyd yn cael ei ystyried yn gadarnhaol.

Nododd nifer bach o ymatebion, er eu bod yn gefnogol i'r safonau, nad oeddent yn teimlo y byddai'r egwyddorion a'r safonau ar eu pen eu hunain yn arwain at y newidiadau sydd eu hangen mewn gofal cymdeithasol, a'u bod yn teimlo bod heriau dwfn o ran diwylliant sefydliadol, y sefyllfa ariannol a'r diffyg gweithlu yn y sector.

Mynegwyd y farn hefyd y gallai tegwch mynediad at ofal a chymorth o safon fod yn bwysicach na chysondeb wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth; fodd bynnag, awgrymwyd bod diffyg safoni polisïau comisiynu wedi creu anghysondebau ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y cyd-destun hwn, teimlid bod y safonau'n ddefnyddiol a'u bod i'w croesawu.

Cynigiodd un Awdurdod Lleol y byddai cyflwyno gofynion Gwaith Teg a Phris Teg mewn contractau comisiynu yn cael effaith fuddiol o ran hybu parch cydradd, ond y byddai'n ddibynnol ar gyllid ychwanego. Nododd un bod yn rhaid i'r safonau fod yn fforddiadwy.

Yn ôl un Bwrdd Iechyd, wrth i wasanaethau integredig gael eu cyflwyno fwyfwy ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd, bydd y ffordd y bydd y Cod yn gymwys i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn ei gwneud yn haws *comisiynu* gwasanaethau ar y cyd. Nododd ymatebion eraill hefyd fod cael yr un safonau i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol eu dilyn yn sicr yn gam i'r cyfeiriad cywir.

*"Yn rhy aml mae darparwyr cofrestredig yn cael eu dal mewn dadleuon rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lle mae'r ffocws ar gyfrifoldeb sefydliadol a chyllid yn hytrach nag ar les yr unigolyn sydd angen gofal"*

Roedd nifer o'r ymatebion a ddaeth i law, er eu bod yn gefnogol iawn i'r safonau, yn awgrymu gwelliannau iddynt y credent fyddai'n eu cryfhau. Ymysg yr enghreifftiau roedd yr angen i ddiffinio cydgynhyrchu, newid 'dylai' i 'rhaid' mewn rhai mannnau, cyfeiriad cryfach at bobl â nodweddion gwarchodedig, eglurder ynghylch sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur a chyfeiriad cryfach er lles pennaf plant a phobl ifanc.

Roedd rhai awgrymiadau pellach yn cyfeirio at yr hyn a fyddai'n helpu i gyflawni'r safon Cynhwysiant a Mynediad Digidol.

*"Mae angen sefydlu mecanwaith lle bydd systemau data yn siarad â'i gilydd fel bod modd cyflawni'r egwyddor o fynd i mewn i system unwaith a'i defnyddio lawer gwaith."*

Hefyd, dylid cymhwyso'r safonau yn gyfartal ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat. Yn yr un modd, teimlid y dylai'r safon sy'n ymwneud â risg nodi’n glir y dylai risgiau gael eu rhannu ac y byddai hyn yn gofyn am drafodaethau gonest rhwng comisiynwyr a darparwyr ynghylch parodrwydd i dderbyn risg a rhannu risgiau. Teimlid hefyd byddai’r hyblygrwydd i ganiatáu contractau tymor hir â darparwyr yn ffactor a fyddai'n helpu gwasanaethau i ddod yn fwy cynaliadwy ac yn help i les staff.

Roedd un ymateb yn cyfeirio’n benodol at froceriaeth a'r swyddogaeth bwysig sydd i hynny fel rhan o'r cylch comisiynu gan ei fod yn cysylltu â mecanweithiau talu a chontractau effeithiol. Teimlid bod broceriaeth yn swyddogaeth werthfawr ac yn gallu gweithio'n ddwys gyda darparwyr a thimau gweithredol i sicrhau'r gofal cywir, a’i fod yn ddull mwy cost-effeithiol gan ei fod yn rhyddhau capasiti gwaith cymdeithasol fel y gallant ganolbwyntio ar eu rolau gwaith cymdeithasol.

Roedd ymateb Swyddfa’r Comisiynydd Pobl Hŷn yn cynnwys y farn y byddai'n "*ddefnyddiol nodi sut y gellid cadw gweithwyr hŷn yn ogystal â'u denu i'r sector cymdeithasol ac y gallai hyn gynnwys edrych ar yr iaith a ddefnyddir wrth recriwtio, gan dynnu sylw at unrhyw opsiynau gweithio hyblyg a buddion eraill".*

Roedd llawer o'r ymatebion a gafwyd yn codi pryder ynghylch gweithredu'r Cod a'r heriau a ddaw yn sgil hyn. Codwyd llawer o'r un pryderon mewn perthynas â'r egwyddorion, fel y nodwyd yng Nghwestiwn 1.1 uchod. Er mwyn osgoi dyblygu, nid yw'r rhain yn cael eu hailadrodd yma ond maent yn cynnwys diffyg adnoddau, capasiti a galluoedd comisiynu a heriau gweithlu yn fwy cyffredinol ar draws y sector gofal cymdeithasol.

Nodwyd y byddai rhai o'r safonau yn heriol i'w cyflawni a chyfeiriodd ymatebwyr yn benodol at y rhai sy'n ymwneud â Gwaith Teg a Phris Teg a gallu cadarnhau cyfraddau ffioedd mewn modd amserol a gweithio yn unol â Mwy Na Geiriau. Nodwyd hefyd y byddai angen arbenigedd dadansoddi i gefnogi comisiynwyr – adnodd a sgiliau y teimlid eu bod yn brin ar hyn o bryd.

Cododd un darparwr bryder nad oedd y safonau bob amser yn ymddangos yn gyson â'r dogfennau a'r strategaethau eraill sy'n deillio o Lywodraeth Cymru, a allai arwain at heriau o ran eu gweithredu. Tynnodd ymateb arall sylw at ffactorau a allai fod yn rhwystr i weithredu rhai o'r safonau, er enghraifft cyllido a chodi tâl yn gysylltiedig â diwylliant amser a thasg mewn gwasanaethau i oedolion. Awgrymwyd hefyd y byddai'n anodd gweithredu newidiadau polisi sy'n gysylltiedig â thrawsnewid gwasanaethau plant mewn perthynas â'r safonau pan nad yw'n hysbys pa ffurf fydd i’r drefn gomisiynu newydd yn ystod y degawd nesaf ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai diweddariadau o’r Cod Ymarfer yn y dyfodol ymgorffori hyn yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd yng nghyd-destun datblygu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

Yn ogystal, mynegwyd pryder, oherwydd cyfyngiadau ariannol, bod ystod a lefel y gwasanaethau ataliol wedi lleihau dros y blynyddoedd ac y byddai hyn yn effeithio ar gyflawni'r safonau sy'n ymwneud â chynnal dull cyfannol o fewn gwasanaethau gofal a chymorth. Yn ychwanegol, o safbwynt gwasanaethau ataliol, nododd un ymateb y byddai'n ddefnyddiol cytuno ar fethodoleg dderbyniol ar gyfer tystiolaeth o atal ac y byddai’n ddefnyddiol egluro hanfod atal.

Roedd cael pecyn cymorth cenedlaethol i gefnogi comisiynwyr i weithio yn unol â'r Cod yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol, fel y nodwyd yng nghwestiwn 1.1 uchod, ond teimlid hefyd ei bod yn bwysig cael cynllun datblygu cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu, gan y byddai hyn yn helpu i feithrin a thyfu talent a sicrhau bod gan gomisiynwyr y sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen i fodloni gofynion y Cod. Cafwyd awgrym bod angen fframwaith cymwysterau cenedlaethol er mwyn uwchsgilio comisiynwyr ac er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd rolau comisiynu.

Credai un Awdurdod Lleol y byddai'n ddefnyddiol cael mesurau ar waith i sicrhau bod gweithredu'n digwydd a bod tystiolaeth o hynny ar gael. Yn yr modd â'r atebion a gafwyd i gwestiwn 1.1, gofynnwyd am eglurder ynghylch rôl y Swyddfa Genedlaethol o ran gweithredu'r safonau a sicrhau cydymffurfiaeth â hwy.

**Cwestiwn 1.3** Ydych chi'n credu y bydd y gofynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn helpu i sicrhau cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg a'r cynnig rhagweithiol?

Daeth 56 o ymatebion i'r cwestiwn hwn i law yn yr ymgynghoriad. Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod y Cod yn cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod hyn yn ffordd o atgoffa pobl o'r gofynion sydd eisoes ar waith trwy gyfrwng Mwy na Geiriau a Deddf yr Iaith Gymraeg, neu ei fod yn ffordd o atgyfnerthu'r gofynion hynny. Nid oeddynt o'r farn y byddai'r gofynion yn gwella'r sefyllfa bresennol o ran darpariaeth Gymraeg.

Yn achos y sefydliadau cyhoeddus a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, fe wnaethant gadarnhau eu bod eisoes yn gweithio yn unol â Mwy na Geiriau a'u bod yn hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol. Roedd y Comisiynydd Pobl Hŷn o'r farn bod y Cod yn ymatal rhag pennu bod yn rhaid darparu gwasanaethau yn y Gymraeg pa bryd bynnag y bo rhywun yn gofyn am hynny, a dywedodd y dylai rheolwyr y farchnad sicrhau bod digon o wasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael i gyflawni hyn. Fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd y byddai'n fuddiol cael cymalau safonol er mwyn gallu pennu cyfres o ofynion cenedlaethol. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd y Cod yn cynnwys digon o fanylion ynglŷn ag ymdrin â'r rhwystrau, megis diffyg siaradwyr Cymraeg, gwahaniaethau daearyddol, diffyg cysondeb o ran cyrsiau Cymraeg am ddim/a ariennir, y gyfran o weithwyr gofal cymdeithasol nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf neu sydd ag anawsterau llythrennedd, a'r her sy'n wynebu gweithwyr gofal cymdeithasol o ran ymgymryd â chymwysterau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus arall (sef rhywbeth sy'n effeithio ar eu gallu a'u hamser i ddysgu Cymraeg).

*"Mae angen canolbwyntio hefyd yn y system addysg yng Nghymru ar hyrwyddo'r cyfleoedd ar gyfer llwybrau gyrfa lle mae gan y Gymraeg ran bwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol".*

Cynigiodd nifer fechan o ymatebwyr y dylid defnyddio iaith gryfach o lawer yn y rhan hon o'r Cod – nid 'dewis iaith' yw angen ieithyddol yng nghyd-destun gofal cymdeithasol, ond rhywbeth sy'n hollol hanfodol ac sy'n gyfystyr ag 'angen'. Ond i'r gwrthwyneb, roedd un ymatebydd yn methu â gweld pa ran sydd gan y Gymraeg yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau, gan mai cyfran fechan o Gymru sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg a chan fod pawb yn gallu siarad, ysgrifennu a darllen Saesneg – sef iaith y DU. O'r herwydd, roedd yr unigolyn hwn o'r farn y byddai'n fwy priodol rhoi'r cyllid a dargedir at y Gymraeg i'r GIG.

Er bod y mwyafrif llethol yn cydnabod bod atgyfnerthu gofynion y Gymraeg a llunio cymalau cenedlaethol cytunedig yn rhywbeth buddiol a gwerth chweil, mae'r her o ran cyflawni hyn yn destun pryder, yn enwedig o gofio bod bylchau sylweddol i'w cael yn y gweithlu gofal cymdeithasol.

Dod o hyd i ddarpariaeth Gymraeg yw'r her fwyaf ym marn yr ymatebwyr, a dywedwyd y byddai'n rhaid mynd i'r afael â chyflogau ac amodau'r gweithlu gofal cymdeithasol er mwyn denu siaradwyr Cymraeg i'r sector. Yn wir, nododd yr ymatebwyr fod ymdrechion ar droed i ddenu gweithwyr gofal cymdeithasol o wledydd eraill i weithio yng Nghymru, a hynny oherwydd yr anallu i recriwtio gweithwyr gofal cymdeithasol. Byddai gweithwyr o'r fath angen blynyddoedd lawer i ddysgu Cymraeg hyd at lefel a fyddai'n eu galluogi i siarad yn hyderus â defnyddwyr gwasanaethau. Cawsom ein hatgoffa hefyd fod y gyfran o bobl sy'n siarad Cymraeg ledled Cymru yn amrywio'n ddaearyddol ac y ceir mwy o angen am ddarpariaeth Gymraeg mewn gwahanol rannau o'r wlad. Ymhellach, y gred oedd y dylai Llywodraeth Cymru gynnig mwy o gymelliadau a chyrsiau i gynorthwyo gweithwyr gofal i ddysgu Cymraeg, ond bod angen cymell hyn hefyd. Hefyd, mewn perthynas â Mwy na Geiriau, y farn yw bod angen cynnig rhaglen wedi'i chynllunio a'i hariannu'n llwyr – hynny yw, rhaglen lle darperir cyrsiau dysgu oedolion yn rhad ac am ddim i weithwyr gofal cymdeithasol.

Er bod sefydliadau'r Trydydd Sector o blaid atgyfnerthu'r Gymraeg a chyflawni'r cynnig rhagweithiol, fe wnaethant nodi nad yw'n ofynnol iddynt weithio yn unol â Mwy Na Geiriau. Nid chânt unrhyw gyllid i'w cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, felly mae hi'n anodd iddynt sicrhau bod deunyddiau dwyieithog ar gael oherwydd diffyg cyllid. Pe bai arian ar gael iddynt, byddent yn awyddus i hyrwyddo'r Gymraeg a defnyddio mwy ar yr iaith. Hefyd, dywedodd darparwyr fod cyfieithu dogfennau, megis datganiadau o ddiben a chanllawiau i ddefnyddwyr gwasanaethau, yn waith costus. Eu pryder yw na chaiff y costau hyn eu cydnabod na'u hystyried yn ystod y broses gomisiynu.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r Cod gynnwys gwybodaeth am y modd y dylid mynd ati'n ymarferol i gyflawni disgwyliadau'n ymwneud â'r Gymraeg, ac awgrymwyd hefyd y byddai'n fuddiol cael adnodd monitro cenedlaethol i fonitro'r Gymraeg gan y byddai hynny'n arwain at well cysondeb, ac y dylai fod yn rhan o'r broses monitro contractau.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ba mor bwysig yw sicrhau, addysgu a hysbysu defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd ynglŷn â'u hawliau i gael gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a pha mor bwysig yw eu grymuso er mwyn sicrhau y bydd modd iddynt gael gwasanaethau yn eu dewis iaith.

**Cwestiwn 1.4:** Ydych chi'n credu y bydd y gofynion mewn perthynas â Chydraddoldeb yn helpu i hyrwyddo a gwella hawliau unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth, a hawliau gofalwyr?

Daeth 60 o ymatebion i'r cwestiwn hwn i law. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn debyg i'r safbwyntiau a gyflwynwyd ar gyfer cwestiwn 1.3. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod y Cod yn cyfeirio at gydraddoldeb. Ond roedd nifer ohonynt o'r farn bod y gofynion yn cyd-fynd â gofynion cyfredol ac nad oeddynt yn gosod unrhyw alwadau ychwanegol. Nodwyd y byddai ailddatgan y gofynion yn ddefnyddiol i gomisiynwyr.

Nododd un neu dddau o Awdurdod Lleol eu bod yn rhoi ystyriaeth i faterion cydraddoldeb yn eu prosesau comisiynu, ac o'r herwydd nid oeddynt yn credu bod gofynion yr adran hon yn gwella'u harferion cyfredol. Ond roedd ymatebwyr eraill o'r farn y byddai pennu materion cydraddoldeb yn y Cod yn sicrhau y byddai comisiynwyr yn ystyried y gofynion ac y byddai hynny, yn y pen draw, yn gwella gwasanaethau,

Y farn oedd y dylai'r Cod nodi'n gliriach sut y dylid cyflawni gofynion cydraddoldeb yn ymarferol. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r 'pethau y mae'n *rhaid* eu gwneud' a'r 'pethau y *dylid* eu gwneud' mewn gofal cymdeithasol i oedolion, a dywedwyd bod hyn yn arwain at beidio â rhoi blaenoriaeth ddigonol i anghenion rhai defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai angen llunio rhagor o ganllawiau i gynorthwyo comisiynwyr, ac y dylid cynnwys y canllawiau hynny yn y pecyn cymorth. Y gred oedd bod angen cyfeirio'n fwy penodol at y modd y gellir ymgysylltu â grwpiau nas gwasanaethir yn ddigonol ac a ddiogelir gan y Ddeddf Cydraddoldeb, neu grwpiau sydd efallai yn wynebu amryfal rwystrau megis pobl anabl. Ymhellach, gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am gyrsiau hyfforddi pwrpasol ar gyfer Cymru gyfan i gynorthwyo comisiynwyr, a chyfeiriwyd yn benodol at y modd y gallai arferion comisiynu a chaffael ategu Cynllun Gweithredu LHDTC+ a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Gyfan. Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi hyfforddiant i arweinwyr yn ogystal ag i gomisiynwyr, ac y dylid datblygu ffyrdd o rannu'r pethau a ddysgir ynglŷn â chynhwysiant ar draws y sector. Ymhellach, credir y dylai pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, a'u gofalwyr, fod yn ymwybodol o'u hawliau ac y dylent gael eu grymuso i gyfeirio at yr hawliau hynny wrth godi pryderon.

Awgrymwyd y gellid cryfhau Safon 10 ymhellach trwy annog comisiynwyr i gasglu adborth gan bobl sy'n byw gyda dementia ac sy'n defnyddio gofal a chymorth, fel rhan o'u hymrwymiad i ddangos sut y maent yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu. Hefyd, roedd rhai o'r farn ei bod yn bwysig i gomisiynwyr gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a dywedasant eu bod yn bryderus gan na sonnir yn y Cod am ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Y gobaith oedd y byddai'r Cod yn helpu i hyrwyddo a gwella hawliau unigolion. rheoleiddwyr gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

Roedd un sefydliad o'r farn nad oedd y Cod yn cynnwys digon o naratif ynglŷn â hawliau dynol. Nid oedd yn credu y byddai'r wybodaeth yn y Cod yn galluogi comisiynwyr i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â hawliau dynol. Awgrymwyd y dylid cyfeirio at y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, gan bennu'r gofynion a roddir ar gyrff cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau caffael a chomisiynu, yn cynnwys lleihau canlyniadau anghydradd.

Gofynnodd nifer fechan o ymatebwyr am well eglurhad o'r modd y dylai comisiynwyr arddangos y broses a roddwyd ar waith ganddynt yn ymarferol. Soniwyd am faterion yn ymwneud â diffyg dull cyson o fonitro cydraddoldeb ac awgrymwyd y dylid datblygu dull cenedlaethol, safonol.

Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith bod oedran yn nodwedd warchodedig, ond mynegodd bryder ynghylch y ffaith bod Byrddau Iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dal i ddefnyddio iaith sy'n dangos rhagfarn ar sail oedran, er enghraifft '*yr henoed a wardiau sy'n gofalu am yr henoed'.*

Y farn oedd y dylai'r Cod gyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, gan fynd ati i roi cryn bwyslais ar y confensiwn hwnnw. Hefyd, rhoddwyd pwyslais mawr ar yr angen i newid diwylliant fel y gellir ymgorffori Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o'r adeg y pennir rhyw angen a thrwy gydol y cylch comisiynu, yn cynnwys y broses dendro, yr holiadur Cyn-gymhwyso, y gwahoddiad i dendro a'r camau tendro. Gofynnwyd am gael cryfhau hawliau gofalwyr yn y Cod, gan roi mwy o bwyslais ar ddeall faint o ofalwyr di-dâl sydd i'w cael fel rhan o waith mapio demograffeg/anghenion a chan sicrhau bod digon o wasanaethau a ariennir ar gael er mwyn cynorthwyo gofalwyr i aros yn feddyliol ac yn gorfforol abl i barhau â'u rolau gofalu.

**Cwestiwn 1.5** Ydych chi'n credu y bydd y gofynion a'r canllawiau statudol yn y Cod yn helpu i leihau cymhlethdod ac yn sicrhau cysondeb cenedlaethol wrth gomisiynu gofal a chymorth?

Daeth 60 o ymatebion i'r cwestiwn hwn i law yn yr ymgynghoriad. Croesawyd y Cod yn gyffredinol a'r farn oedd bod y gofynion yn cynnig canllaw defnyddiol, eglurder a chysondeb ar gyfer comisiynu gofal ledled Cymru. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen hyn.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai'r gofynion a'r canllawiau newydd wella ansawdd gofal, ynghyd â gwella cymorth i unigolion a gwella canlyniadau, cyn belled ag y byddent yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Hefyd, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y gofynion a'r canllawiau newydd yn cynnig cyfeiriad cadarnhaol. Bydd y canllawiau a'r pecyn cymorth yn ategu'r dasg o roi'r Cod ar waith. Hefyd, y farn oedd y byddai'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth yn fuddiol.

Y gred oedd bod gan yr offer newydd botensial i leihau'r cymhlethdod, y dyblygu a'r amrywio a welir mewn dulliau comisiynu, ac y gallent gynnig gwell cysondeb trwy'r wlad. Roedd yr ymatebwyr yn falch bod y canllawiau a'r gofynion yn rhoi pwyslais ar gydweithio/cydgynhyrchu, a chroesawyd y syniad o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Yn ôl yr ymatebwyr, mae gweithredu'r Cod ar draws disgyblaethau/sectorau yn rhywbeth y dylid ei groesawu, yn arbennig gan y bydd yn dwyn iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd. Felly, mae'n ategu nodau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn hefyd fod mynnu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhywbeth cadarnhaol. Dywedwyd hefyd y byddai cyfnodau diwygio rheolaidd yn ei gwneud yn bosibl i ddiwygio'r cynnwys. Yn olaf, croesawyd darpariaethau ar gyfer adnoddau digonol.

O ran yr ymatebion cadarnhaol, tynnodd yr adborth sylw at botensial y Cod i wella comisiynu a gofal trwy sicrhau gwell canllawiau, cysondeb, cydweithio ac atebolrwydd, cyn belled ag y byddai'n cael ei roi ar waith yn effeithiol. Roedd y themâu cadarnhaol mynych yn ymwneud â chysondeb, eglurder a dull cydweithredol.

Fodd bynnag, roedd yna bryderon ynglŷn â diffyg cyllid ac adnoddau ar gyfer gweithredu'r newidiadau, yn enwedig ar gyfer cynyddu cyflogau a mynd i'r afael â

phrinder staff. Tynnwyd sylw at anawsterau o ran recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol. Dywedwyd bod y gweithlu wedi ymlâdd yn barod.

Nodwyd y gallai'r canllawiau newydd waethygu'r cymhlethdod yn hytrach na'i leihau, gyda mwy o ofynion adrodd a llai o eglurder mewn rhai meysydd. Amheuwyd bod cysondeb i'w gael rhwng ardaloedd oherwydd gwahaniaethau lleol wrth ddehongli a gweithredu.

Ni chynhwyswyd cwestiynau'n ymwneud â chydymffurfio ac atebolrwydd. Hefyd, mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon y gallai awdurdodau lleol fynd o'r tu allan i'r gofynion. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â baich adrodd ychwanegol i ddarparwyr ac awdurdodau lleol, a allai fod yn broblemus.

Ystyriwyd bod peidio ag ymgynghori ynglŷn â'r pecyn cymorth yn fater problemus. Beirniadwyd y dull 'o'r brig i lawr' a ddefnyddiwyd. Y teimlad oedd bod y pecyn cymorth eisoes o'r farn nad yw rhai arferion comisiynu cyfredol yn arferion da.

Crybwyllwyd materion yn ymwneud â chyfathrebu rhwng comisiynwyr, darparwyr a'r sector. Y gred oedd na fyddai'r canllawiau newydd yn ymdrin â'r materion hyn, nac ychwaith â phroblemau hirdymor eraill sy'n perthyn i ofal cymdeithasol, megis bylchau mewn cyllid.

Yn olaf, roedd yna bryderon ynglŷn â chasglu a defnyddio data, a hefyd yr effaith bosibl ar fentrau llai, mentrau lleol a mentrau iaith Gymraeg. Felly, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru liniau'r effeithiau negyddol posibl ar ddarparwyr llai ac ar y Gymraeg.

I grynhoi, roedd y pryderon yn canolbwyntio ar broblemau'n ymwneud ag adnoddau a'r gweithlu, ochr yn ochr â chysondeb, atebolrwydd, cymhlethdod a chyfathrebu. Ceir pryder hefyd nad yw'r cod yn ymdrin â rhai materion systemig ehangach.

O ran y ffordd orau y gallai Llywodraeth Cymru ymdrin â'r pryderon hyn, awgrymodd yr ymatebwyr fod angen darparu adnoddau a chyllid ychwanegol i ategu'r gwaith o weithredu'r Cod, yn cynnwys adnoddau a chyllid ar gyfer meithrin sgiliau a chapasiti. Y teimlad hefyd oedd y byddai angen canllawiau, cymorth ac eglurder i hwyluso cysondeb wrth ddehongli a gweithredu ar draws gwahanol ardaloedd; byddai hynny hefyd yn helpu i ddiffinio termau allweddol yn glir. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai ystyried contractau hwy i ddarparwyr a phrisiau mwy cyson yn lleihau'r cymhlethdod. Hefyd, dylid mynd ati i sefydlu systemau adborth er mwyn sicrhau y caiff arferion eu dilyn ac y gellir crybwyll materion a phroblemau. Mewn perthynas â hyn, gellid adolygu'r gofynion adrodd er mwyn eu symleiddio ac osgoi dyblygu. Gellid ystyried treialu ac asesu'r canllawiau cyn eu rhoi ar waith.

Er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydymffurfio a gorfodi o fewn y cod, byddai'n rhaid cael atebolrwydd clir. Gellid ymdrin â hyn yn rhannol trwy gadarnhau trefniadau llywodraethu, er enghraifft rôl y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd cydweithio rhwng rhanddeiliaid, rhannu arferion gorau, cydgynhyrchu ac integreiddio er mwyn lleihau dyblygu. Gallai hyn sicrhau cysondeb rhwng Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol, gan roi rhywfaint o hyblygrwydd lleol hefyd.

Dywedwyd hefyd y gallai newidiadau ehangach y tu hwnt i gomisiynu helpu i symleiddio mynediad i ddefnyddwyr gwasanaethau, megis ystyried trefniadau sicrhau ansawdd. Efallai hefyd y byddai o fudd mynd ati i safoni'r arfer o gasglu a defnyddio data fel y gellir monitro ei effeithiolrwydd. Efallai y byddai hynny'n arwain at fynnu bod yn rhaid darparu data.

I grynhoi, roedd yr awgrymiadau'n canolbwyntio ar y canlynol: darparu rhagor o gymorth ac adnoddau ar gyfer gweithredu, sicrhau cysondeb, gwella atebolrwydd, hwyluso cydweithio ac integreiddio, gwella arferion data, caniatáu peth hyblygrwydd lleol a lliniaru risgiau.

**Cwestiwn 1.6**: Ydych chi'n credu y bydd y gofynion a'r canllawiau statudol yn y Cod yn helpu i wella canlyniadau ar gyfer unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth, a gofalwyr?

Daeth 63 o ymatebion i'r cwestiwn hwn i law yn yr ymgynghoriad. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn croesawu'r gofynion a'r canllawiau statudol yn y Cod. Cyflwynodd llawer o'r ymatebwyr sylwadau cadarnhaol ac roeddynt yn cytuno bod y Cod yn pennu cyfeiriad cadarnhaol.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod canolbwyntio ar ganlyniadau, canolbwyntio ar roi ansawdd uwchlaw cost a chanolbwyntio ar yr "hyn sy'n bwysig" yn fuddiol ar gyfer gwella canlyniadau. Eisoes, mae gweithredu'r Ddeddf wedi cryfhau llais gofalwyr ac wedi gwella'r cymorth, ac awgrymodd yr ymatebwyr fod y Cod yn adeiladu ar hyn. Dywedwyd bod y canllawiau'n nodi'r disgwyliadau'n glir ac y bydd troi tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol yn esgor ar ganlyniadau gwell. Dywedwyd hefyd fod y gofynion yn atgyfnerthu arferion da sydd ar waith eisoes mewn perthynas â gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac ar unigolion.

Os bydd y gofynion yn cyflawni'r newidiadau y dymunir eu gweld wrth gomisiynu, dywedodd yr ymatebwyr y byddant yn gwella canlyniadau, ac mae pwysleisio mynediad amserol at ofal yn rhywbeth cadarnhaol. Croesawyd y pecyn cymorth a'r canllawiau a dywedwyd y byddant yn cynorthwyo i roi'r Cod ar waith.

Yn gyffredinol, roedd nifer o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddorion ac roeddynt yn gweld bod gan y Cod y potensial i wella canlyniadau os caiff ei weithredu'n briodol gydag adnoddau, hyfforddiant a threfniadau monitro digonol; ond bydd llwyddiant yn hyn o beth yn ddibynnol ar y modd y'i rhoddir ar waith.

Gwelir bod yr adborth cadarnhaol yn tynnu sylw at y gefnogaeth gyffredinol a roddir i'r egwyddorion ac at botensial y Cod i wella canlyniadau trwy ei ganllawiau, trwy ei gydweddu â'r Ddeddf, trwy ganolbwyntio ar ansawdd, trwy ei ganlyniadau a thrwy ei natur amserol. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu ei botensial yn ymarferol, rhaid sicrhau y caiff ei weithredu a'i fonitro'n briodol a rhaid sicrhau y neilltuir adnoddau priodol ar ei gyfer.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai cyfyngiadau ariannol a phwysau o ran adnoddau lesteirio'r broses weithredu. Byddai angen hyfforddiant a monitro

ychwanegol, a’r teimlad oedd bod 10 mlynedd yn gyfnod rhy hir i weld y newidiadau y mae eu hangen yn awr yn y sector gofal cymdeithasol.

Gofynnodd yr ymatebwyr a fydd y Cod a’r adnoddau ategol ar eu pen eu hunain yn gwella canlyniadau. Nid oedd yn glir sut y byddai’r canlyniadau’n cael eu monitro. Nodwyd bod problemau o ran diwylliant ac arferion comisiynu cyfredol yn rhwystrau ac roedd yr ymatebwyr o’r farn y byddai’n rhaid newid yr arferion cyfredol yn sylweddol.

Roedd rhai o’r ymatebwyr yn ofni y gallai’r diffyg manylion ac eglurder yn y Cod arwain at ddehongli cynnwys y Cod mewn gwahanol ffyrdd. Hefyd, mae’r diffyg eglurder hwn yn ymwneud â dehongli’r “*pethau sy’n bwysig i mi*” ar gyfer gwahanol boblogaethau. Felly, mae angen cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i raddau helaethach yn y broses gomisiynu er mwyn sicrhau cynwysoldeb priodol.

Roedd ystyriaethau eraill yn ymwneud ag anawsterau o ran mesur canlyniadau gofal di-dâl, annibyniaeth y Swyddfa Genedlaethol a’r effaith gyfyngedig ddisgwyliedig ar ofal cymdeithasol plant a dim digon o gysylltiad ag iechyd.

I grynhoi, roedd y prif bryderon a godwyd yn ymwneud ag adnoddau, monitro, eglurder, diwylliant comisiynu, cynwysoldeb a dehongli canlyniadau gwell. Crybwyllwyd amserlenni ac annibyniaeth hefyd.

Cafwyd awgrymiadau hefyd yn ymwneud â’r broses weithredu, megis sicrhau bod y gofynion a’r canllawiau’n hygyrch ac yn ddealladwy i’r cyhoedd. Dywedodd rhai o’r ymatebwyr fod angen pwysleisio cynwysoldeb a hygyrchedd wrth weithredu.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen darparu cyllid ac adnoddau digonol ac amserol. Mae hyn yn cynnwys cyflogau staff, hyfforddiant, datblygu sgiliau a meithrin gallu. Rhywbeth sy’n gysylltiedig â hyn yw’r angen i ymdrin â recriwtio staff, cadw staff a materion cyflog, yn cynnwys tegwch â’r GIG.

Dywedwyd bod angen cynorthwyo comisiynwyr trwy ddarparu canllawiau, hyfforddiant a chyngor ymarferol er mwyn cryfhau prosesau comisiynu sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau ac ar unigolion. Roedd yr ymatebwyr o’r farn bod angen annog cydweithio, cydgynhyrchu a rhannu arferion gorau, yn ogystal â chynnwys darparwyr a chymunedau’n gynnar yn y broses. Gofynnodd yr ymatebwyr a fyddai modd i Lywodraeth Cymru lunio methodoleg safonedig ar gyfer casglu data, ynghyd ag egluro’r gofynion o ran mesur canlyniadau; yn ei dro, byddai hyn yn gwella prosesau monitro.

Drwy hyn oll, mae angen sicrhau y caiff safonau ansawdd gofal eu pennu ac y caiff mesurau ataliol eu hyrwyddo. Rhaid cynnal ac ategu hawliau pobl, ac fe allai hynny olygu creu cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr herio penderfyniadau’n ddiogel. Gellid ategu hyn trwy egluro’r cysylltiadau rhwng elfennau’r Cod a’r modd y bydd sefydliadau’n cael eu dwyn i gyfrif. Y teimlad oedd bod angen ystyried hawliau ac anghenion Plant drwy gydol y Cod, yn hytrach na chyfeirio atynt ar y diwedd yn unig.

Dywedodd rhai ymatebwyr y bydd yn ofynnol i uwch-reolwyr ymrwymo i weithredu'r Cod a chynigiwyd y gallai hunanasesiadau a chynlluniau gweithredu helpu yn hyn o beth. Efallai hefyd y byddai o fudd ystyried cydweddu â'u siarteri lleol a datblygu argymhellion sy'n seiliedig ar leoedd.

Y teimlad oedd y byddai'n rhaid i'r broses weithredu ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau a dull sy'n canolbwyntio ar unigolion, gyda ffocws ar wella ansawdd bywydau. Hefyd, dylid defnyddio'r argymhellion a ddeilliodd o'r gwaith adolygu a'r gwaith gwerthuso yr aethpwyd i'r afael ag ef wrth weithredu Deddf 2014, a dylai'r broses weithredu fabwysiadu dull gwaith tîm amlddisgyblaethol a chytuno ar ganlyniadau i'r boblogaeth.

Roedd yr awgrymiadau a wnaed gan yr ymatebwyr yn pwysleisio adnoddau, materion yn ymwneud â'r gweithlu, cryfhau comisiynu, cydweithio, eglurder, sicrhau ansawdd ac atebolrwydd er mwyn troi'r cod yn ganlyniadau gwell. Hefyd, rhoddwyd pwyslais ar ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion a monitro'r broses weithredu.

**Cwestiwn 1.7**: Ydych chi'n credu y bydd y gofynion a'r canllawiau statudol yn y Cod yn helpu i ail-ganolbwyntio ar yr agweddau sylfaenol ar y farchnad ofal, gan symud oddi wrth bris tuag at fesur gwerth sy'n seiliedig ar ansawdd y gwasanaeth a'r gost gyffredinol?

Daeth 65 o ymatebion i'r cwestiwn hwn i law yn yr ymgynghoriad. Gwelwyd rhai themâu cadarnhaol yn ymwneud â symud oddi wrth bris tuag at ansawdd a hefyd cafwyd cytundeb cyffredinol a sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r nod o symud y ffocws oddi ar bris tuag at ansawdd a gwerth – rhywbeth a gafodd ei groesawu.

Ystyrir bod y gofynion a'r canllawiau statudol yn sail ac yn llinell sylfaen dda ar gyfer gweithio tuag at y nod hwn. Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r gofynion a'r canllawiau'n helpu i wella canlyniadau a phrofiadau, pe baent yn cael eu rhoi ar waith yn briodol. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar unigolion. Nododd rhai ymatebwyr fod y Cod yn hyrwyddo diwylliant arweinyddiaeth ar y cyd a'i fod yn lleihau pŵer safle mewn perthynas â chostau.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod symud oddi wrth ffocws cul ar brisiau tuag at ystyried ansawdd a gwerth ehangach yn hanfodol i rai grwpiau, fel pobl sy'n byw gyda dementia. Hefyd, rhoddwyd peth croeso i gynnwys Safon 8 ar dalu ffioedd cynaliadwy, oherwydd gallai hyn ymdrin â rhai materion yn ymwneud â thangyllido.

Croesawyd rôl y Swyddfa Genedlaethol mewn perthynas â data, dadansoddeg ac arweiniad, a dywedwyd y gallai hyn ategu comisiynu. Yn gysylltiedig â hyn, gellir gwella canlyniadau'n fawr trwy gydweithio a chydgynhyrchu gwasanaethau. Mewn egwyddor, mae'r cod yn cynnig fframwaith ar gyfer y newid hwn, ond y farn oedd y byddai gweithredoli hyn yn waith heriol.

Yn gyffredinol, cafwyd cefnogaeth eang i'r nodau mewn egwyddor, ond mae llwyddiant yn hyn o beth yn ddibynnol ar sawl peth, megis gweithredu priodol, ymdrin â materion yn ymwneud â'r gweithlu, mwy o gydweithio, cydgynhyrchu, a darparu data, dadansoddeg a chanllawiau gan y Swyddfa Genedlaethol.

Hefyd, mynegwyd rhai pryderon, yn cynnwys cyfyngiadau o ran cyllidebau, pwysau ariannol a chyni, a'r modd y maent yn cyfyngu ar y gallu i droi'r ffocws oddi ar gostau ac arbedion. Nodwyd hefyd bod angen buddsoddiad ac adnoddau ychwanegol. Y farn oedd y byddai materion yn ymwneud â'r gweithlu – fel cyflogau, recriwtio a chadw staff – yn gwaethygu heb ychwaneg o gyllid, a dywedodd yr ymatebwyr y byddai'n anodd i ddarparwyr newid modelau busnes heb gymorth ariannol.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r ffaith bod ansawdd a gwerth yn aml yn costio mwy, ac na all cyllidebau cyfredol fforddio hyn. Felly, gofynnwyd a fydd modd i'r Cod esgor ar y newidiadau y dymunir eu gweld, o gofio'r realiti cyllidol a'r pwysau sydd ar sefydliadau. Nodwyd y bydd y farchnad ofal wastad yn cael ei hysgogi i ryw raddau gan gymhellion elw a sensitifrwydd prisiau.

Roedd yr ymatebwyr braidd yn amheus o gwmpas a gorfodadwyedd y canllawiau arfaethedig yn y pecyn cymorth, gan nad ydynt yn statudol. Felly, y gred oedd y gallai trefniadau rheoleiddio a gorfodi amser real a chryfach helpu i sicrhau cydymffurfedd. Crybwyllwyd hefyd y gallai gwahaniaethau o ran y modd y mae comisiynwyr yn asesu ansawdd a chostau gyfyngu ar asesu canlyniadau, a bod diffyg methodoleg safonol yn ychwanegu at hyn. Hefyd, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod data cyfyngedig ac anghyson yn arwain at anawsterau wrth feincnodi a chynllunio. Felly, efallai y bydd yn rhaid buddsoddi mewn galluoedd dadansoddol.

Roedd y prif bryderon a fynegwyd yn ymwneud ag adnoddau, grymoedd y farchnad, cyfyngiadau data, amrywioldeb a'r gallu i orfodi newidiadau o gofio'r pwysau cyllidebol a systemig. Dywedwyd bod y farchnad gofal cymdeithasol yn fregus a bod hynny'n effeithio ar y gallu i ysgogi newid.

Cyflwynwyd rhai awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid ymdrin â'r pryderon hyn, yn cynnwys newid diwylliant oddi mewn i sefydliadau comisiynu fel y gellir canolbwyntio llai ar gostau ac arbedion, a hefyd newid yr iaith a'r dull a ddefnyddir wrth gomisiynu.

Mae angen mwy o aeddfedrwydd wrth gynnal trafodaethau rhwng comisiynwyr a darparwyr fel y gellir canolbwyntio ar ansawdd, risgiau a blaenoriaethau yn hytrach nag ar brisiau'n unig. Y farn oedd y byddai hyn hefyd yn helpu comisiynwyr i sylweddoli y gall ansawdd leihau costau trwy gael gwared ag aneffeithlonrwydd – nid yw ansawdd bob amser yn costio mwy. Yn yr un modd, mae angen gweithio gyda darparwyr er mwyn troi eu golygon oddi ar brisiau yn unig.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen gweithredu ar sail y system gyfan – ac o fewn hynny, ystyried bod y Trydydd Sector ac eraill yn bartneriaid yn hytrach nag yn wasanaethau a gomisiynir yn gyhoeddus. Yn gysylltiedig â hyn, dylid meithrin diwylliant lle eir ati i ddysgu a rhannu arferion gorau, er mwyn ategu'r newid.

Nodwyd y gallai gwell cyfeirio a gwell mynediad at y gwasanaethau iawn yn gynnar yn y broses helpu i wella canlyniadau a lleihau costau. Efallai hefyd y byddai hyn yn mynd i'r afael â dryswch o ran rhyngweithio. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen uwchsgilio gweithwyr cymdeithasol er mwyn iddynt allu rhoi dull seiliedig ar ganlyniadau ar waith. Hefyd, mae angen meithrin capasiti a sgiliau comisiynu er mwyn ategu ffyrdd newydd o weithio.

Yn y pen draw, y farn oedd nad yw'r dyheadau deddfwriaethol wedi cael eu llwyr droi yn newidiadau diwyllinnol a gweithredol rheng flaen eto. Nododd ymatebwyr bod y canllawiau'n anelu at bontio hyn, ond bod angen newid y system gyfan o hyd. Yn gryno, er mwyn gallu mynd ati o ddifrif i ailgyfeirio'r system a rhoi'r gorau i ganolbwyntio ar brisiau, dywedwyd bod angen cyflwyno newid diwylliannol dwfn ochr yn ochr â gwelliannau ymarferol mewn sgiliau a chapasiti comisiynu.

**Cwestiwn 1.8**: Ydych chi'n credu y bydd y gofynion a'r canllawiau statudol yn y Cod yn helpu i hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, gan leihau rhwystrau i gynllunio a darparu ar y cyd?

Daeth 59 o ymatebion i'r cwestiwn hwn i law a chafwyd ymatebion cymysg. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn croesawu'r Cod a'i uchelgeisiau ac roeddynt o'r farn y gallai (yn rhannol, o leiaf) helpu i hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol di-dor a lleihau rhwystrau i gynllunio a darparu ar y cyd.

Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn y gallai'r Cod ar ei ben ei hun helpu i hwyluso gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor a lleihau rhwystrau i gynllunio a darparu ar y cyd. Roedd nifer fechan o Awdurdodau Lleol o'r farn eu bod wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaeth iechyd a gofal ar y cyd. Ond roedd un Awdurdod Lleol o'r farn na fu'r gwaith cynllunio a darparu ar y cyd rhyngddo ef a'r Bwrdd Iechyd Lleol mor llyfn ag y byddai wedi'i ddymuno.

Roedd nifer o ymatebwyr ar draws y sectorau o'r farn nad yw'n bosibl cael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor hyd nes y ceir parch cydradd rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a hyd nes y bydd y ddwy elfen ar gael am ddim pryd a lle bynnag y bo'u hangen. Yn ôl un Awdurdod Lleol, os ydym eisiau sicrhau gwasanaethau di-dor, bydd angen newid cymhwystra i gael gofal iechyd parhaus. Ymhellach, awgrymwyd yn gryf mai'r unig ffordd o gyflawni gwasanaethau di-dor yw trwy integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel genedlaethol. Mae'r gweithlu yn rhwystr mawr arall, gan fod y staff yn cael eu cyflogi gan wahanol sefydliadau ac yn cael amodau a thelerau gwahanol iawn i'w gilydd.

Soniwyd am gyllid hefyd, yn ogystal â diffyg buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol – y farn oedd bod y ddwy elfen hyn yn atal gwasanaethau di-dor a bod angen mynd ati o ddifrif i newid y diwylliant. Hefyd, mae diffyg cynllun gweithlu integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn destun pryder, oherwydd nid oes digon o staff i'w cael – dyma rwystr allweddol. Nodwyd nad yw'r gwahanol gyfrifoldebau statudol sydd gan sefydliadau statudol na'r gwahanol ddyfarniadau cyfreithiol mewn perthynas â chyfrifoldebau comisiynu yn fuddiol o ran creu gwasanaethau di-dor, a'r gred yw bod angen integreiddio gwasanaethau ar lefel y boblogaeth yn lleol yn hytrach nag ar lefel y gwasanaeth.

Yn ôl rhai Awdurdodau Lleol mae rheoliadau caffael, a'r gwahaniaethau a welir ledled Cymru yn y rheoliadau hynny, yn rhwystr allweddol, yn ogystal â'r angen am eglurder ynglŷn â chyfrifoldebau sefydliadau gwahanol. Gofynnwyd am well eglurder ynglŷn â rôl y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth, y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a chyrff comisiynu cenedlaethol eraill. Ymhellach, holodd rhai ymatebwyr am y broses orfodi, gan ofyn pwy fydd yn gorfodi'r angen i roi gwasanaethau di-dor ar waith.

Soniwyd am gyllidebau cyfun a nododd yr ymatebwyr fod yna ddiffyg parodrwydd ymhlith rhai, yn ogystal â chymhlethdodau'n ymwneud â'r pethau ymarferol sydd ynghlwm wrth gyfuno cronfeydd ac adnoddau, ac roedd yr ymatebwyr o'r farn nad oedd y gofynion yn y Cod yn ddigonol i ymdrin â'r heriau hyn. Gofynnodd rhai ymatebwyr am well eglurder ynglŷn ag ystyr termau fel gwasanaethau di-dor a gwasanaethau cydgysylltiedig, ac roedd un Bwrdd Iechyd o'r farn fod y term 'di-dor' yn ddiffygiol a bod angen ei adolygu gan ei fod yn rhagdybio bod modd i wahanol endidau a chanddynt ofynion statudol, trefniadau llywodraethu a threfniadau rheoli hollol wahanol weithredu fel pe bai dim gwahaniaethau i'w cael. O'r herwydd, dylid canolbwyntio ar wasanaethau *"sy'n asio'n dda"* o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Roedd un sefydliad o'r farn y byddai'r Fframwaith Cenedlaethol yn fwy cynhwysol pe bai'n cydnabod y modd y mae pob gwasanaeth yn cyfrannu at lesiant unigolion. Cyfeiriwyd at rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth gynllunio ar y cyd – roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod cynnydd da wedi'i wneud yn hyn o beth, ond roedd eraill o'r farn bod y cynnydd yn rhy araf. Awgrymwyd y dylai Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol gael cynrychiolydd undeb i gynrychioli llais y gweithlu, a dywedwyd y dylai awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn fewnol, yn hytrach na'u comisiynu.

Manteisiodd nifer o ymatebwyr ar y cyfle i dynnu sylw at y ffaith bod angen i'r Cod gael cynllun gweithredu cadarn, yn cynnwys hyfforddiant priodol a ariennir yn genedlaethol, cyfleoedd i feithrin sgiliau ac ennill cymwysterau, a buddsoddiad, er mwyn cynorthwyo comisiynwyr i weithio'n unol ag ethos y Cod. Nodwyd na fyddai cynnwys adnoddau mewn pecyn cymorth cenedlaethol yn ddigonol ynddo'i hun o gofio pwysigrwydd y Cod o ran ailsiapio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.

### 2.3.2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad o blaid y Cod Ymarfer – Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir, ac rydym yn ddiolchgar i'r ymatebwyr hynny a awgrymodd ddiwygiadau er mwyn cryfhau'r Fframwaith Cenedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Cod Ymarfer drafft yng ngoleuni'r ymatebion a ddaeth i law a'r diwygiadau a awgrymwyd, er mwyn cryfhau ei gynnwys.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y pryderon a grybwyllwyd gan nifer o ymatebwyr mewn perthynas â'r heriau gweithredu disgwyliedig yn ymwneud ag ymwybyddiaeth, hyfforddiant a chymwysterau, a'r cymorth y bydd comisiynwyr ei angen er mwyn iddynt allu gweithio'n unol â'r Cod Ymarfer. Bydd cynllun gweithredu cynhwysfawr yn cael ei lunio. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn pennu'r ymwybyddiaeth, yr hyfforddiant a'r cymwysterau a fydd yn angenrheidiol a hefyd bydd yn pennu'r cymorth sydd ar gael i gomisiynwyr. Bydd gan y Swyddfa Genedlaethol dros ofal a chymorth rôl allweddol o ran cynorthwyo comisiynwyr yn y cyd-destun hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid i ddatblygu pecyn cymorth cynhwysfawr i'w cefnogi i gomisiynu yn unol â'r Cod

Ymarfer. Bydd hyn yn cynnwys pennu a chreu platfform digidol addas ar gyfer gwesteia'r pecyn cymorth cynhwysfawr.

Yn yr ymatebion, cyfeiriwyd at heriau ariannol yn y sector gofal cymdeithasol. Mae cynaliadwyedd ariannol gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ehangach o lawer na rôl y Cod Ymarfer ar gomisiynu. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig a gynhelir maes o law yn pennu meysydd lle gallai'r Cod fod angen adnoddau. Mae'r Cod Ymarfer yn cyflwyno canllawiau manylach ar gomisiynu yn unol â'r hyn a bennir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru); ni fydd yr holl elfennau ynddynt eu hunain angen adnoddau sylweddol i'w cyflawni.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Grŵp Technegol Cenedlaethol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol er mwyn datblygu'r Fframwaith Cenedlaethol Drafft. Byddwn yn parhau i ddefnyddio arbenigedd aelodau'r Grŵp Technegol Cenedlaethol wrth inni fynd trwy gam nesaf y datblygiadau.

## 2.4 Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant (Pennod 2 yr ymgynghoriad)

### 2.4.1. Crynodeb o'r ymatebion

Dadansoddwyd yr ymatebion ar gyfer y Fframwaith Tâl a Dilyniant ar ran y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol. Mewn ambell achos, roedd y materion a godwyd yn berthnasol i'r tri chwestiwn ymgynghori, ac adlewyrchir hyn yn y crynodeb.

Atebwyd y cwestiynau yn yr adran hon gan 81 o ymatebwyr o blith y 96, ac mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar yr ymatebion hyn yn yr adran hon. O blith yr ymatebion hyn, cyflwynwyd 24 o ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli'r trydydd sector/sector gwirfoddol a chyflwynwyd 19 o ymatebion gan lywodraeth leol. Cyflwynwyd 8 ymateb gan gyrff y GIG a chyflwynwyd 6 ymateb gan ddarparwyr gofal cymdeithasol. Cyflwynwyd yr ymatebion sy'n weddill gan gyrff cynrychiadol – gweithwyr proffesiynol (3 ymateb), comisiynwyr statudol (3 ymateb), unigolion (3 ymateb), cyrff statudol annibynnol (2 ymateb), byrddau partneriaeth rhanbarthol (2 ymateb) cyrff cynrychiadol – darparwyr (2 ymateb), rheoleiddwyr (2 ymateb), undebau llafur (2 ymateb) a'r byd academaidd (1 ymateb). Yn achos yr ymatebion a erys, nid oedd yn amlwg a gyflwynwyd yr ymatebion gan unigolion ynteu gan sefydliadau, oherwydd ni ddarparwyd gwybodaeth gyda'r ymateb.

**Cwestiwn 2.1 Mae egwyddor y fframwaith tâl a dilyniant yn seiliedig ar gynnig fframwaith cenedlaethol sy'n gallu cefnogi egwyddorion gwaith teg. Ydych chi'n credu bod y Fframwaith yn gallu cefnogi'r dyhead hwn a'r manteision a amlinellir uchod?**

Daeth cyfanswm o 81 o ymatebion i law ar gyfer yr adran hon. Nid oedd saith o ymatebion yn cynnwys unrhyw destun na gwybodaeth a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn. Felly, caiff y dadansoddiad ei seilio ar y 74 ymateb sy'n weddill.

O blith yr ymatebwyr, dangosodd 62 ohonynt gefnogaeth o ryw fath i'r syniad y bydd modd i'r fframwaith tâl a dilyniant gefnogi'r uchelgais a'r manteision a amlinellir. Fodd bynnag, er eu bod yn cytuno, tynnodd nifer o'r ymatebwyr hyn sylw at feysydd y gellir eu gwella, heriau a fydd yn effeithio ar weithredu'r fframwaith yn llwyddiannus ac ystyriaethau ehangach yn ymwneud â'r sector.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn croesawu'r proffiliau swyddi (lle pennir y gwahanol fandiau) ac roeddynt o'r farn y byddai hyn yn proffesiynoli'r sector ac yn cynorthwyo i ddenu a chadw gweithwyr. Y farn gyffredinol oedd bod y rolau a'r sgiliau wedi'u diffinio'n glir, a'u bod yn ddefnyddiol.

Yn ôl y sylwadau, byddai'r dull yn esgor ar degwch a chysondeb a byddai'n helpu i bennu cyfleoedd gyrfa a llwybrau ar gyfer camu ymlaen. Hefyd, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen ystyried y cymhlethdodau sy'n perthyn i rai rolau yn ogystal â'r amgylchedd y bydd y rolau'n cael eu darparu ynddo. Roedd cyfran o'r ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth bellach i gynnwys gweithwyr cymdeithasol yn y fframwaith, yn ogystal â chynnwys rolau ategol ehangach megis cydgysylltwyr gofal, cydgysylltwyr gweithgareddau, garddwyr, cogyddion, gweithwyr micro-ofal a chynorthwywyr personol ac ati.

Awgrymwyd bod angen i'r fframwaith tâl a dilyniant gynnwys manylion am gymwysterau a llwybrau a fyddai'n galluogi cyflogwyr i gynorthwyo'u staff, fel bod modd datblygu'r cymwysterau a'r llwybrau hynny yn gyfleoedd ehangach mewn meysydd a sectorau eraill.

Soniodd nifer fawr o'r ymatebwyr am gyllid a chomisiynu gwasanaethau – er mwyn gallu gweithredu'r fframwaith yn llwyddiannus, mae hi'n hanfodol ystyried model realistig sydd wedi'i gostio.

Fodd bynnag, roedd lleiafrif bach o'r farn na fyddai'r fframwaith yn ddigon effeithiol i fodloni'r uchelgeisiau a amlinellir, a'r gred oedd bod angen rhagor o fanylion ac esboniadau clir o'r cyflogau, y cyllid a'r broses weithredu. Er bod y fframwaith yn fan cychwyn da, awgrymodd yr ymatebwyr nad oedd yn mynd yn ddigon pell i ymgorffori pob proffesiwn sy'n gweithio yn y maes gofal cymdeithasol, yn cynnwys nyrsys cofrestredig neu weithwyr gofal sy'n darparu gofal nyrsio o dan gyfarwyddyd nyrs gofrestredig. Hefyd, byddai'n anodd cydweddu'r bandiau a gynhwysir yn y fframwaith â bandiau yn y sector iechyd.

Roedd cyfran o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd y fframwaith yn ddigon uchelgeisiol ac aethant yn eu blaen i nodi gwelliannau. Soniodd nifer fawr o'r ymatebwyr am yr heriau o ran rhoi'r fframwaith ar waith, gan ganolbwyntio ar yr effaith a'r canlyniadau anfwriadol sy'n perthyn i gyflwyno'r fframwaith yn wirfoddol, ynghyd â'r heriau a ddaw i ran y sector yn sgil y dull gwirfoddol: yn benodol, effaith proses weithredu anghyson ledled Cymru. Thema allweddol arall oedd y methiant i gyfeirio at y sector iechyd a'r methiant i gydweddu â'r sector hwnnw, yn enwedig yr Agenda ar gyfer Newid. Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn hanfodol inni gydweddu pethau â'r sector iechyd, yn enwedig er mwyn sicrhau cyflog sy'n gyfartal â rolau tebyg ac er mwyn dangos y llwybrau gyrfa posibl sydd ar gael i weithwyr yn y sector gofal.

Yn yr un modd, dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn siomedig na soniwyd o gwbl am therapi galwedigaethol nac am y trydydd sector.

**Cwestiwn 2.2 A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau o ran sut y gellid gwella'r fframwaith i helpu i gyflawni ei ddyheadau?**

Daeth cyfanswm o 81 o ymatebion i law ar gyfer yr adran hon. Nid oedd deg o ymatebion yn cynnwys unrhyw destun na gwybodaeth a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn. Felly, caiff y dadansoddiad ei seilio ar y 71 ymateb sy'n weddill.

Cyflwynwyd amryw byd o awgrymiadau cadarnhaol ar gyfer gwella'r fframwaith a'i uchelgeisiau, yn cynnwys adborth ar y canlynol:

**Bandiau swyddi:** yn cynnwys gwella geiriad a chynnwys y bandiau swyddi gan sicrhau bod yr holl fandiau'n wahanol ac yn ddiamwys a'u bod yn ystyried y cymhlethdodau sy'n berthnasol i rai rolau a'r ffaith eu bod angen sgiliau a gwybodaeth ychwanegol. Ymhellach, dylent adlewyrchu amrywiaeth y lleoliadau lle darperir gofal cymdeithasol. Yn ôl rhai ymatebwyr, byddai'n ddefnyddiol cydnabod hynafedd oddi mewn i'r bandiau. Hefyd, dylid pennu sgiliau trosglwyddadwy a'r modd y gellir cymhwyso'r sgiliau hynny at wahanol rannau o'r sector, gan gynorthwyo i fapio gyrfaoedd.

**Cyllid a chomisiynu gwasanaethau:** Soniodd nifer fawr o ymatebwyr am y model cyllido cyfredol. Rhoddwyd pwyslais mawr ar sicrhau bod y cynllun yn cynnwys gwybodaeth am raddfeydd cyflog, costiadau a chynlluniau cyllido, a'r modd y byddai'r fframwaith yn meincnodi yn erbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol. Hefyd, dywedwyd pa mor bwysig yw cynnwys costau eraill, megis argostau, cyfraniadau pensiwn a chostau hyfforddi – a'r modd y gall y fframwaith addasu i ffactorau allanol eraill sy'n effeithio ar y sector, e.e. chwyddiant, y pandemig, Brexit, costau tanwydd ac ati.

**Gwirfoddol:** soniodd nifer o ymatebwyr am yr anawsterau a wynebwn, gan mai fframwaith gwirfoddol yw hwn. Soniwyd am yr heriau y byddwn yn eu hwynebu wrth geisio sicrhau y bydd modd i'r fframwaith gyflawni ei nodau'n llwyr (er, roedd nifer o'r ymatebwyr yn deall yr anawsterau o ran cyflwyno fframwaith gorfodol). Yn ôl un ymatebydd, gellid dysgu gwersi yn sgil y broses a ddefnyddiwyd i roi'r cyflog byw gwirioneddol ar waith.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant:** cyflwynodd rhai ymatebwyr awgrymiadau'n ymwneud â chryfhau'r iaith a ddefnyddir yn y fframwaith wrth gyfeirio at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan ddweud y byddai'n ddefnyddiol gweld asesiad effaith integredig.

**Gwerthuso:** argymhellwyd hefyd y dylid ystyried sut y byddai llwyddiant y fframwaith yn cael ei fonitro, a sut y gellid ymgorffori a mesur canlyniadau er mwyn ystyried llwyddiant neu fethiant y fframwaith.

**Ymgorffori llais y sector:** cyfeiriodd yr ymatebwyr at sicrhau bod lleisiau'r gweithlu, y darparwyr, y cyflogwyr a'r defnyddwyr yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r fframwaith, yn enwedig wrth ddatblygu swydd-ddisgrifiadau.

**Cydweddu â'r sector iechyd:** roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen i'r fframwaith gydweddu â'r Agenda ar gyfer Newid.

**Rhagor o ganllawiau:** roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'n fuddiol rhoi canllawiau ychwanegol i gyflogwyr ynglŷn â sut i weithredu'r graddfeydd cyflog newydd a hefyd ynglŷn ag agweddau ymarferol eraill yn ymwneud â chyfraith cyflogaeth, cydnabyddiaeth, cyfleoedd dysgu a datblygu ac ati.

Roedd un o'r enghreifftiau a gyflwynwyd yn cynnwys datblygu cymorth ehangach ar gyfer camu ymlaen, gydag adnoddau ychwanegol i gynorthwyo a thywys gweithwyr:

- **Cymwysterau:** diffinio ymhellach beth yw ystyr cymwysterau 'gofynnol' a chymwysterau 'a argymhellir', a chynnwys dolenni sy'n arwain at yr adnoddau hyn. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar brentisiaethau drwy gydol y fframwaith.

- **Mapio gyrfaoedd:** yn ôl yr ymatebwyr, mae 'camu ymlaen' nid yn unig yn golygu dyrchafiadau a chodiadau cyflog, ond mae hefyd yn golygu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes oddi mewn i rolau a chyfleoedd i symud ar draws i wahanol rolau neu gyfleoedd i fynd ar secondiad i rolau a sectorau eraill fel y gellir datblygu sgiliau newydd, profiadau a dysgu ymarferol y gellir eu rhoi ar waith i wella lefelau sgiliau, rhagolygon a chanlyniadau.

### Cwestiwn 2.3 Pa rwystrau posibl a allai atal y fframwaith rhag cyflawni ei ddyheadau?

Daeth cyfanswm o 81 o ymatebion i law ar gyfer yr adran hon. O blith yr ymatebion hyn, nid oedd 17 o ymatebion yn cynnwys unrhyw destun na gwybodaeth a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn. Felly, caiff y dadansoddiad ei seilio ar y 64 ymateb sy'n weddill.

Cyflwynodd yr ymatebwyr grynodeb cynhwysfawr o'r rhwystrau posibl a allai atal y fframwaith rhag cyflawni ei uchelgeisiau, sef:

- **Gwirfoddol:** roedd hyn yn rhwystr ym marn cyfran fawr o'r ymatebwyr, oherwydd efallai na fydd y sector yn rhoi'r fframwaith ar waith yn ei gyfanrwydd, ac fe allai hynny danseilio'r fframwaith. Soniodd nifer o'r ymatebwyr am ganlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o hyn, yn cynnwys dadsefydlogi'r gweithlu, cyflwyno mwy o wahaniaethau ac effeithio ar fusnesau trawsffiniol.

Gan mai fframwaith gwirfoddol yw'r fframwaith hwn, ac o gofio'r pwysau presennol sydd ar ysgwyddau darparwyr a'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r fframwaith, awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnal astudiaeth ddichonoldeb i lywio'r gwaith o weithredu'r fframwaith yn ehangach. Pwrpas hyn fyddai monitro a gwerthuso'r dull a roddir ar waith, yn cynnwys yr effaith ar y gweithlu cyhoeddus, y gweithlu preifat a

gweithlu'r trydydd sector, yn ogystal â phennu unrhyw ganlyniadau anfwriadol cyn rhoi'r fframwaith ar waith yn ehangach.

- **Y trydydd sector:** cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y ffaith na sonnir am y trydydd sector a dywedwyd y dylid ystyried ymhellach sut y bydd gweithredu'r fframwaith yn effeithio ar weithlu ehangach y trydydd sector.

- **Integreiddio â'r sector iechyd:** dywedodd yr ymatebwyr fod angen canolbwyntio mwy ar y berthynas rhwng rolau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â chanolbwyntio ar uchelgais clir i sicrhau tegwch ar draws y ddau sector. Yn ôl yr ymatebwyr, nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y bydd y bandiau a nodir yn y fframwaith yn cymharu â'r sector iechyd, ond bydd yn hanfodol iddynt gyfateb i fandiau'r sector iechyd os ydym am weld y fframwaith hwn yn llwyddo.

- **Comisiynu gwasanaethau:** Dywedodd yr ymatebwyr fod angen nodi'n glir yr hyn sy'n ddisgwyliedig o gomisiynwyr, yn ogystal â'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'r sectorau a'r sefydliadau a gaiff eu hariannu gan y comisiynwyr. Hefyd, rhaid i'r cyllid a'r modd y comisiynir gwasanaethau gyd-fynd â chwyddiant, fel y gwneir yn Lloegr.

Wrth gynllunio sut i roi'r fframwaith ar waith, yn ôl un ymatebydd fe fydd hi'n bwysig ymgysylltu â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir, oherwydd bydd cyflogau'n effeithio ar gyfraddau costau gofal teg.

Hefyd, rhaid rhoi digon o adnoddau i gomisiynwyr er mwyn eu galluogi i gefnogi disgwyliad trwy drefniadau contract y bydd darparwyr yn gweithredu'r fframwaith ac yn ymrwymo iddo.

- **Cyfyngiadau cyllidebau a chyllid:** pryder allweddol ymhlith yr ymatebwyr oedd y costau sydd ynghlwm wrth roi'r fframwaith ar waith a'r angen posibl am gyllidebau ychwanegol ar gyfer y broses weithredu. Yn ôl yr ymatebwyr, gallai cyfyngiadau cyllidebau effeithio ar y gallu i gynnig cyflogau cystadleuol a chyfleoedd i gamu ymlaen, gan arwain o bosibl at roi'r fframwaith ar waith mewn modd anghyson. Yn ôl un ymatebydd, efallai y bydd angen ychwaneg o bwerau deddfwriaethol yn ymwneud â chyflogau.

- **Cymhlethdod:** yn ôl yr ymatebwyr, gwaith cymhleth yw datblygu fframwaith cynhwysfawr a all addasu ar draws amryfal sectorau a rolau, yn enwedig pan fo rhwystrau sefydliadol i'w cael. Tasg anodd fydd sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng gwahanol rolau a sectorau.

Ochr yn ochr â hyn, dywedodd rhai ymatebwyr y bydd gwrthsefyll newid a diffyg ymrwymiad yn effeithio ar y broses weithredu. Yn ôl un ymatebydd, efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn ymwrthod â rhoi'r fframwaith ar waith ac mae angen ystyried yn ofalus y ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu â gwahanol grwpiau. Oni bydd y sector cyfan yn deall y dull ac yn cytuno ag ef, go brin y bydd y fframwaith yn effeithiol.

**Amodau a thelerau:** awgrymodd yr ymatebwyr fod angen ystyried cyfres o amodau a thelerau cenedlaethol a'r modd y byddant yn gorwedd oddi mewn i fodelau presennol, oherwydd gallai hyn arwain at fwy fyth o wahaniaethau. Hefyd, soniodd yr

ymatebwyr am broblemau posibl yn y maes adnoddau dynol pe bai yna anghydfodau a chwynion yn ymwneud â'r bandiau a'r modd y cânt eu rhoi ar waith.

- **Camu ymlaen mewn gyrfa:** yn ôl yr ymatebwyr, efallai y bydd yna heriau wrth gynorthwyo pobl trwy fframwaith gyrfa, ac fe fydd yna gostau cysylltiedig ynghlwm wrth hyn.

- **Ffactorau allanol:** nodwyd mai heriau o ran grymoedd allanol fu'r rhwystr pennaf dros y blynyddoedd diwethaf. Yr argyfwng costau byw, newidiadau yn y farchnad swyddi, newidiadau trwy Brexit a'r pandemig. Bydd angen i'r fframwaith ystyried sut y gellir cadw'n wastad â sectorau eraill, yn ogystal ag ystyried cyllid ychwanegol.

- **Gwelliant parhaus:** Nid digwyddiad 'untro' mo'r fframwaith. Bydd angen ei ddatblygu'n barhaus os ydym eisiau iddo adlewyrchu natur newidiol gofal cymdeithasol, yn cynnwys y potensial ar gyfer rolau newydd. Hefyd, bydd angen diweddaru'r elfen gyflogau bob blwyddyn, ac er mwyn gwneud hyn bydd angen mynd ati'n gyson i gynnal gwaith monitro a dadansoddi'r farchnad. Fe fydd y gwaith goruchwylio a diweddaru parhaus hwn angen adnoddau a buddsoddiad parhaus.

- **Amserlen:** bydd angen buddsoddi'n helaeth yn y fframwaith er mwyn ei roi ar waith mewn modd ystyrlon. Rhaid cael amserlen glir lle nodir pryd yn union y bydd y fframwaith yn cael ei gyflawni.

Bydd y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn adolygu'r sylwadau hyn yn fanylach a bydd yn ymgorffori'r awgrymiadau drwy gydol y dull gweithredu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am waith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yma.

## 2.5. Cynigion ar gyfer Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth (Pennod 3 yr ymgynghoriad)

### 2.5.1 Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 3.1:** Ydych chi'n cytuno â'r dyluniad ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol? Os nad ydych chi, pa ddyluniad fyddech chi'n ei awgrymu?

Ymatebodd 66 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ac roedd y mwyafrif llethol yn cefnogi swyddogaethau cyfredol y Swyddfa Genedlaethol ac yn cefnogi'r syniad o sefydlu swyddfa o'r fath.  Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai'r Swyddfa Genedlaethol yn gorff ac yn system gadarnhaol ar gyfer rhwyddhau llwybrau a thrafodaethau i wella'r cysylltiad rhwng y GIG a'r sector gofal cymdeithasol. Mynegwyd llawer o gefnogaeth gadarnhaol i weithredu'r Cod Ymarfer ar gyfer gofal a chymorth a gomisiynir a hefyd i ddatblygu pecyn cymorth adnoddau i gomisiynwyr. Ym marn rhai, roedd hyn yn ysgogiad cadarnhaol hollbwysig ar gyfer newid gyda/ar gyfer y sector gofal cymdeithasol. Awgrymwyd y gellid defnyddio'r enw 'Swyddfa Gofal a Chymorth Genedlaethol' er mwyn adlewyrchu'r sylwadau yn adroddiad y Grŵp Arbenigol.

Wedi dweud hyn, mynegwyd y pwyntiau, y materion a’r pryderon canlynol, a gofynnwyd am eglurhad ac esboniad pellach.

Y farn gref ymhlith yr ymatebwyr oedd bod angen rhagor o fanylion a gwell eglurder er mwyn esbonio sut y byddai’r Swyddfa Genedlaethol yn gweithio gyda/ochr yn ochr â sefydliadau presennol, megis Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru, Gweithrediaeth y GIG sydd newydd ei sefydlu a hefyd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (rhoddodd rhai ymatebwyr le pwysig iawn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol). Y gobaith oedd y byddai’r Swyddfa Genedlaethol a’r sefydliadau eraill yn gweithio mewn modd cydategol yn hytrach na bod y naill yn dyblygu gwaith a rolau’r llall. Er mwyn osgoi hyn, awgrymwyd y dylid cynnal ymarfer i fapio gweithgareddau presennol ac arfaethedig pob sefydliad. Byddai hyn yn helpu i osgoi dyblygu rolau ac ymdrechion, gan sicrhau y byddai trefniadau llywodraethu cadarn ac atebol ar waith.

Mynegwyd peth pryder ynglŷn â’r angen am strwythur llywodraethu cryf ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol gan ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru. Er bod rhai o’r ymatebwyr o’r farn y gellid colli cysylltiad a chyfraniad rhanbarthol wrth strwythuro’r Swyddfa Genedlaethol “yn ganolog”, roedd eraill â barn gadarnhaol ynglŷn â lleoliad y Swyddfa. Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru o’r farn bod lleoli’r Swyddfa Genedlaethol oddi mewn i strwythurau presennol Llywodraeth Cymru yn syniad synhwyrol; er, rhaid sicrhau bod y trefniadau gweithredol yn mynd ati’n glir i nodi’r cyfrifoldebau a’r trefniadau llywodraethu strwythuredig ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol gan gyfarwyddwyr statudol a gyflogir gan awdurdodau lleol.

Cafodd y sylwadau cefnogol hyn ar gyfer lleoli’r Swyddfa Genedlaethol oddi mewn i Lywodraeth Cymru eu cymedroli gan bwyntiau a wnaed ynglŷn â’r posibilrwydd y byddai ffurfio’r Swyddfa Genedlaethol yn ychwanegu haen fiwrocrataidd arall ac amheuwyd annibyniaeth y sefydliad mewn ymateb i alwadau Gweinidogol a gofynion o ran cyflawni ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu. Yn achos un sefydliad a oedd yn gefnogol i sefydlu swydd Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, yn awr roedd yn dymuno i’r Swyddfa Genedlaethol gael ei sefydlu fel ffordd o ymgorffori egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – roedd yn cydnabod bod y dyhead yn un canmoladwy, ond roedd angen buddsoddiad priodol a chynaliadwy.

Cyflwynwyd rhagor o sylwadau ynglŷn â rôl y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol – mae a wnelo’i rôl â rhoi cyngor proffesiynol annibynnol i Weinidogion ynglŷn â materion yn ymwneud ag ymarfer gofal cymdeithasol ac, ar yr un pryd, cyflawni polisïau Gweinidogol. Er mwyn osgoi gwrthdaro posibl yn hyn o beth, awgrymwyd y dylid ceisio cymorth gan gorff cynghori a fyddai’n cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol sy’n cynrychioli cyfarwyddwyr statudol, llywodraeth leol, rheoleiddwyr a darparwyr.

Croesawyd y cyfeiriad at lais y dinesydd, ond gofynnwyd am ragor o fanylion ynglŷn â sut y bydd llais y dinesydd yn cael ei gasglu. Nodwyd bod y Grŵp Arbenigol wedi cyfeirio at ‘fanc data o’r hyn sy’n bwysig’ a’r gred y dylai’r Swyddfa Genedlaethol

chwarae rôl genedlaethol o ran coladu'r banc data hwn, gan ei ddefnyddio i lywio anghenion am wasanaethau a sut i ddarparu gwasanaethau.

Hefyd, gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am ragor o fanylion ynglŷn â phwerau deddfwriaethol a chyfreithiol y Swyddfa Genedlaethol, yn benodol ei phwerau i allu dwyn awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chyrff eraill i gyfrif.

O ran cysylltu'r GIG gyda'r sector gofal cymdeithasol, roedd un ymateb yn croesawu'r ffaith y byddai "*gofal cymdeithasol yn cael ei drin yn gyfartal â'r GIG"* a dywedodd nifer fod hwn yn ddatblygiad "*cadarnhaol",* ond mynegwyd pryder ynglŷn â sut y byddai'r Swyddfa Genedlaethol yn cael mynediad angenrheidiol at wybodaeth benodol yn ymwneud â nyrsio. Byddai modd lliniaru'r sefyllfa hon pe bai'r Prif Swyddog Nyrsio yn aelod o fwrdd y Swyddfa Genedlaethol, a chyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod gan Loegr Brif Nyrs ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion erbyn hyn, ac y byddai'n fuddiol i Gymru gael trefniant o'r fath hefyd.

Croesawyd yr eglurder ynglŷn â'r ffaith y byddai disgwyl i'r Swyddfa Genedlaethol weithredu yn unol â hysbysiad cydymffurfio Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg, ac y rhoddir dyletswydd ar y Swyddfa Genedlaethol i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Un safon arbennig o bwysig yn hyn o beth yw'r safon ar gyfer llunio polisïau lle mae'n ofynnol ystyried yr effaith a gaiff penderfyniadau polisi ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Dylai hyn fod yn sail i waith y swyddfa o safbwynt y Gymraeg.

**Cwestiwn 3.2:** Ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol? Os nad ydych chi, pa weledigaeth fyddech chi'n ei hawgrymu?

Er bod y cwestiwn hwn wedi cael pum deg tri o ymatebion (gyda phedwar deg wyth o'r rhain yn cynnig ymatebion cynhwysfawr), sef rhywfaint yn llai o ymatebion nag ar gyfer Cwestiwn 3.1, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol, ac roedd rhai ohonynt yn gweld y Swyddfa fel sefydliad a fyddai'n "*hyrwyddo'r Gymraeg a chydraddoldeb"*. Er bod y weledigaeth o gael endid canolog a fyddai'n cadw "golwg barcud" ar bob elfen gofal cymdeithasol yng Nghymru yn weledigaeth gymhellol, ni ddylid tanbrisio'r cymhlethdodau ymarferol na'r cymhlethdodau o ran sicrhau y rhoddir trefniadau llywodraethu priodol ar waith.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn falch bod y weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Ganolog yn ategu'r polisi y dylai dyletswyddau statudol aros gydag awdurdodau lleol. Er eu bod yn dymuno cael gwell eglurder ynglŷn â sut y byddai'r ddynameg rhwng y ddau yn cael ei rhoi ar waith, roeddynt yn croesawu'r ffaith na chynigiwyd ad-drefnu darpariaethau gwasanaethau cymdeithasol gan y byddai hynny'n osgoi amharu ar wasanaethau i bobl hŷn.

Wedi dweud hyn, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y weledigaeth yn uchelgeisiol ac yn rhywbeth i ymgyrraedd ati, yn enwedig o gofio'r cyfyngiadau ariannol sydd ohoni a'r pwysau ar y gweithlu yn y sector. Gan adleisio rhai o'r sylwadau a gyflwynwyd ar gyfer y cwestiwn blaenorol ynglŷn â'r mater hwn, gofynnwyd am well eglurder ynglŷn â'r costau a'r adnoddau sydd ar gael o ran staff addas medrus a phrofiadol yn y

Swyddfa Genedlaethol – yn ystod y cam sefydlu a hefyd ar gyfer sicrhau ei hirhoedledd.

Hefyd, er bod yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, unwaith eto mynegwyd rhai materion a phryderon ynglŷn ag eglurder mewn perthynas ag ymestyn biwrocratiaeth (cymharwyd y weledigaeth â gweledigaeth Gweithrediaeth y GIG a nodwyd y rhybuddion cysylltiedig), yr angen am atebolrwydd cadarn, a'r systemau gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gweithrediaeth y GIG a sefydliadau newydd fel Llais. Cyfeiriwyd yn benodol at yr angen am well eglurder ynglŷn â'r agweddau hyn a gofynnwyd am gael rhagor o drafodaethau datblygiadol yn ymwneud â chyflawni'r rhaglen waith. Y dymuniad yw gweld y Swyddfa Genedlaethol yn elwa ar yr wybodaeth sydd ar gael gan Data Cymru a Dewis, sef sefydliadau ag arbenigedd yn y maes hwn.

Cefnogwyd y cyfle i Weithrediaeth y GIG a'r Swyddfa Genedlaethol weithio'n agosach, ac ystyried uno hyd yn oed i greu un corff er mwyn dangos, o safbwynt cenedlaethol, y cydweithio a'r gwaith partneriaeth sy'n angenrheidiol trwy'r system gyfan. Ym marn yr ymatebwyr, byddai hyn yn cyfleu neges glir i'r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru o ran pennu'r cyd-destun ynglŷn â sut y gallai'r GIG a llywodraeth leol weithio gyda'i gilydd wrth symud ymlaen.

Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau ynglŷn â'r weledigaeth er mwyn sicrhau y gallai greu a chynnal cydberthnasau o ansawdd da rhwng y Swyddfa Genedlaethol ac awdurdodau lleol, yn cynnwys yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng llinellau atebolrwydd clir ar y naill law a swyddogaeth oruchwylio rhy ormesol ar y llaw arall, sef rhywbeth a allai ddieithrio awdurdodau lleol gan dynnu eu sylw oddi ar y prif ffocws, sef gwella gwasanaethau. Ymhellach, mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yn rhoi gofynion ychwanegol ar awdurdodau lleol, a nodwyd y sefyllfa bresennol o ran cyni a chyllid cyfyngedig sy'n arwain at brinder adnoddau. Gan sôn am y pecyn cymorth a ddatblygir i gynorthwyo comisiynwyr i gyflawni'r fframwaith, awgrymwyd y dylai'r pecyn hwn ystyried yr adnoddau sydd eisoes ar gael – megis rhaglen Herio a Chefnogi Cyfoedion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y fframwaith Comisiynu ar gyfer Canlyniadau Gwell, Comisiynu Integredig ar gyfer Canlyniadau Gwell, a'r canllawiau ar Gynllunio a Chomisiynu Cydweithredol Strategol.

Yn olaf, gofynnwyd am gael ystyried hunangyllidwyr a holwyd beth fydd rôl y Swyddfa Genedlaethol o ran sicrhau bod pobl sy'n talu am eu gofal a'u cymorth eu hunain yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o ddarparwyr gofal cymdeithasol er mwyn diwallu eu hanghenion. Nodwyd nad yw'r weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol yn sôn am hunangyllidwyr, ac nid yw'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yn berthnasol i bobl sy'n prynu gwasanaethau trwy daliad uniongyrchol. Yn yr un modd, roedd y Comisiynydd Plant yn dymuno gweld mwy o sôn am blant drwy gydol y weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol.

**Cwestiwn 3.3:** Ydych chi'n cytuno â'r swyddogaethau arfaethedig ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol, a'r berthynas sydd wedi'i disgrifio â sefydliadau statudol

allweddol, yn enwedig awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, a GIG Cymru? Os nad ydych chi, pa swyddogaethau ydych chi'n anghytuno â nhw a pham?

Ar sail nifer yr ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn penodol hwn (cyfanswm o 55 o ymatebwyr, gyda 50  yn cynnig ymatebion cynhwysfawr), a hefyd ar sail manylder yr ymatebion, roedd yn amlwg bod nifer o'r ymatebwyr o'r farn eu bod wedi cyflwyno sylwadau digonol ynglŷn â'r agwedd hon yn yr atebion blaenorol. Er bod y mwyafrif o'r sylwadau'n cytuno â'r swyddogaethau a nodir – sef cryfhau'r elfen amlasiantaethol sy'n perthyn i gynllunio gofal a chymorth effeithiol – unwaith eto dywedodd rhai fod angen gwell eglurder ynglŷn â'r cydberthnasau arfaethedig rhwng y Swyddfa Genedlaethol a'r cyrff sy'n bodoli ac sydd ar waith yn barod.

Croesawyd y swyddogaethau allweddol gogyfer cynnig cyfeiriad strategol a chryfhau arweiniad cenedlaethol ar gyfer y sector tra'n ategu canlyniadau gwella ansawdd i bobl yn unol ag amcanion y fframweithiau deddfwriaethol allweddol, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Hefyd, byddai'r ymatebwyr yn croesawu ymrwymiad pellach i weithio mewn partneriaeth â'r sector Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol, a nodwyd pa mor bwysig yw cyfraniad sefydliadau lleol.

Tynnwyd sylw at swyddogaethau eraill hefyd, sef swyddogaethau'n ymwneud â chysylltu darparwyr a chomisiynwyr, gan helpu i ysgogi cydgynhyrchu a threfniadau rhannu pŵer. Ond gofynnodd un ymatebydd am gael rhagor o wybodaeth am fap trywydd ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol mewn perthynas â bod yn gorff hyd braich yn y dyfodol, neu'n rhan o'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

O safbwynt y modd y byddai'r Swyddfa Genedlaethol yn rheoli achosion o beidio â chydymffurfio â'r Swyddfa Genedlaethol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r swyddogaethau, ond gofynnwyd am well eglurder. A fyddai hyn yn cael ei wneud mewn ffordd gefnogol? Beth fyddai'r gweithdrefnau uwchgyfeirio? Hefyd, enghreifftiau o "bwyntiau tyngedfennol" pan fyddai angen i'r Swyddfa Genedlaethol eirioli mewn anghydfodau.

Caiff y sylwadau hyn sy'n ceisio gwell eglurhad ynglŷn â phwerau a rolau'r Swyddfa Genedlaethol mewn achosion cymrodeddu, a hyd yn oed mewn Adolygiadau Barnwrol, eu hailadrodd ynghyd â gallu'r Swyddfa (fel y nodir uchod) i sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cydymffurfio â'r Fframwaith Cenedlaethol a'r angen i osgoi dyblygu rolau Arolygiaeth Gofal Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Roedd un ymatebydd o'r farn y gellid cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru oddi mewn i'r Swyddfa Genedlaethol yn y dyfodol, a dywedodd y byddai hynny'n gam tuag at ffurfio Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Hefyd, roedd yr ymatebydd i'r farn y byddai safoni prosesau comisiynu yn gam buddiol a chadarnhaol, a byddai hefyd yn croesawu cyflwyno templedi safonedig, cenedlaethol.

Cyflwynwyd nifer o ymatebion cadarnhaol ynglŷn â'r swyddogaethau arfaethedig, ond hefyd gofynnwyd am eglurder ynglŷn â materion fel eu barn y bydd y Swyddfa Genedlaethol angen adnoddau priodol er mwyn ei galluogi i gyflawni'r swyddogaethau arfaethedig. Rydym yn mynd ar drywydd gwell eglurder ynglŷn â'r

trefniadau rhwng y Swyddfa Genedlaethol a GIG Cymru a strwythurau presennol eraill, fel y gellir asio gwaith cynllunio strategol yn hytrach na chreu ychwaneg o gymhlethdod neu ddyblygu anfwriadol. Un enghraifft o'r eglurder yr eir ar ei drywydd yw eglurder ynglŷn â gwahanol rolau a swyddogaethau'r Swyddfa Genedlaethol o gymharu â'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol – cyfeiriodd ymateb y Bwrdd at ei swyddogaeth annibynnol bwysig sydd, ar y naill law, yn gefnogol ond sydd hefyd, ar y llaw arall, yn rhyw fath o gyfaill beirniadol. Soniwyd hefyd am eglurder ynglŷn â'r berthynas gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y rhyngwyneb gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o ran hyfforddiant a swyddogaethau'r gweithlu, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru o ran datblygu gweithlu integredig ar gyfer y dyfodol.

O ran egluro rolau a swyddogaethau, cyflwynodd nifer o ymatebwyr awgrym defnyddiol – sef y byddai'n dda o beth defnyddio ffeithlun i ddangos y cysylltiadau/cydberthnasau gyda Gweithrediaeth y GIG, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru er enghraifft (gallai'r ffeithlun hwn ddangos unrhyw weithgareddau a ddyblygir hefyd). Efallai hefyd y gellid defnyddio cyfres o femoranda cyd-ddealltwriaeth i gynnig cymorth ac esboniad pellach.

**Cwestiwn 3.4:** Ar sail swyddogaethau arfaethedig y Swyddfa Genedlaethol, ydych chi'n rhagweld y bydd gwaith sy'n cael ei wneud eisoes gan gyrff neu sefydliadau cenedlaethol eraill yn cael ei ddyblygu, ac a oes cyfleoedd eraill yma i symleiddio?

Daeth 46 o ymatebion i law i'r cwestiwn hwn. Fel yn achos nifer o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiynau blaenorol, nodwyd yn y fan hon eu bod yn cefnogi/o blaid sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol, ond bod angen gwell eglurhad o lawer ynglŷn â'r systemau a'r cydberthnasau gweithio arfaethedig gyda chyrff sy'n bodoli eisoes yn y sector, megis Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gweithrediaeth y GIG ac ati. Un pryder enfawr a fynegwyd oedd yr angen i osgoi dyblygu'r rolau a'r swyddogaethau hyn. Unwaith eto, gofynnwyd am gael ffeithlun i esbonio ac egluro'r sefyllfa.

Mynegodd un ymatebydd bryder ynglŷn â chysondeb – dywedodd fod 22 o Awdurdodau Lleol a 7 o Fyrddau Iechyd Lleol yn mynd ati ar wahân i ymwreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn eu ffyrdd o weithio ac yn y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Bydd y sefydliadau hyn hefyd yn gweithio tuag at gydymffurfio â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth. Nodwyd bod llawer o ddyblygu i'w weld eisoes mewn rolau a thasgau a dywedwyd ei bod yn anodd deall sut y bydd y Swyddfa Genedlaethol yn lleihau'r dyblygu hwn (neu'n osgoi ychwanegu ato) oni fwriedir dwyn rhagor ohonynt o dan nawdd y swyddfa ei hun mewn tandem. Ym marn yr ymatebydd, mae angen canolbwyntio ar gydweddu rhaglenni gwaith yn hytrach na defnyddio'r dull "*gwasgaredig"* cyfredol sy'n dreth ar adnoddau lleol.

Roedd ymatebwyr eraill yn bryderus ynglŷn â dyblygu ymdrechion gydag awdurdodau lleol – yn y senario orau, byddai'r Swyddfa Genedlaethol yn arwain at well cysondeb trwy ddarparu canllawiau, offer a thempledi cenedlaethol ac ati y gallai awdurdodau lleol a chomisiynwyr y GIG eu defnyddio ledled y wlad. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai awdurdodau lleol yn dyblygu, yn addasu neu'n ail-lunio deunyddiau'r Swyddfa Genedlaethol, gan greu gwaith ychwanegol. Nodwyd

hefyd y gwaith a wnaed gan Gwelliant Cymru ar welliannau parhaus mewn perthynas â gofal cymdeithasol yng Nghymru a gofynnwyd sut y gallai gwaith gwella'r Swyddfa Genedlaethol gysylltu â'r gwaith hwnnw. Cyfeiriwyd hefyd at y gwaith a wneir ar hyn o bryd i wella data yn Gofal Cymdeithasol Cymru yn ogystal â'r Adnodd Data Cenedlaethol a gwaith mewn meysydd eraill – ni ddylid dyblygu'r gwaith hwn.

Nododd un awdurdod lleol fod dyblygu bob amser yn risg pan fo gan amryfal sefydliadau neu gyrff swyddogaethau a chyfrifoldebau gorgyffyrddol, a dywedodd y gallai hyn arwain at aneffeithlonrwydd, gwastraff adnoddau a dryswch ymhlith rhanddeiliaid. Awgrymwyd y dylai amryfal gyrff a sefydliadau cenedlaethol sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol fynd ati i adolygu a mapio'u swyddogaethau'n drylwyr er mwyn canfod meysydd lle gallai eu gwaith orgyffwrdd neu arwain at ddyblygu. Awgrymwyd y dylid cynnal "dadansoddiad o fylchau" er mwyn dod o hyd i feysydd lle ceir cyfyngiadau oddi mewn i sefydliadau neu lle ceir bylchau sylweddol yn eu darpariaeth, gan fynd ati i asesu a oes modd i'r Swyddfa Genedlaethol arfaethedig ymdrin â'r bylchau hynny.

Dyma enghreifftiau eraill o ddyblygu posibl a gyflwynwyd yn yr ymatebion:

• Datblygu a lledaenu arloesi, ymchwil ac arferion gorau, sef swyddogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru ar hyn o bryd. Er bod y ddogfen ymgynghori yn nodi y bydd y swyddfa'n gweithio mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru am y rheswm hwn, ymddengys y bydd dyblygu diangen yn digwydd ac y bydd haen ychwanegol o gymhlethdod i'w chael ar adeg pan ydym yn symud tuag at symleiddio systemau a phrosesau gofal cymdeithasol.

• Mae dyletswyddau'n ymwneud â chyflawni safonau a sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal a chymorth yn gorgyffwrdd i raddau helaeth gyda chylch gwaith Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru, yn ogystal â'r amryfal swyddogion a chyrff monitro contractau a geir oddi mewn i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gomisiynir. Byddai'n fwy buddiol sôn am ddatblygu dulliau cyson o fesur gwasanaethau o ansawdd a hyrwyddo'r arfer o'u mabwysiadau trwy Gymru gyfan.

• Swyddogaeth arall yr ymddengys ei bod yn dyblygu dyletswyddau a phwerau Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r gallu i "*ddarparu arweinyddiaeth gadarn i'r sector ar gyfer gwaith gwella a thrawsnewid yn unol â blaenoriaethau a safonau cenedlaethol"* – rôl orfodi, fe ymddengys.

• Mae hyrwyddo gwasanaethau integredig eisoes yn un o swyddogaethau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol – er, maent yn cydnabod nad yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyson ar hyn o bryd o ran pa mor dda y cyflawnir hyn, ac nad oes ganddynt unrhyw bwerau i orfodi newid yn eu hardal. Fodd bynnag, gan fod y nod hwn yn un y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn anelu tuag ato, ymddengys fod dyblygu i'w gael.

• Yn yr un modd, ymddengys fod y gwaith uniongyrchol gyda'r 22 Awdurdod Lleol yn dyblygu rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan esgor ar ddyblygu a dryswch posibl. Mae'n bosibl y gellid lleihau'r dyblygu pe bai'r Swyddfa Genedlaethol yn

cysylltu ag awdurdodau lleol ar y cyd drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ond efallai na fydd gweithio drwy'r Byrddau yn berthynas ddigon agos.

Heb gyflwyno newidiadau i gyrff sy'n bodoli eisoes – megis Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol – awgrymwyd y gallai'r cynigion cyfredol ychwanegu cymhlethdod a dryswch at rolau a chyfrifoldebau a'i gwneud hi'n anos i randdeiliaid lywio trwy drefniadau llywodraethu'r sector.

**Cwestiwn 3.4a:** Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y bydd modd datrys y mater? Er enghraifft, a fyddech chi'n cefnogi'r syniad o drosglwyddo swyddogaethau penodol i'r Swyddfa Genedlaethol?

O blith y 32 o ymatebion a ddaeth i law, gwelwyd bod nifer o'r rhai a ymatebodd i'r agwedd benodol hon ar y cwestiwn wedi cyfeirio at atebion blaenorol.

Unwaith eto, gofynnwyd am well eglurder ynglŷn â rolau, dibenion ac amcanion sefydliadol. Awgrymwyd y dylid cael Cylch Gorchwyl a ystyriwyd yn fanwl, pan fo hynny'n briodol – cylch gorchwyl y byddai angen i'r holl sefydliadau partner gytuno arno. Ni ddylid rhagdybio mai tasg hawdd yw'r posibilrwydd o ymgorffori pethau oddi mewn i'r Swyddfa Genedlaethol. Byddai'n rhaid ystyried pethau'n fanwl a sicrhau cytundeb drwy gydol y broses. Nodwyd y dulliau canlynol ar gyfer osgoi dyblygu: Diffinio rolau a chyfrifoldebau; Egluro mewn strategaethau datblygol beth yw terfynau'r cwmpas ar gyfer amrywio lleol, ac o dan ba amodau; a Sefydlu proses gymrodeddu/uwchgyfeirio.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r syniad y dylid ymgorffori Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru oddi mewn i'r Swyddfa Genedlaethol – yn eu tyb nhw, roedd hi'n hollbwysig sicrhau na fyddai'r Swyddfa Genedlaethol yn dyblygu nac yn ailadrodd darpariaethau presennol/datblygol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, gan y gallai hynny amharu ar feysydd lle mae sefydliadau eisoes wedi ennill eu plwyf, yn enwedig pan fo cydberthnasau i'w cael ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Y gred hefyd oedd y byddai proses ymgorffori o'r fath yn cynyddu costau, sef arian y gellid gwneud gwell defnydd ohono ar lefel leol, Felly, byddai uno sefydliadau presennol er mwyn creu'r Swyddfa Genedlaethol yn opsiwn mwy effeithiol.

Er y nodwyd drachefn bod angen ystyried y berthynas gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, soniwyd am y peryglon posibl sydd ynghlwm wrth ddyblygu dulliau a roddir ar waith gan fforymau cynghori cenedlaethol eraill, megis Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu, y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd a Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Niwroamrywiaeth.

Fel rhan o broses oruchwylio'r fframwaith comisiynu cenedlaethol, awgrymodd un ymatebydd y gellid ymgorffori swyddogaethau'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol oddi mewn i'r Swyddfa Genedlaethol. Hefyd, mae angen eglurder ynglŷn â'r modd y bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio gyda'r GIG a chydag awdurdodau lleol i fandadu y dylai sefydliadau ddilyn y fframwaith comisiynu. Er y tybir y bydd y GIG yn cael ei ddwyn i gyfrif gan Brif Weithredwr y GIG a'i drefniadau llywodraethu penodol,

mae angen nodi hyn yn ddiamwys oherwydd bydd yn rhoi hyder i waith partneriaeth a gwaith integredig yn y dyfodol.

Hefyd, mynegwyd y farn y deuai cyfleoedd dros amser i gydweddu rhaglenni comisiynu cenedlaethol eraill â'r Swyddfa Genedlaethol, yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu swyddogaeth gynllunio a chomisiynu strategol ar y cyd ar gyfer plant ac oedolion ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth iawn na ellir eu diwallu'n lleol neu'n rhanbarthol. Gellid cynorthwyo awdurdodau lleol arweiniol i gomisiynu ar ran Cymru, fel rhan o fframwaith cenedlaethol y cytunwyd arno. Hefyd, rhaid ystyried y gydberthynas rhwng safonau ac egwyddorion comisiynu ar gyfer oedolion a gwasanaethau plant – fel arall, bydd safonau gwahanol yn siŵr o ddod i'r amlwg.

**Cwestiwn 3.5:** O ran ei safle oddi mewn i Lywodraeth Cymru a darparu ar gyfer 'golwg barcud' o'r system gofal cymdeithasol, beth yw'r prif gyfleoedd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, a phartneriaid allweddol eraill, i sbarduno newid a gwella gwasanaethau? Rhowch resymau am eich ymateb.

Daeth 56 o ymatebion i'r Cwestiwn hwn i law. Ar y cyfan, roeddynt yn gadarnhaol iawn, a dywedwyd ei fod yn ffordd o ysgogi gwasanaethau i newid a gwella trwy gydweithio'n agos â'r gwasanaethau hynny. Hefyd, byddai'n ffordd o gryfhau partneriaethau presennol trwy'r sector. Dywedwyd mai'r Swyddfa Genedlaethol fydd y corff cyffredinol canolog ar gyfer cydgysylltu a goruchwylio gwasanaethau ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn helpu i sicrhau cysondeb a meincnodi safonau ar gyfer comisynu gofal cymdeithasol.

Soniodd nifer o'r ymatebwyr am ddefnyddio data i gynorthwyo'r sector i weithio tuag at atebion, a byddent yn croesawu rhagor o fanylion ynglŷn â sut y gellid symleiddio a gwella data sy'n bodoli eisoes, fel y gellid ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau. Bydd angen ystyried ffyrdd effeithlon y gall awdurdodau eu defnyddio i gasglu data a'i rannu gyda rhanddeiliaid allweddol, megis, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Nodwyd bod data awdurdodau lleol, yn hanesyddol, wedi cael ei grwpio yn ôl 'chwaer' awdurdodau lleol, h.y. awdurdodau lleol ag anghenion tebyg. Roedd hyn yn helpu i bennu tueddiadau ystyrlon, yn genedlaethol. Bydd dulliau o ymdrin â'r fframwaith cenedlaethol yn amrywio o ranbarth i ranbarth ac awgrymwyd y byddai'n werth ystyried a fyddai'r dull hwn o gasglu data yn ategu dealltwriaeth o'r gwahaniaethau hyn.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig rhannu data cywir, amserol a hygyrch er mwyn gwella'r gwaith o gasglu data ynglŷn â'r gweithlu a data ynglŷn â dementia (ynghyd â gwella mynediad at ddata o'r fath), yn cynnwys data'n ymwneud ag ansawdd y gofal, fel y gellir helpu i bennu rhwystrau at fynediad, anghydraddoldebau a meysydd i'w gwella.

Mae'r angen i gasglu data cadarn ynglŷn â'r gweithlu yn cynyddu, a nodwyd y bydd modd i'r Swyddfa Genedlaethol asesu cydraddoldeb ac amrywiaeth gan fod y diffyg data am ofal cymdeithasol ar hyn o bryd yn rhwystr allweddol o ran deall anghydraddoldebau presennol ac ymdrin â nhw. Cyfeiriwyd at yr ymchwiliad diweddar i anghydraddoldeb hiliol mewn gweithluoedd iechyd a gofal cymdeithasol

lle gwelwyd na cheir data cadarn am weithwyr ethnig lleiafrifol sydd ar gyflogau isel, yn enwedig yn y maes gofal cymdeithasol i oedolion. Mae data'n ymwneud â gweithwyr a'u profiadau yn hanfodol o ran cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac anghenion y gweithlu.

Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol weithio gydag awdurdodau lleol i wella'r modd y caiff data cydraddoldeb defnyddwyr gofal cymdeithasol ei gasglu, ei ddadansoddi a'i gofnodi; yn cynnwys y rhai sy'n cwyno am benderfyniadau neu sy'n herio penderfyniadau. Dylid ystyried y data hwn ochr yn ochr â data o fath arall yn ymwneud â bodlonrwydd defnyddwyr, gan ei ddefnyddio i bennu ac ymdrin â chanlyniadau gwael a ddaw i ran pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Pwysleisiodd yr ymatebion y bydd yn hollbwysig i'r Swyddfa Genedlaethol sicrhau atebolrwydd a pherthynas glir gyda Gweithrediaeth GIG Cymru o gofio'i rôl o ran prynu/cyllido gofal cymdeithasol. Croesawyd ymrwymiad i sicrhau synergedd ar draws gwaith comisiynu llywodraeth leol a'r GIG mewn perthynas â gofal cymdeithasol. Rhagwelir y bydd atebolrwydd gweithredol y Swyddfa Genedlaethol, trwy gyfrwng atebolrwydd y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, yn ategu ychwaneg o integreiddio ac ychwaneg o gomisiynu ar y cyd, gan arwain at ofal a chymorth mwy di-dor. Er iddynt nodi bod disgwyl i'r Swyddfa Genedlaethol fod yn gydweithredol, yn agored ac yn dryloyw o ran ei threfniadau llywodraethu a'i phenderfyniadau, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r posibilrwydd y gallai'r Swyddfa Genedlaethol gynnig pwynt canolog ar gyfer cyfathrebu cyson â'r sector gofal cymdeithasol, fel y gellid cynnwys partneriaid cydgyflawni allweddol fel darparwyr tai a chymorth tai, darparwyr gofal iechyd a chomisiynwyr yn y GIG sy'n comisiynu gofal cymdeithasol.

O safbwynt awdurdodau lleol, er y credir y byddai sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol yn cynnig cyfle cadarnhaol i ysgogi dull safonedig o ymdrin â gwelliannau a newidiadau mewn gwasanaethau, byddai angen iddi fod yn ofalus rhag ofn iddi gael effaith negyddol ar unrhyw arferion arloesol sy'n bodoli'n lleol yn barod. Ymhellach, mae'n cynnig cyfle i wella gwasanaethau gofal trwy gael gwared â biwrocratiaeth a dyblygu gwaith, yn ogystal â chyflawni'n unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu, mae hi'n hanfodol sicrhau gwerth am arian fel y gellir darparu rhagor o wasanaethau, a gwasanaethau gwell, am yr un gost. Dylai'r swyddfa edrych ar y gorgyffwrdd rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol a mynd ati i lunio gweledigaeth strategol ar gyfer un system ofal i Gymru. Trwy gael golwg strategol lefel uchel ar bethau, byddai modd i'r Swyddfa weld a deall pa bethau sy'n gweithio'n dda, pa bethau nad ydynt yn gweithio cystal a pha bethau y mae angen eu newid er mwyn cyflawni'r weledigaeth strategol honno. Galwyd hefyd am swyddfa sy'n rhoi llais gwirioneddol a chyfartal i ofal cymdeithasol, gan weithio gyda'r GIG yn hyrwyddo'r sector o fewn llywodraeth ganolog.

Hefyd, y gred oedd y byddai dwyn ynghyd a symleiddio rhaglenni cyllido a chyfleoedd grant yn ffordd o leihau'r effaith ar adnoddau lleol. Nid yw'n glir a oes yna ddealltwriaeth a golwg gyffredinol ar hyn o bryd o'r system gyfan, ac mae angen cryfhau hyn. Rhaid gwella cyfathrebu rhwng adrannau perthnasol Llywodraeth

Cymru, oherwydd tueddir i ganolbwyntio at feysydd penodol heb ystyried y system gyfan.
I grynhoi, mae'r sylwadau canlynol yn dangos y cyfleoedd a leisiwyd gan yr ymatebwyr:

● Casglu data a gwybodaeth er mwyn cael darlun cenedlaethol o anghenion gofal a chymorth y presennol a'r dyfodol, fel y gellir llywio penderfyniadau'n ymwneud â pholisïau a darparu gwasanaethau.

● Casglu data'n ymwneud â'r adnoddau y mae eu hangen i gynnal sector gofal a chymorth o'r radd flaenaf a sicrhau y bydd hyn yn llywio penderfyniadau cyllideb Llywodraeth Cymru.

● Hyrwyddo a datblygu gweithwyr gofal a chymorth o'r radd flaenaf, a chynorthwyo i'w recriwtio a'u cadw.

● Cynnig her, cymorth ac arweiniad cryf er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r weledigaeth o ran Ailgydbwyso Gofal a Chymorth.

● Annog a sicrhau dulliau comisiynu cyson ledled Cymru.

● Hyrwyddo arferion da a dwyn i gyfrif ymarfer gwael wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth.

● Canfod a dileu unrhyw ddyblygu neu unrhyw faich gweinyddol diangen ledled y sector.

**Cwestiwn 3.6:** Yn eich barn chi, beth yw'r cyfleoedd penodol i'r Swyddfa Genedlaethol arwain newid diwylliant mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, gan ganolbwyntio'n benodol ar y cynllun pum mlynedd, 'Mwy na Geiriau' (2022-27).

O blith y 41 o ymatebwyr, roedd y mwyafrif ohonynt yn hynod gefnogol i'r Swyddfa Genedlaethol a chyflwynwyd sylwadau cadarnhaol ganddynt ynglŷn â'r Swyddfa Genedlaethol a'r cyfleoedd posibl iddi arwain at newid diwylliant mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r gallu i gyfathrebu'n briodol gyda'r holl bartïon yn y sector, yn eu dewis iaith ac yn eu hoff iaith gyntaf, wedi bod yn eithriadol o bwysig, yn enwedig wrth ddarparu gofal a chymorth i bobl hŷn, i bobl â dementia ac i bobl ag anableddau dysgu – a bydd hyn yn parhau i fod yn eithriadol o bwysig yn y dyfodol. Mynegwyd cefnogaeth gref i'r syniad y dylai'r Swyddfa Genedlaethol arwain newid diwylliannol pellach a fydd yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael gofal yn eu dewis iaith. Nododd rhai ymatebwyr y dylid nodi dewis iaith unigolion ac y dylid ystyried bod yr wybodaeth honno mor bwysig a sylfaenol â manylion eu dyddiad geni.

Un o'r ymadroddion allweddol yn yr adran hon o'r ymarfer ymgynghori yw "hyrwyddo a darparu" – hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol, ac yn benodol felly oddi mewn i'r sector gofal (o ran y gweithlu yn anad dim); a darparu cymorth, cyfleoedd ac amser, gan weithio'n agos ar y cyd â phartneriaid a Chomisiynydd y Gymraeg i gynnig darpariaeth dysgu Cymraeg. Yn ôl yr ymatebwyr, dylid talu am y ddarpariaeth dysgu Cymraeg a dylai ddigwydd yn ystod y diwrnod gwaith yn hytrach nag yn amser y gweithwyr eu hunain. Wrth weithio gyda rhanddeiliaid a chydweithredwyr allweddol –

sefydliadau eiriolaeth iaith rhanbarthol, lleol er enghraifft – anogir yn gryf y dylid datblygu rhagor o hyfforddiant a chanllawiau cadarnach.

Mynegodd un ymatebydd y farn hon yn gryno trwy ddweud "…ni ddylid colli'r cyfle i gynorthwyo rhagor o siaradwyr Cymraeg i ddod o hyd i swyddi mewn gwasanaethau gofal. Byddai hyn nid yn unig yn mynd i'r afael â'r prinder siaradwyr Cymraeg a geir ar hyn o bryd mewn gwasanaethau gofal, ond byddai hefyd yn annog pobl ifanc i aros yng Nghymru a dilyn gyrfaoedd yma yn hytrach na symud o'r ardal. Dyma gyfle i gynnig cyfleoedd!"

Er bod y mwyafrif o'r ymatebion wedi canolbwyntio ar y Swyddfa Genedlaethol, ar y Gymraeg ac ar integreiddio â'r cynllun "Mwy na Geiriau", nododd nifer o'r ymatebwyr fod angen cydnabod bod Cymru yn wlad sy'n fwyfwy diwylliannol amrywiol lle ceir amryfal ieithoedd eraill y mae'n rhaid eu defnyddio ar gyfer y bobl sydd angen cynlluniau gofal a chymorth. Yn ychwanegol at gydnabod amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol Cymru, cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y cyfle sylfaenol a geir trwy gyfrwng y Swyddfa Genedlaethol i hyrwyddo pob agwedd ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – gan ymwreiddio Mwy na Geiriau, y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r Fframwaith Strategol ar gyfer y Gymraeg, yn y gobaith y bydd y Swyddfa Genedlaethol yn dangos arweiniad ac y bydd modd iddi dynnu rhagor o sylw at y blaenoriaethau hyn, fel y gellir cyflymu newidiadau a gwella'u cynaliadwyedd.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn falch y bydd gan y Swyddfa Genedlaethol ddyletswydd ffurfiol i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a chroesawyd y cyfeiriad at Mwy na Geiriau. Gofynnwyd am gael cryfhau'n fawr y modd y câi Mwy na Geiriau ei hyrwyddo trwy'r Swyddfa. Hefyd, gofynnwyd am gael dyletswydd benodol i ysgogi gwelliannau trwy'r sector a gofynnwyd a fyddai modd clymu'r Swyddfa â chynllun 5 mlynedd a dal y swyddfa'n gyfrifol am rai o'r camau amrywiol o fewn y cynllun hwnnw. Hefyd, bod â rôl o ran adeiladu gwaith partneriaeth strategol gydag awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru/Gofal Cymdeithasol Cymru a bod â'r gallu i ddarparu adnoddau ar gyfer bwrw ymlaen ag agenda'r iaith Gymraeg.

O ran y Swyddfa Genedlaethol ei hun, a'i staff, dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod staff y Swyddfa Genedlaethol neu, fan leiaf, bod cyfran fawr o'i staff, yn siaradwyr Cymraeg, yn arbennig felly gan y bydd y Swyddfa'n delio gyda'r cyhoedd.

**Cwestiwn 3.7:** Pa gamau ymarferol all y Swyddfa Genedlaethol eu cymryd i sicrhau cyfle cyfartal trwy ofal cymdeithasol? Gan roi ystyriaeth i amrywiaeth cymunedau Cymru ac amgylchiadau pobl eu hunain, sut mae'r Swyddfa Genedlaethol yn gallu ychwanegu gwerth ar lefel genedlaethol i sicrhau bod canlyniadau lles pobl yn cael eu bodloni'n gyson?

O blith y 45 o ymatebion a ddaeth i law, dywedodd rhai fod yr agwedd hon wedi cael ei hateb yn ddigonol yng Nghwestiwn 3.6; yn achos y rhai a gyflwynodd sylwadau'n benodol yn y fan hon, roeddynt o'r farn y dylai'r Swyddfa Genedlaethol gasglu a chynnal data cenedlaethol ar bob lefel er mwyn sicrhau cyfle cyfartal trwy ofal cymdeithasol. Roedd "ymgysylltu" a "chynwysoldeb" yn themâu allweddol yn yr

ymatebion. Rhaid ymgysylltu mewn modd cyson a thrylwyr gyda'r trydydd sector a chyda phob sefydliad amrywiaeth a chydraddoldeb.  Dywedwyd y dylai'r Swyddfa Genedlaethol gyhoeddi ei chynlluniau ymgysylltu.

Cafwyd cefnogaeth gref i gynhwysiant digidol, gan sicrhau y bydd dinasyddion, yn enwedig pobl mewn cymunedau a ymyleiddiwyd, yn cael eu hysbysu'n llwyr ac yn cael eu cynnwys yn y gwaith o lunio polisïau a chreu datblygiadau, a bod modd i rôl y Swyddfa Genedlaethol, trwy gasglu data, gadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd mewn cymunedau, gan fynd ati i gynnig arweiniad a chyfeiriad strategol yn ogystal â rhannu arferion gorau a sicrhau dysgu parhaus.

Gan adleisio datganiadau cynharach ynglŷn â'r cynnydd mewn cymunedau amlddiwylliannol amrywiol trwy'r rhan fwyaf o ardaloedd trefol ac, yn wir, ym mhob rhan o Gymru, bydd modd i'r Swyddfa Genedlaethol gyflwyno newidiadau trwy hyrwyddo Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Gan nodi bod y cynlluniau hyn wedi'u hymwreiddio yn ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'u bod yn elfen allweddol o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, rhaid i'r Swyddfa Genedlaethol fod â rôl o ran sicrhau y'u cyflawnir yn llwyddiannus. Gall ychwanegu gwerth trwy sicrhau cydymffurfedd a chan fynd ati ar yr un pryd i alluogi dull a all raeadru arferion da ledled Cymru a chynorthwyo Awdurdodau Lleol i ddysgu gwersi ar sail profiadau pobl yr effeithiwyd arnynt yn gadarnhaol ac yn negyddol yn sgil y modd y cymhwyswyd cyfle cyfartal at ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Y farn hefyd oedd y bydd modd i'r Swyddfa Genedlaethol fod â "*rôl arwain strategol yn y sector ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r anghydraddoldebau allweddol sy'n bodoli*"; gan feithrin y gallu i ddeall cydraddoldeb ac egwyddorion a safonau hawliau dynol, a'u hymwreiddio mewn prosesau comisiynu. Cyfeiriwyd at Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar COVID-19 Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a ddywedodd fod pobl o'r farn bod iechyd a gofal cymdeithasol yn elfennau anodd cael gafael arnynt, a bod rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol yn bodoli. Cyfeiriwyd hefyd at y gwerthusiad diweddar o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gynhaliwyd gan Brifysgol De Cymru lle tynnir sylw at brofiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Tynnodd y gwaith ymchwil sylw at bedair thema allweddol, sef y ffaith bod pobl yn teimlo'n siomedig gyda'r system; diffyg amser i ofalu o fewn y system ofal; neb yn gwrando ar leisiau pobl, a diffyg rheolaeth; ac effaith stereoteipio hiliol ar ofal a chymorth.

Aeth un ymatebydd ati i argymell y dylai'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth bennu canlyniadau cydraddoldeb yn y fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu er mwyn ymdrin â'r anghydraddoldebau a ddaw i ran grwpiau sy'n derbyn gofal cymdeithasol.

Awgrymwyd y camau ymarferol canlynol fel ffordd o ategu cyfle cyfartal, o dan arweiniad y Swyddfa Genedlaethol:

- Llwybrau dynodedig i ddinasyddion sydd angen herio gwasanaethau'n ymwneud â'u gofal a'u cymorth
- Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol

- Cymorth gyda rhwystrau ieithyddol – gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, adnoddau dwyieithog, a chynnig gofal i bobl yn eu dewis iaith pan fo modd
- Efallai y bydd angen ystyried cynnig cymorth wedi'i deilwra i rai grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio/grwpiau anodd eu cyrraedd, megis pobl ag anableddau neu bobl LHDTC+
- Cydweithio gyda rhanddeiliaid – rhannu arferion gorau a mentrau ar y cyd.

Awgrymwyd hefyd y gallai'r Swyddfa Genedlaethol fod â rôl hollbwysig o ran ychwanegu gwerth ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau bod canlyniadau llesiant pobl yn cael eu diwallu'n gyson:

- Datblygu safonau a chanllawiau cydraddoldeb cynhwysfawr sy'n mynd i'r afael yn benodol â materion yn ymwneud â hil, rhywedd, oedran, anabledd, unigolion LHDTC+, grwpiau eraill sydd wedi'u hymyleiddio, a hyfforddiant amrywiaeth
- Penderfyniadau a ysgogir gan ddata, casglu data, dadansoddi data a chymhwysedd diwylliannol
- Allgymorth – ymgysylltu â chymunedau, ymgyrchoedd addysg a grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid
- Mynediad at wybodaeth a deunyddiau hygyrch a chyfathrebu clir
- Ymchwil, arloesi ac eirioli – tegwch o ran ymchwil, grantiau arloesi, cynrychiolaeth ac asesiadau o'r effaith ar bolisi.

Pe bai'r Swyddfa Genedlaethol yn canolbwyntio ar amrywiaeth, cymhwysedd diwylliannol, penderfyniadau a ysgogir gan ddata, a chydweithio, y gred oedd y gallai'r swyddfa gyfrannu'n fawr at sicrhau y caiff canlyniadau llesiant pobl eu diwallu ar draws pob segment o'r boblogaeth.

### 2.5.2 Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn i ddatblygu mwy ar ei glasbrint ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth. Yn y glasbrint hwn, y bwriad yw nodi'n glir beth fydd trefniadau llywodraethu'r swyddfa genedlaethol ac egluro sut y bydd y Swyddfa Genedlaethol yn mynd i'r afael â'i swyddogaethau. Rhagwelir y bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cael ei sefydlu i gyd-fynd â'r Cod Ymarfer Statudol ar Gomisiynu, ac y bydd ei gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar weithredu'r Cod comisiynu. Bydd rôl a swyddogaeth ehangach y Swyddfa Genedlaethol yn datblygu dros amser, mewn modd sy'n cael ei ystyried gyda sefydliadau partner a'i ddeall ganddynt, fel bod y Swyddfa Genedlaethol yn ychwanegu gwerth o fewn y sector Gofal a Chymorth.

Eisoes, mae Grŵp Llywio Cenedlaethol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith nifer o randdeiliaid allweddol, wedi'i gynnull gan y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol. Y bwriad yw y bydd y grŵp llywio hwn yn parhau i gyfarfod tra caiff y glasbrint ei ddatblygu, a hyd nes y rhoddir y Swyddfa Genedlaethol ar waith.

Hefyd, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Adran Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru i ddatblygu, cytuno ar, a bwrw ymlaen â chynllun adnoddau ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol.

## 2.6. Rhan 2 – Cod Ymarfer – (Swyddogaethau Cyffredinol) (Pennod 4 yr ymgynghoriad)

### 2.6.1. Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 4.1:** A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar fanylion y Cod drafft, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am yr hyn sydd ar goll, beth y gellid ei hepgor neu ble y gellid gwella'r geiriad?

Cyflwynodd 40 o ymatebwyr sylwadau ynglŷn â'r Cod drafft diwygiedig, yn cynnwys Cadeiryddion ac Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a 3 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 11 o gyrff llywodraeth leol (yn cynnwys 8 o awdurdodau lleol), a 6 o gyrff y GIG (yn cynnwys 2 Fwrdd Iechyd Lleol). Cyflwynwyd yr 20 ymateb sy'n weddill gan sefydliadau'r trydydd sector / sefydliadau nid-er-elw (16), sefydliadau'r sector preifat (3) ac eraill (1).

Roedd Cadeiryddion ac Arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn awyddus iawn i gynnal asesiad integredig sy'n seiliedig ar leoedd, gan ddwyn ynghyd asesiadau o anghenion y boblogaeth ag asesiadau llesiant Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ategwyd hyn gan ymatebion tri o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol unigol. Hefyd, roedd y Cadeiryddion a'r Arweinwyr yn awyddus i symud tuag at un Cydgynllun Partneriaeth sy'n seiliedig ar leoedd. *"Byddai asesiad anghenion seiliedig ar le sy'n ymdrin â gofynion yr asesiad llesiant a'r asesiad anghenion poblogaeth yn galluogi llawer mwy o fewnwelediad i anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth yng nghyd-destun eu penderfynyddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Byddai creu'r stori honno am 'le' yn help i gael dealltwriaeth llawer mwy cyfannol o angen a'i benderfynyddion ac yn golygu bod modd cynllunio'n fwy effeithiol a chyflawni'n fwy integredig ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Grwpiau Cynllunio Trawsglwstwr."*

Roedd yr ymatebion a gyflwynwyd gan lywodraeth leol yn tueddu i groesawu'r fersiwn ddiwygiedig. Croesawyd yn arbennig y ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cymunedol, ond mynegwyd pryderon ynglŷn â heriau ariannol a buddsoddiad yn y sector hwn. Roedd dau gorff iechyd o'r farn bod y Cod yn rhy gynhwysfawr ac yn rhy anodd ei amgyffred. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru lunio fersiwn symlach neu nodi'r union newidiadau a wnaed.

Awgrymwyd gwahanol ychwanegiadau a gwelliannau, yn cynnwys:

- dylid rhoi mwy o bwyslais o lawer ar rôl byrddau iechyd o ran cynorthwyo i droi at atal, yn enwedig mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymorth cymunedol
- dylid sicrhau cydweddiad clir rhwng Rhan 2 y Cod a'r rheoliadau caffael, ac ar y modd y mae prosesau cyfreithiol, ariannol a chaffael yn cysylltu â'i gilydd

- dylid diffinio micro-fentrau a llunio canllawiau ar y rôl sydd ganddynt yn y gwaith o ddarparu gofal cymdeithasol
- dylid canolbwyntio mwy ar wirfoddoli
- dylid mynd ati i raddau mwy i gydnabod effaith y polisi 'nid-er-elw' ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol i blant, a dylid cynnwys esboniad pellach o'r sail resymegol sydd wrth wraidd y dulliau gwahanol a ddefnyddir i ymdrin â gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion
- dylid cysylltu â gwaith yn ymwneud â datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol
- dylid cynnwys rhagor o gyfeiriadau at glystyrau a grwpiau cynllunio clystyrau cyfan, yn cynnwys eu cysylltiad ag asesiadau o anghenion y boblogaeth
- dylid ymestyn yr adran sy'n sôn am eirioli er mwyn cynnwys gwasanaethau eraill sy'n gweithredu fel pont rhwng y system iechyd a gofal cymdeithasol a darpariaethau eraill – e.e. llywyr a chysylltwyr cymunedol
- dylid rhoi rhagor o bwyslais ar gydweddu ac integreiddio rhwng trefniadau partneriaeth (yn cynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) ar lefel gymunedol, gan ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion y boblogaeth
- dylid nodi sut y gellir mesur cynnydd ar lefelau integreiddio micro, meso a macro dros amser, a dylid asesu'r hyn sydd gan bobl i'w ddweud ynglŷn â'u profiad.

Roedd yr ymatebion a gafwyd gan ddarparwyr y sector preifat yn croesawu'r ffaith y cydnabyddir yr elfennau cadarnhaol a all ddod yn sgil darpariaeth breifat o wahanol fathau, ond mynegwyd pryderon ynglŷn â rhagdybiaethau eraill a wneir yn y Cod mewn perthynas ag elw, gwarged a chostau, a'r sail resymegol ar gyfer ailgydbwyso. Gofynnodd un ymatebydd a oedd cynnwys micro-ofal yn hyrwyddo gwasanaethau gofal cartref anrheoleiddiedig.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion a gafwyd gan sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau nid-er-elw yn croesawu'r Cod diwygiedig ac roeddynt yn gwerthfawrogi'r ymdrech i roi mwy o ffocws iddo; er, nododd un y gellid ei wneud yn fwy dealladwy i bob rhanddeiliad a gofynnodd un arall am gael canllawiau manylach i ategu arferion da.

Roedd atebolrwydd yn thema gyffredin. Roedd sefydliadau'r trydydd sector yn bryderus ynglŷn â sut y bydd awdurdodau lleol yn cael eu dwyn i gyfrif pe na bai gofynion y Cod yn cael eu rhoi ar waith. Nodwyd bod y Cod yn ddibynnol ar gydweithrediad awdurdodau lleol a bod yna ormod o gyfle i ddarparu gwasanaethau mewn modd anghyson. Rhaid adolygu a chraffu'n barhaus. Holodd rhai ymatebwyr beth fydd yr ôl-effeithiau neu'r cosbau os na chydymffurfir â'r Cod.

"Fframwaith â bwriadau da ac ôl meddwl gofalus arno, ond ni fydd yn ddim mwy nag uchelgais os na chaiff ddannedd. Mae'r canllawiau'n gadael gormod o le ar gyfer darpariaeth gwasanaeth anghyson, loterïau cod post, neu ddiffyg cydymffurfio. Gallai adolygu a chraffu parhaus arwain at lwyddiant yn y tymor hwy, ond mae gormod o gafeatau yn y canllawiau."

Dyma rai awgrymiadau penodol ar gyfer gwelliannau:

- dylid rhoi gwell cydnabyddiaeth i rôl gofalwyr di-dâl mewn perthynas ag atal ac ymyrraeth gynnar
- dylid rhoi pwyslais ar gadernid cymunedol fel ffordd allweddol o leihau'r galw am wasanaethau gofal statudol
- dylid cyfeirio at anghenion pobl sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes
- dylid mynd ati i raddau helaethach i bwysleisio pa mor bwysig yw mawrbrisio a chefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol
- dylid cyfeirio'n benodol at wasanaethau sefydlu mewn asesiadau o anghenion y boblogaeth.

**Cwestiwn 4.2:** Yn benodol, a yw'r diwygiadau i Bennod 4 yn helpu i egluro'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector? A oes unrhyw beth ar goll neu'n aneglur?

Cyflwynodd 52 o ymatebwyr sylwadau ynglŷn â'r diwygiadau i Bennod 4 y Cod, yn cynnwys 3 o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, 15 o gyrff llywodraeth leol (yn cynnwys 11 o awdurdodau lleol), 6 o gyrff y GIG (yn cynnwys 5 o Fyrddau Iechyd Lleol), a 6 o gyrff cyhoeddus eraill. Cyflwynwyd y 22 ymateb sy'n weddill gan sefydliadau'r trydydd sector / sefydliadau nid-er-elw (18), sefydliadau'r sector preifat (1) ac eraill (4).

Roedd y farn yn gymysg ynglŷn â'r graddau y mae'r Cod yn helpu i egluro'r ddyletswydd hyrwyddo yn Adran 16. Er bod yr ymatebion a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn tueddu i ddweud bod y fersiwn ddiwygiedig o Bennod 4 yn ddefnyddiol o ran egluro'r ddyletswydd, mynegodd nifer o'r ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r modd y byddai'r canllawiau'n helpu awdurdodau lleol i weithredu'r ddyletswydd yn ymarferol. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael i lywodraeth leol ar gyfer buddsoddi yn y gwaith o siapio'r farchnad a chefnogi darpariaeth y trydydd sector, a hefyd mynegwyd pryderon gan gomisiynwyr a darparwyr ynglŷn â'r capasiti o fewn y sector ei hun. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen cymorth i weithredu.

Er bod awdurdodau lleol yn tueddu i gytuno bod y bennod ddiwygiedig yn helpu i egluro'r ddyletswydd Adran 16, nododd nifer o ymatebwyr nad yw'r ddeddfwriaeth gaffael yn caniatáu gwahaniaethu cadarnhaol o blaid sefydliadau Adran 16 wrth dendro am wasanaethau. Nodwyd bod darparwyr preifat yn dal i fod yn bartneriaid allweddol o ran darparu gofal cymdeithasol ac y bydd cydgynhyrchu â'r sector preifat, yn ôl pob tebyg, yn parhau i fod yn hollbwysig. Hefyd, dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod angen cymorth, adnoddau ac arian ar gyfer bwrw ymlaen â'r agenda hon ac ar gyfer buddsoddi yn y dasg o ddatblygu'r farchnad. Awgrymwyd y bydd angen adolygu'r Cod wrth fwrw ymlaen â'r gwaith o gael gwared ag elw preifat o wasanaethau plant.

Mae'r ymatebion a gyflwynwyd gan gyrff iechyd yn awgrymu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar rôl byrddau iechyd o ran hyrwyddo a datblygu mentrau cymdeithasol ochr yn ochr ag awdurdodau lleol. Hefyd, nodwyd y dylai byrddau iechyd gymryd rhan yn y fforymau rhanbarthol. Awgrymodd rhai y dylai byrddau iechyd gael dyletswyddau tebyg.

*"Dylai fod llawer mwy o bwyslais ar yr angen i fyrddau iechyd a phartneriaid eraill fod â chyfrifoldeb cyfartal i hyrwyddo a datblygu menter gymdeithasol, a hynny am bob un o'r un rhesymau ag a nodir ar gyfer awdurdodau lleol. Gan gydnabod bod hyn yn dir anghyfarwydd i fyrddau iechyd, mae llu o gyfleoedd y gellid eu gwireddu pe bai'r angen i ystyried menter gymdeithasol yn ddyletswydd, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd."*

Yn achos dau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, dywedasant eu bod o'r farn bod y ddyletswydd wedi'i nodi'n glir a bod y diffiniadau'n glir. Cyfeiriwyd yn arbennig at y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth waith ar lefel y gymuned (e.e. cynorthwyo i ddatblygu cwmnïau cydweithredol a hyrwyddo ymyriadau gwrthdlodi) a'r angen am gymorth ariannol hirdymor.

Roedd sefydliadau'r trydydd sector yn tueddu i gefnogi'r diwygiadau i Bennod 4 ac roeddynt o'r farn bod y bennod ddiwygiedig yn cynnig gwell eglurder. Ond mynegodd nifer ohonynt bryder ynglŷn â chyllid, capasiti a disgwyliadau uwch ar adeg pan mae sefydliadau Adran 16 yn cael anawsterau i ymgysylltu, dylanwadu a sicrhau cyllid. Nodwyd bod angen trin y trydydd sector fel partner dilys o'r cychwyn cyntaf, a bod angen tryloywder ynglŷn ag adnoddau, yn cynnwys arfer da o ran buddsoddiad cynaliadwy hirdymor yn y sector.

Mynegodd darparwyr yn y sector preifat rai pryderon am y goblygiadau i'r sector preifat, er eu bod yn croesawu'r gydnabyddiaeth o'u rôl mewn darpariaeth i oedolion.

*"Rydym yn pryderu y gallai'r ffocws ar ddarparu drwy fentrau cymdeithasol, os na chaiff y neges ei hystyried yn ofalus, bortreadu darparwyr gofal preifat (a allai fod yn fusnesau bach teuluol) fel rhywbeth na ddylid ei groesawu ac sydd efallai hyd yn oed yn anfoddhaol yn foesegol.Gallai hyn fod yn ddigalondid i rai arweinwyr yn y sector sydd wedi rhoi eu henaid a'u calon yn eu gwaith ac sy'n angerddol am yr hyn maen nhw'n ei wneud. Er mwy cynnal amrywiaeth y ddarpariaeth, mae'n bwysig bod comisiynwyr y sector cyhoeddus hefyd yn ystyried comisiynu darpariaeth y sector preifat mewn ffyrdd creadigol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau; gan adeiladu ar y sgiliau a'r angerdd am y gwaith sydd eisoes ar gael yn y sector."*

Cyflwynwyd nifer o sylwadau ynglŷn â fforymau Adran 16. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y term newydd yn aneglur ac yn ddiystyr i bobl sy'n anghyfarwydd â'r Ddeddf. Hefyd, mynegwyd pryder y gallai ailenwi'r fforymau lesteirio ymgysylltu ehangach gan arwain, o bosibl, at golli momentwm trefniadau presennol. Un awgrym oedd y dylid caniatáu i'r fforymau bennu eu henwau eu hunain. Hefyd, awgrymwyd y dylid parhau i'w galw'n 'fforymau gwerth cymdeithasol', ond yn unol â'r diffiniad cliriach o werth cymdeithasol a nodir yn y Cod diwygiedig. Gofynnodd rhai ymatebwyr am well eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'r Fforymau ac ynglŷn â chysylltiadau â fforymau darparwyr eraill yn y rhanbarth. Awgrymwyd y dylai awdurdodau lleol fonitro pa sefydliadau Adran 16 sy'n ymhél â'r fforymau, er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysol a'u bod yn llwyr gynrychioli eu hardal. A ddylai Fforymau Adran 16 adrodd yn flynyddol yn hytrach na bob tair blynedd, neu ddarparu diweddariad blynyddol byr fan leiaf?

Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau manwl ynglŷn ag ychwanegiadau neu welliannau i'r Cod, yn cynnwys:

- dylid nodi’n glir bod cynnydd o ran ailgydbwyso’r farchnad yn ddibynnol ar asiantaethau eraill hefyd
- dylid nodi’n glir mai’r unig adnoddau y gall awdurdodau lleol weithio gyda nhw yw’r adnoddau sydd ar gael iddynt yn lleol ac yn rhanbarthol, a dylid nodi bod ‘gweithio gyda’r adnoddau sydd ar gael’ yr un mor bwysig â’r ‘hyn sy’n gweithio orau’
- dylid cydnabod y gall gymryd amser i greu mentrau newydd, a bod amser hefyd yn broblem
- dylid cadarnhau’r hyn sy’n ddisgwyliedig o awdurdodau lleol o ran ehangu’r farchnad mentrau cymdeithasol a sut i ddylanwadu arni
- dylid cydnabod bod angen i fusnesau’r trydydd sector wneud gwarged er mwyn gallu ei fuddsoddi’n ôl yn y busnes, ac nad busnesau’r trydydd sector yw’r opsiwn rhataf o angenrheidrwydd
- dylid pwysleisio’r angen i ymgysylltu â mentrau cymdeithasol sy’n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg a’r angen i ddarparwyr gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg
- dylid cynnwys diffiniad o’r ddyletswydd i hyrwyddo, neu fanylion am yr hyn y mae’r ddyletswydd yn ei olygu’n ymarferol.

Roedd un undeb llafur arweiniol yn bendant ei farn mai awdurdodau lleol a ddylai ddarparu’r holl ddarpariaethau gofal cymdeithasol, yn hytrach na bod y gwasanaethau’n cael eu darparu gan sefydliadau annibynnol, boed y rheini’n perthyn i’r sector preifat neu’r trydydd sector.

**Cwestiwn 4.3:** A yw’r Bennod 5 newydd yn rhoi’r negeseuon cywir ynglŷn â’r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr? A oes unrhyw beth ar goll neu’n aneglur?

Cyflwynwyd 56 o sylwadau ynglŷn â Phennod 5 newydd y Cod. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau gan 2 Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 14 o gyrff llywodraeth leol (yn cynnwys 11 o awdurdodau lleol), 6 o gyrff y GIG (yn cynnwys 5 o Fyrddau Iechyd Lleol), ac 8 o gyrff cyhoeddus eraill. Cyflwynwyd y 26 ymateb sy’n weddill gan sefydliadau’r trydydd sector / sefydliadau nid-er-elw (21), sefydliadau’r sector preifat (3) ac eraill (3).

Yn ôl y sylwadau a gyflwynwyd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sefydliadau llywodraeth leol, byrddau iechyd a chyrff cyhoeddus eraill, mae’r bennod newydd yn cyfleu’r negeseuon iawn ac mae’n nodi’r ddyletswydd yn glir. Yr her yw sicrhau y bydd hyn yn ystyrlon yn ymarferol. Dywedodd nifer o’r ymatebwyr fod angen rhagor o fuddsoddiad er mwyn bwrw ymlaen â hyn. Roedd rhai ymatebwyr yn dymuno i’r bennod sôn yn fwy penodol am bethau ymarferol, yn ogystal â nodi sefyllfaoedd da. Soniodd un neu ddau o ymatebwyr am derminoleg – gan ddweud, er enghraifft, bod y Cod yn cyfeirio sawl gwaith at ‘ymgysylltu’ yn hytrach na ‘chydgynhyrchu’. Awgrymwyd y dylem gyfeirio’n benodol at yr angen i annog siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn y camau cynllunio a gweithredu, ac y dylid ymgysylltu â’r cyhoedd yn fwy cyffredinol er mwyn annog ymwybyddiaeth dinasyddion o gydgynhyrchu. Awgrymodd rhai ymatebwyr adnoddau pellach y gellid eu cynnwys yn y Cod.

Roedd yr ymatebion a gyflwynwyd gan sefydliadau’r trydydd sector yn fwy cymysg. Er eu bod yn cefnogi’r syniad y dylid cynnwys pennod benodol yn sôn am

gydgynhyrchu, ac er eu bod yn croesawu'r egwyddorion cydgynhyrchu a'r pwyslais ar brofiadau bywyd, canolbwyntiodd nifer o'r ymatebwyr ar anghysondebau yn y modd y mae cyrff partneriaeth yn defnyddio cydgynhyrchu yn ymarferol, a gofynnwyd am ragor o adnoddau, monitro ac atebolrwydd. Gofynnwyd am gael hyfforddiant a chanllawiau manylach, yn ogystal â system ar gyfer asesu perfformiad awdurdodau lleol mewn perthynas â chydgynhyrchu. Yn benodol, gofynnwyd am gael canllawiau seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â sut y gellir cynyddu cyfranogiad pobl â phrofiad bywyd trwy'r holl broses gomisiynu, a sut y gellir addasu hyn ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl. Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r modd y bydd anghysondebau'n cael eu rheoli ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, a nodwyd y dylid canolbwyntio mwy ar fesur llwyddiant a dysgu iteraidd.

*"Nid ydym yn credu bod digon o ffocws ar 'Fesur Llwyddiant' a dysgu ailadroddol i lunio'r modelau arloesol a ddymunir ... Dim ond gyda phobl a chymunedau y bydd newid diriaethol go iawn yn digwydd yn nes at lawr gwlad. Ar y lefel dyngedfennol hon lle bydd newid a thrawsnewid yn digwydd, mae adnoddau'n dal i fod yn brin."*

Soniodd rhai o'r ymatebwyr am yr angen i roi cyfrifoldebau tebyg ar Fyrddau Iechyd Lleol.

### 2.6.2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Roeddem yn falch bod yr ymatebion, yn gyffredinol, yn tueddu i gefnogi'r diwygiadau i Bennod 2 y Cod Ymarfer, yn enwedig y penderfyniad i hollti'r bennod bresennol ar y ddyletswydd Adran 16 yn ddwy, fel y gellir canolbwyntio mwy ar gydgynhyrchu. Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r sylwadau, yn arbennig yr awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir cryfhau a gwella mwy fyth ar y Cod, a byddwn yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol cyn gosod y Cod gerbron y Senedd yn ystod gwanwyn 2023.

Cyflwynwyd nifer o sylwadau'n ymwneud â'r heriau o ran gweithredu a sut y bydd ailgydbwyso'r farchnad a chydgynhyrchu yn digwydd yn ymarferol, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae Llywodraeth Cymru yn hollol ymwybodol o'r pwysau yma ac mae'n parhau i weithio gyda llywodraeth leol, y GIG a phartneriaid eraill i ymdrin â'r pryderon hyn. Ond efallai y dylid pwysleisio mai prif ddiben y Cod yw pennu'r *fframwaith statudol* ar gyfer gweithredu darpariaethau'r Ddeddf a'r Rheoliadau cysylltiedig, ac o'r herwydd canolbwyntir ar y gofynion a'r canllawiau statudol yn hytrach nag ar bennu arferion da neu ymdrin â materion ehangach yn ymwneud ag adnoddau a chyflawni. Nid rhoi baich ychwanegol ar awdurdodau lleol yw pwrpas y diwygiad hwn, ond cadarnhau a chryfhau'r gofynion presennol a nodir yn y Cod trwy ddefnyddio'r enghreifftiau gorau o'r hyn sy'n digwydd eisoes ledled Cymru.

Nodwyd y sylwadau ynglŷn â'r angen i osod gofynion tebyg ar gyrff iechyd mewn perthynas â hyrwyddo mentrau cymdeithasol lle y bo'n briodol, ac yn enwedig mewn perthynas â chydgynhyrchu. Fodd bynnag, yn y Codau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2014, dim ond ar awdurdodau lleol y rhoddir gofynion. Mae ein cynnig i ddiwygio amcanion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, o dan Ran 9 o'r Ddeddf (gweler pennod 5 yr ymgynghoriad hwn), yn cynnwys amcan newydd, felly wrth ymateb i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ac wrth weithredu'r cynllun ardal ar y cyd fe

fydd cyrff partneriaeth yn rhoi sylw dyladwy i ddyletswydd awdurdodau lleol o dan adran 16 o'r Ddeddf i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddiwr a'r trydydd sector. Y gobaith yw y bydd hyn yn sicrhau y rhoddir dull ehangach ar waith ar gyfer hyrwyddo'r dulliau hyn trwy'r holl bartneriaeth, yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol. Hefyd, mae Rhan 9 o'r Canllawiau Statudol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff partneriaeth hyrwyddo cydgynhyrchu yng ngwaith y bartneriaeth ranbarthol.

## 2.7. Rhan 9 – Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth) (Pennod 5 yr ymgynghoriad)

### 2.7.1 Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 5.1:** Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddiwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth 2015, a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017? A oes unrhyw ddiwygiadau eraill y dylem eu gwneud yn eich barn chi?

Cyflwynodd 58 o ymatebwyr sylwadau ynglŷn â'r cynigion i ddiwygio Rheoliadau 2015 a 2017, yn cynnwys Cadeiryddion ac Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (8), 14 o gyrff llywodraeth leol (yn cynnwys 10 o awdurdodau lleol), 9 o gyrff y GIG (yn cynnwys 6 o Fyrddau Iechyd Lleol), a 6 o gyrff cyhoeddus eraill. Cyflwynwyd y sylwadau sy'n weddill gan sefydliadau'r trydydd sector / sefydliadau nid-er-elw (15), sefydliadau'r sector preifat (3) ac eraill (3).

Er bod yr ymatebion, yn gyffredinol, yn deall ac yn cefnogi'r dyhead i ategu a gwella gwaith partneriaeth, roedd yr ymatebion a gyflwynwyd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydliadau llywodraeth leol yn awyddus i nodi mai rhwystrau diwylliannol yw'r rhwystrau sy'n atal gwaith partneriaeth effeithiol hyd yn hyn, yn hytrach na rhwystrau'n ymwneud â chynllun a strwythur y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol neu'r trefniadau partneriaeth. Mae ymddiriedaeth a chydberthnasau'n allweddol; effaith gyfyngedig yn unig a gaiff y newidiadau i'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol oni ellir cyflawni hyn. Roedd yr angen am gymorth ac adnoddau digonol yn thema gyffredin trwy'r holl ymatebion a gyflwynwyd ynglŷn â'r cynigion i ddiwygio Rhan 9.

Roedd hi'n amlwg bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a nifer o'r cyrff partneriaeth, yn enwedig awdurdodau lleol, yn pryderu bod y newidiadau i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn rhy ragnodol a'u bod yn torri ar hyblygrwydd partneriaid lleol i bennu'r ffordd orau i ddiwallu anghenion lleol ac ymateb i flaenoriaethau lleol. Hefyd, y farn gyffredinol ymhlith partneriaid statudol oedd bod angen egluro trefniadau llywodraethu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn well, yn enwedig sut i gydbwyso atebolrwydd a phenderfyniadau ar lefel ranbarthol gyda chyfrifoldebau statudol cyrff partneriaeth unigol.

*"Mae llawer o'r pethau sy'n rhwystro gweithio mewn partneriaeth effeithiol hyd yn hyn wedi bod yn faterion diwylliannol, yn hytrach na dyluniad a strwythur y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Nid yw hyn yn rhywbeth y gellir deddfu ar ei gyfer, ond*

*mae'n ymwneud â sut mae pob rhan o'r system yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r dulliau hyn ... Mae penderfyniad a hyblygrwydd lleol i ymateb i anghenion lleol y boblogaeth yn allweddol. Mae hon yn egwyddor bwysig a ddylai gael lle amlwg yn y canllawiau."*

Thema gyffredin arall a welwyd trwy ymatebion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r cyrff partneriaeth oedd yr ofn y byddai'r baich adrodd yn cynyddu ac y byddai gwaith yn cael ei ddyblygu mewn perthynas â gofynion cynllunio ac adrodd. Roedd hyn yn mynd y tu hwnt i gynigion penodol yn ymwneud ag adroddiadau blynyddol, cynlluniau cyflawni blynyddol a hunanasesiadau a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad, gan ymestyn i'r cysylltiadau rhwng yr elfennau hyn a threfniadau cynllunio ac adrodd eraill megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a strategaethau buddsoddi cyfalaf. Mynegwyd y safbwyntiau hyn mewn perthynas â'r Rheoliadau a hefyd mewn perthynas â'r Canllawiau Statudol diwygiedig.

Roedd sefydliadau eraill, yn enwedig y rhai y tu allan i'r sector statudol, yn fwy cadarnhaol am y dull o fynd ati i ddiwygio'r rheoliadau.

*"Wrth i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol esblygu ac wrth i'r tirwedd iechyd a gofal cymdeithasol integredig ddatblygu, mae'n adeg amserol nawr i adolygu'r rheoliadau i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac i yrru gweledigaeth Cymru Iachach o system iechyd a gofal integredig, ddi-dor."*

**Amcanion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

Y farn gyffredinol oedd bod y diwygiadau arfaethedig i Reoliad 10, sy'n ychwanegu at amcanion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol – er, mynegodd rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rhai cyrff partneriaeth bryder ynglŷn â rhagnodi gormodol. Cyfeiriodd rhai o'r ymatebion at amcanion penodol. Aeth dau ymateb ati i gefnogi'r amcan ynglŷn ag integreiddio, ac roedd yn amlwg ar sail yr hyn a ddywedwyd yn y fan hon ac mewn perthynas â'r Canllawiau Statudol (Cwestiwn 5.2 isod) bod yna gefnogaeth eang i'r amcan o weithio gyda Chorff Llais y Dinesydd (Llais). Roedd pob sector yn croesawu'r cynigion i wella'r cymorth a roddir i aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac yn fwy cyffredinol i hyrwyddo ymgysylltu ehangach gyda dinasyddion.

Gofynnodd rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rhai cyrff partneriaeth a oedd hi'n briodol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol oruchwylio dyletswyddau awdurdodau lleol o dan adran 16 o Ddeddf 2014 ac adran 12 o'r Mesur Plant a Theuluoedd; ond roedd eraill yn croesawu'r cynigion hyn. Roedd Comisiynydd Plant Cymru a rhai elusennau plant yn croesawu'r ffaith bod adran 12 wedi'i chynnwys, gan y byddai'n sicrhau mwy o atebolrwydd a thryloywder ynglŷn â sut y caiff cyfranogiad plant a phobl ifanc ei hyrwyddo a'i hwyluso. Awgrymodd un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fod angen nodi'n glir beth yw ystyr 'goruchwylio' yn hyn o beth, a'r hyn sy'n ddisgwyliedig o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**Aelodaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

Cafwyd ymateb cymysg i'r cynigion i ddiwygio Rheoliad 11, trwy ychwanegu Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a chynrychiolydd gofal sylfaenol at y rhestr o aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Awgrymodd rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rhai cyrff partneriaeth y dylid rhoi dull llai rhagnodol ar waith, gan roi hyblygrwydd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys yr aelodau hyn 'pan fo'n briodol', neu eu cynnwys mewn haenau llywodraethu eraill. Soniwyd am faint cyffredinol y Byrddau, a dywedwyd bod angen cydbwyso penderfyniadau effeithiol gydag ymgysylltu a gwaith partneriaeth effeithiol. Roedd nifer o sefydliadau'r trydydd sector / sefydliadau nid-er-elw yn croesawu'r syniad y dylid ehangu'r aelodaeth; eu prif bryder nhw oedd tegwch o ran aelodaeth rhwng y cyrff partneriaeth ac aelodau eraill y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Yn nifer o'r ymatebion a gyflwynwyd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chyrff partneriaeth, nodwyd bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Chynghorau Gwirfoddol Sirol eisoes yn aelodau o fyrddau trwy'r rhan fwyaf o Gymru.

Y prif fater a nodwyd mewn perthynas â'r darparwr gofal sylfaenol oedd cwmpas – h.y. a fydd modd i un darparwr gynrychioli'r sector cyfan, a sut y bydd y darparwr hwnnw'n cael ei ddewis. Gofynnwyd am well eglurder ynglŷn â diben a chwmpas y gynrychiolaeth hon, a hefyd ynglŷn â'r cysylltiad â chlystyrau a datblygu clystyrau cyfan.

Cyflwynwyd sylwadau cryf gan undebau llafur, yn arbennig ar gyfer aelodau ychwanegol, yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff nyrsio, cyrff gweithwyr gofal, undebau llafur a chyrff proffesiynol. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, a chynrychiolwyr o sefydliadau cymorth ataliol mewn meysydd fel digartrefedd ac iechyd meddwl.

Mynegwyd cefnogaeth eang ar gyfer y cynnig i roi rôl sylwedydd annibynnol i Gorff Llais y Dinesydd (Llais) ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac ni fynegwyd unrhyw anghytundeb yn hyn o beth; ond gofynnodd rhai ymatebwyr a fyddai modd egluro a diffinio'r rôl hon.

Roedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y cyrff partneriaeth a sefydliadau'r trydydd sector yn gefnogol iawn i'r cynigion ynglŷn â recriwtio a chefnogi aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn enwedig defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr. Cafwyd cryn drafodaeth ynglŷn â'r modd y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol – trafodir hyn yn y Canllawiau Statudol (Cwestiwn 5.2 isod).

**Adroddiadau Blynyddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

Cafwyd ymateb cymysg gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer y diwygiadau arfaethedig i Reoliad 12, lle nodir yn llawnach yr hyn y dylent ei gynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol. Thema gyffredin oedd sicrhau bod y gofynion yn gymesur ac na fyddent yn dyblygu'r hyn a gynhwysir eisoes mewn dogfennau eraill, fel adroddiadau Diwedd Blwyddyn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac adroddiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn achos y sefydliadau eraill a ymatebodd yn benodol i'r cynigion hyn, roeddynt o blaid y diwygiadau (yn cynnwys y

gofyniad i gyhoeddi'r adroddiadau ar wefannau cyrff partneriaeth) gan y byddent yn sicrhau tryloywder, atebolrwydd a gwell ymwybyddiaeth o waith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**Hunanasesu**

O ran gwneud hunanasesiadau yn ofyniad statudol, gofynnodd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chyrff partneriaeth pa mor gymesur oedd hyn, a hefyd roeddynt yn ofni y byddai'r baich adrodd yn cynyddu; ond dywedodd dau ohonynt yr ymddengys fod hunanasesiadau bellach yn rhan o dirlun Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Soniwyd hefyd am y capasiti i gynnal yr hunanasesiadau hyn, yn enwedig pe bai disgwyl iddynt gael eu cynnal ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd ymatebwyr eraill yn croesawu'r hunanasesiadau newydd fel adnodd defnyddiol ar gyfer ymgysylltu a sicrhau atebolrwydd.

**Unigolion Cyfrifol**

Ymddengys mai'r diwygiad mwyaf dadleuol o blith y diwygiadau arfaethedig oedd y cynnig i greu rheoliad newydd lle byddai'n ofynnol i bob corff partneriaeth enwi unigolyn cyfrifol ar gyfer arwain a sicrhau cydweithredu o fewn y bartneriaeth. Esgorodd y cynnig hwn ar lawer o ymatebion gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chyrff partneriaeth. Y teimlad cyffredinol yn eu plith oedd na fyddai'r cynnig hwn yn arwain at unrhyw fantais ychwanegol, ac na fyddai'n briodol nac yn ymarferol i Fyrddau Iechyd Lleol enwebu un unigolyn i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn. Ond dylid nodi bod dau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac un Bwrdd Iechyd Lleol, yn ogystal â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, yn cefnogi'r cynnig, ac roedd yr un peth yn wir am gyrff eraill megis Archwilio Cymru a'r Comisiynydd Plant, a hynny ar sail atebolrwydd a thryloywder.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr a fyddai modd peidio â defnyddio'r term 'unigolyn cyfrifol', er mwyn osgoi dryswch gyda rôl yr Unigolyn Cyfrifol yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

**Cynlluniau Cyflawni Blynyddol**

Roedd y mwyafrif o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi'r cynnig i ddiwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017, er mwyn cynnwys gofyniad newydd am gynllun cyflawni blynyddol; er, mynegwyd pryderon y gallai hyn arwain at faich adrodd ychwanegol, a dywedwyd y dylid sicrhau y byddai'r gofyniad yn gymesur, y byddai'n cyd-fynd ag agweddau eraill ar y broses gynllunio ac adrodd, ac y byddai'n ychwanegu gwerth.

**Cwestiwn 5.2:** A hoffech wneud unrhyw sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig i Ran 9 o'r Canllawiau Statudol, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am yr hyn sydd ar goll, beth y gellid ei hepgor neu ble y gellid gwella'r geiriad?

Cyflwynwyd 57 o ymatebion yn ymwneud â'r diwygiadau arfaethedig i Ran 9 o'r Canllawiau Statudol. Cyflwynwyd y rhain gan Gadeiryddion ac Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phob un o'r 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (8), 11 o gyrff llywodraeth leol (yn cynnwys 9 o awdurdodau lleol), 8 o gyrff y GIG (yn cynnwys 5 o Fyrddau Iechyd Lleol) ac 8 o gyrff cyhoeddus eraill. Cyflwynwyd y sylwadau sy'n

weddill gan sefydliadau'r trydydd sector / sefydliadau nid-er-elw (17), sefydliadau'r sector preifat (2) ac eraill (3).

Gan fod y Canllawiau Statudol yn sail i'r Rheoliadau ac yn ymhelaethu arnynt, yn ôl y disgwyl fe wnaeth nifer o'r ymatebwyr ymhelaethu ar, neu ailadrodd, sylwadau a gyflwynwyd ar gyfer Cwestiwn 5.1 uchod. Yn ychwanegol at y prif themâu a nodir isod, cyflwynwyd nifer o sylwadau manwl yn ymwneud ag agweddau penodol ar y Canllawiau, yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer diwygio neu wella adrannau penodol.

**Llywodraethu ac atebolrwydd**

Gofynnodd Cadeiryddion ac Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol am well eglurder ynglŷn ag atebolrwydd a phenderfyniadau oddi mewn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ynghyd â gwell esboniad o'r cysylltiad rhwng yr elfennau hyn a threfniadau llywodraethu cyrff partneriaeth. Mewn nifer o ymatebion unigol a gyflwynwyd gan gyrff partneriaeth, gofynnwyd am well eglurder ynglŷn â threfniadau llywodraethu, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau'n ymwneud â chyllid. Dylid cydnabod y cyfyngiadau sy'n perthyn i atebolrwydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Awgrymwyd y dylid gwahaniaethu rhwng atebolrwydd dros gynlluniau sy'n meithrin cydweithredu a chydgynhyrchu ar y naill law ac atebolrwydd dros gyflawni camau a gwasanaethau ar y llaw arall. Nodwyd bod gan awdurdodau lleol wybodaeth ac atebolrwydd lleol, ac nad dull rhanbarthol yw'r ffordd orau na'r ffordd fwyaf effeithiol bob tro o ddarparu gwasanaethau da a all ymateb i boblogaethau lleol. Hefyd, gofynnodd Cadeiryddion ac Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol am fframwaith symlach a mwy cyson fel y gellid ategu dulliau cynllunio sy'n seiliedig ar leoedd.

Roedd Archwilio Cymru o'r farn bod y diwygiadau arfaethedig yn helpu i egluro'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'r amrywiol bartneriaid, ac y byddai'n cynnig cyd-destun defnyddiol ar gyfer unrhyw waith y byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud yn y dyfodol mewn perthynas â'r meysydd y sonnir amdanynt yn y Canllawiau. Yn yr un modd, roedd Arolygiaeth Gofal Cymru yn croesawu'r ffaith bod y Canllawiau diwygiedig yn mynd y tu hwnt i wasanaethau cymdeithasol a'u bod yn ceisio cryfhau perchnogaeth ar draws yr amryfal bartneriaid rhanbarthol.

**Integreiddio**

Roedd nifer o'r ymatebion yn croesawu'r diffiniad newydd o integreiddio, ond roedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r cyrff partneriaeth yn bryderus ynglŷn â chynnwys y chwe model gofal a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Roedd y pryder allweddol yn ymwneud â chydweddu'r modelau hyn â dull 'carfan y boblogaeth' a nodir yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth a'r canllawiau cynllunio ardal. Awgrymodd dau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y dylid defnyddio iaith wahanol – er enghraifft, eu galw'n golofnau neu'n elfennau gofal y gellid eu datblygu ar gyfer pob carfan o'r boblogaeth.

Nodwyd bod rhaglenni gwaith eraill i'w cael (e.e. y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, y Rhaglen Datblygu Clystyrau Carlam a'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng), a bod pob un ohonynt yn anelu at ysgogi modelau gofal integredig yn y gymuned ochr yn ochr â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol –

dywedwyd bod yna gyfle i gydweddu rhaglenni'n well ar lefel genedlaethol ac y gallai'r Glasbrint ar gyfer Gofal Integredig gynnig cyfle i fynd i'r afael â hyn.

Mynegwyd safbwyntiau cymysg gan bartneriaid iechyd ynghylch a oedd y Canllawiau'n creu cysylltiadau digonol rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r trefniadau newydd ar gyfer clystyrau a grwpiau cynllunio clystyrau cyfan. Gofynnodd dau ymatebydd a fyddai modd ymgorffori hyn i raddau helaethach yn y Canllawiau.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr am well eglurder ynglŷn â'r berthynas rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a gofynnwyd hefyd am gydweddu swyddogaethau'n well – er enghraifft, symud tuag at brosesau cynllunio ac asesu anghenion sy'n seiliedig ar leoedd. Mynegwyd sylwadau tebyg yn yr ymatebion a gafwyd i Ran 2 o'r Cod Ymarfer, yn enwedig o ran cydweddu anghenion y boblogaeth ag asesiadau llesiant.

Yn ôl cynrychiolwyr cymdeithasau tai a chymorth tai, tasg anodd yw dod o hyd i gyfleoedd i ymgysylltu'n ystyrlon â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a phwysleisiwyd y dylid cydnabod bod tai a chymorth tai yn faes â blaenoriaeth ar draws pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac y dylid rhoi strategaethau clir a chyson ar waith.

### Adroddiadau blynyddol

Cyflwynwyd rhai pwyntiau ychwanegol defnyddiol yn ymwneud ag adroddiadau blynyddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn ychwanegol at y pryderon a fynegwyd uchod ynglŷn â'r Rheoliadau. Roedd y rhain yn cynnwys gwell eglurder ynglŷn â phwy yw cynulleidfa'r adroddiadau, a'r modd y gellir sicrhau gwell effeithlonrwydd ac osgoi dyblygu rhwng yr adroddiadau hyn ac adroddiadau eraill (e.e. adroddiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus). Awgrymwyd hefyd y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddangos y modd yr ânt ati i ystyried effaith penderfyniadau comisiynu ar y gweithlu, a'r modd yr ymgysylltwyd â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

### Aelodaeth

Cyflwynwyd nifer o sylwadau'n ymwneud ag aelodaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn gyffredinol, roedd y cyrff partneriaeth, y trydydd sector ac eraill yn gefnogol i'r ffocws ar roi rhagor o gymorth i'r aelodau, yn cynnwys nodi'n gliriach beth yw rolau a safbwyntiau gwahanol aelodau, a'r canllawiau ar sut i recriwtio a chynorthwyo aelodau sy'n ddinasyddion:

*"Mae mwy o gefnogaeth i aelodau a rhoi pwyslais ar lais y dinesydd yn hanfodol i gryfhau rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol."*

Roedd rhai o'r sylwadau'n adleisio trafodaethau a gafwyd yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu a Llais – er enghraifft, yr hyn a olygir trwy ddweud bod pob aelod yn gyfartal, neu awdurdod dirprwyedig aelodau sy'n perthyn i gyrff statudol.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am gyllid digonol er mwyn galluogi unigolion ac asiantaethau'r trydydd sector i gyfranogi'r llwyr, ac er mwyn gallu rhoi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau gwirfoddol am eu hamser. Hefyd, gofynnwyd am

ragor o fanylion ynglŷn â sut y bydd aelodau â phrofiad bywyd yn cael eu recriwtio, er mwyn sicrhau'r gynrychiolaeth ehangaf bosibl.

Roedd amrywiaeth yn thema allweddol yn nifer o'r ymatebion, yn enwedig mewn ymatebion a gyflwynwyd gan ddarparwyr a sefydliadau'r trydydd sector. Awgrymwyd y dylid cael mwy o amrywiaeth ymhlith aelodau darparwyr gofal, gan gwmpasu gwasanaethau ataliol a gwasanaethau cymorth yn ogystal â gwasanaethau gofal rheoleiddiedig.

Er bod y cynnig i gynnwys Cynghorau Gwirfoddol Sirol wedi cael croeso ar y cyfan, nodwyd y byddai cynrychioli'r amrywiaeth oddi mewn i'r trydydd sector a'r sector cymunedol yn parhau i fod yn dasg anodd. Hefyd, dylai un cynrychiolydd fan leiaf o blith y trydydd sector feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Awgrymwyd y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi trefniadau atebolrwydd clir ar waith er mwyn sicrhau bod pobl â phrofiad bywyd yn cael eu cynnwys yn llwyr, ac efallai y dylid cael system ffurfiol ar gyfer cofnodi ac ymateb i safbwyntiau dinasyddion.

Roedd rhai o'r sylwadau'n ailadrodd pwyntiau a gyflwynwyd ar gyfer Cwestiwn 5.1 uchod, yn cynnwys diffyg cynrychiolaeth ar gyfer y gweithlu a/neu undebau llafur ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a'r modd y byddai'r aelod gofal sylfaenol newydd arfaethedig yn cael ei ddewis.

**Llais y dinesydd a chydgynhyrchu**

Croesawyd y ffaith bod Corff Llais y Dinesydd (Llais) wedi'i sefydlu, a hefyd croesawyd y cynnig i roi statws sylwedydd annibynnol i Llais ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol; er, nododd rhai ymatebwyr o'r trydydd sector nad yw rôl Llais wedi'i phennu'n ddigon penodol mewn perthynas â threfniadau partneriaeth. Er enghraifft, sut y byddai Llais yn rhyngweithio â defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau sy'n ofalwyr di-dâl? A fyddai ganddo rôl o ran eu cefnogi, ynteu o ran sefydlu neu ategu paneli neu fforymau dinasyddion? Wrth gydweithio â Llais, nodwyd y dylid adlewyrchu lleisiau grwpiau â blaenoriaeth o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), megis plant ag anghenion cymhleth.

Ar y cyfan, croesawyd y pwyslais ychwanegol ar bwysigrwydd cydgynhyrchu ar bob lefel, a hefyd croesawyd y ffocws ar bobl â phrofiad bywyd; er, mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â sut y byddai hyn yn cael ei ddeall a'i ddehongli'n ymarferol. Soniwyd am faterion tebyg mewn perthynas â Rhan 2 o'r Cod Ymarfer, lle trafodir cydgynhyrchu yn fanylach.

**Cyllidebau cyfun**

Cyflwynwyd llawer o sylwadau ynglŷn â chyllidebau cyfun. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dull mwy hyblyg a bennir gan anghenion lleol. Croesawyd yr hyblygrwydd newydd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, cyrff partneriaeth, y trydydd sector a phartneriaid eraill.

*"Mae'r dull mwy hyblyg o ymdrin â chyllidebau cyfun yn rhywbeth i'w groesawu ac mae'n caniatáu i hyn gael ei ddefnyddio'n briodol, gan ystyried anghenion a gofynion lleol."*

Gofynnwyd a fyddai modd i Lywodraeth Cymru gynorthwyo'r cyrff partneriaeth a'u dwyn i gyfrif. Awgrymodd dau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y gallai'r Canllawiau nodi y dylai cyrff partneriaeth ystyried cyfuno cyllidebau ar gyfer unrhyw drefniadau'n ymwneud â gwasanaethau integredig yn hytrach na rhestru gwasanaethau lle gallai cyfuno cyllidebau fod yn arbennig o briodol. Fodd bynnag, roedd rhai o sefydliadau'r trydydd sector, ynghyd ag ambell sefydliad arall, yn croesawu'r ffaith bod eitemau penodol wedi'u cynnwys ar y rhestr (e.e. lleoliadau therapiwtig a diogel i blant ag anghenion cymhleth, neu wasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl). Yn ôl dau sefydliad sy'n ymhél â phobl hŷn, dylai'r arfer o gyfuno cyllidebau ar gyfer comisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn fod yn rhywbeth y mae'n 'rhaid' ei wneud yn hytrach nag yn rhywbeth y 'dylid' ei wneud.

**Hunanasesu**

Mynegodd dau fwrdd iechyd amheuon ynglŷn â gwerth hunanasesiadau, fel y nodir yn y Canllawiau, gan adleisio pryderon mwy cyffredinol a fynegwyd uchod mewn perthynas â'r Rheoliad newydd – sef pa mor gymesur fyddai hunanasesiadau a'r pryder y byddent yn arwain at faich adrodd ychwanegol. Cyfeiriwyd hefyd at symleiddio'r asesiadau a sicrhau y byddai eu cyffyrddiad mor ysgafn â phosibl; er, awgrymodd ymatebwyr eraill ychwanegiadau ar gyfer yr adnodd – e.e. cyfeirio'n benodol at grwpiau â blaenoriaeth, neu gynnwys adran yn ymwneud â recriwtio aelodau o'r Bwrdd.

**Cynlluniau cyflawni blynyddol**

O ran y cynnig sy'n ymwneud â chynlluniau cyflawni blynyddol, y themâu cyffredin oedd yr angen i gydweddu â gofynion cynllunio eraill, ynghyd â'r angen i osgoi dyblygu a mwy o faich adrodd (gweler Cwestiwn 5.1 uchod). Awgrymodd un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y dylid cael cynllun byr lefel uchel yn canolbwyntio ar flaenoriaethau ar gyfer pob blwyddyn. Yn hytrach na chyflwyno'r gofyniad hwn, awgrymodd Bwrdd arall y dylem, yn syml, nodi y dylai'r cyrff partneriaeth weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gyflawni'r Cynllun Ardal ar y cyd a sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer goruchwylio gwaith cyflawni lleol. Gofynnodd un arall sut y byddai hyn yn cyd-fynd â'r cynlluniau gweithredu pum mlynedd a osodir islaw'r Cynlluniau Ardal ar y cyd. Yn fwy cyffredinol, awgrymwyd y dylem roi dull safonedig ar waith ar gyfer casglu data amser real a chreu un system neu ystorfa ar gyfer y cynlluniau a'r dogfennau gofynnol, fel y gellid ymdrin â gwaith integredig o bob math ledled y rhanbarth a chynnig 'golwg barcud' o'r system.

**Y gweithlu**

Gofynnodd ambell ymatebydd am gael cryfhau a chadarnhau rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn perthynas â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys yr awgrym y dylid rhoi swyddogaeth oruchwylio i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu'n strategol.

**Hawliau plant**

Croesawyd y cyfeiriad at ddatblygu ffordd integredig o ddiwallu anghenion plant, a hefyd y cyfeiriad at hyrwyddo cyfranogiad plant, ond nodwyd mai unwaith yn unig y

cyfeirir at hawliau plant trwy'r holl ddogfen. Yn arbennig, mynegodd y Comisiynydd Plant siomedigaeth fawr ynglŷn â'r ffaith nad yw'r Canllawiau diwygiedig yn cynnwys y gofyniad presennol sy'n mynnu y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddilyn yr egwyddorion a bennir yn y canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 SPSF3 – rôl gydweithredol (Atodiad B) a rhoi sylw dyladwy i egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Is-grwpiau**

Mynegwyd siomedigaeth hefyd ynglŷn â'r ffaith bod sefydlu is-grwpiau thematig (e.e. ar gyfer plant ag anghenion cymhleth neu ar gyfer gofalwyr) wedi cael ei ddiraddio o fod yn rhywbeth y 'dylid' ei wneud i fod yn rhywbeth y gellid 'dymuno' ei wneud. Eisoes, mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithgorau strategol ar waith, a'r farn oedd y dylid cyfeirio at y rhain a'u hatgyfnerthu yn y Canllawiau.

**Cwestiwn 5.3:** Ydych chi'n cytuno y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau a'r canllawiau statudol yn helpu i gryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol a rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol? A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill o ran yr hyn y gellid ei gynnwys?

Cyflwynodd 43 o ymatebwyr farn ynghylch a fyddai'r cynigion yn cryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol a rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Cyflwynwyd yr ymatebion hyn gan Gadeiryddion ac Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a 5 o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (6), 10 o gyrff llywodraeth leol (yn cynnwys 8 o awdurdodau lleol), 4 o gyrff y GIG (yn cynnwys 3 o Fyrddau Iechyd Lleol), a 7 o gyrff cyhoeddus. Cyflwynwyd yr 16 ymateb sy'n weddill gan sefydliadau'r trydydd sector / sefydliadau nid-er-elw (11), sefydliadau'r sector preifat (3) ac eraill (3).

Unwaith eto, y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ymatebion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol oedd yr angen am hyblygrwydd, yr angen i ychwanegu gwerth clir a'r angen i osgoi dyblygu. Gofynnwyd a fyddai modd symleiddio'r gofynion cynllunio ac adrodd, a hefyd gofynnwyd a fyddai modd ymdrin â'r dyblygu gwaith sy'n digwydd ar draws y tirlun polisi cenedlaethol. Tynnodd Cadeiryddion ac Arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sylw arbennig at yr amryfal raglenni sy'n ceisio ysgogi modelau gofal integredig yn y gymuned, yn cynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, y Rhaglen Datblygu Clystyrau Carlam a'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.

Cafwyd ymatebion gofalus gan lywodraeth leol, yn cynnwys atebion megis 'ydw, mewn egwyddor', neu 'i ryw raddau'. Yn amlwg, nid oedd rhai awdurdodau lleol o'r farn bod y diwygiadau arfaethedig yn ddigon clir ynglŷn â threfniadau llywodraethu oddi mewn i bartneriaethau rhanbarthol, nac ynglŷn â rôl ac atebolrwydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ymddengys fod y pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dwyn ynghyd sefydliadau ar wahân a chanddynt eu trefniadau llywodraethu eu hunain ac, yn achos awdurdodau lleol, eu trefniadau goruchwylio democrataidd lleol eu hunain, felly nid yw'n glir pa benderfyniadau y gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu gwneud. Er enghraifft, awgrymwyd bod gwendid strwythurol cynhenid i'w gael yn y model cyfredol (gwendid

nad ymdriniwyd ag ef hyd yn hyn), yn enwedig o ran beth yn union yw gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, pwy sy'n gwneud y penderfyniadau a phwy sy'n gyfrifol am wariant a pherfformiad.

*"Rydym yn cytuno bod y cynigion yn ymgais i gryfhau'r trefniadau oherwydd nad yw'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn endidau statudol. Fodd bynnag, mae angen cael rhywfaint o hyblygrwydd ac mae angen i unrhyw ofynion newydd fod yn gryno gyda gwerth ychwanegol clir a pheidio â chreu biwrocratiaeth ychwanegol. Rhaid cydnabod anawsterau wrth weithredu mewn partneriaeth anstatudol yn y trefniadau llywodraethu a fabwysiadwyd gan y partneriaid."*

Yn achos dau o'r byrddau iechyd a atebodd y cwestiwn hwn, roeddynt yn cytuno y byddai'r cynigion yn cryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol ac y byddent yn gwella effeithiolrwydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd y gwelliannau a awgrymwyd yn cynnwys rhoi mwy o bwyslais ar natur hollbwysig cydberthnasau gweithio effeithiol a threfniadau datblygu sefydliadol ar gyfer gwaith partneriaeth, yn cynnwys agwedd gyffredin tuag at risg a newid; cynnwys gwasanaethau ataliol yn llawnach yn y system iechyd a gofal cymdeithasol; a rhoi rôl fwy flaenllaw i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran cynllunio gwasanaethau adsefydlu integredig ac o ran darparu adnoddau ar gyfer y gwasanaethau hynny. Gofynnwyd am gael cymorth, adnoddau a chyllid ychwanegol, yn ogystal ag eglurder ynglŷn â'r modd y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio gyda'r Swyddfa Genedlaethol newydd a Gweithrediaeth y GIG.

Soniodd rhai o gyrff eraill y sector cyhoeddus am y ffaith nad yw statws cyfreithiol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi newid, a chyfeiriwyd at y cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth hyn. Er enghraifft, nid yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, na'r dyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn berthnasol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Argymhellwyd y dylid annog Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fabwysiadu'r dyletswyddau hyn i'r graddau mwyaf posibl. Byddai hynny'n helpu i sicrhau y gallai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fodloni eu nodau craidd, sef llunio asesiadau o'r boblogaeth, arddangos cydgynhyrchu ac ymgysylltu â dinasyddion, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau parhaus yn y maes gofal cymdeithasol. Hefyd, byddai'n helpu i sicrhau y caiff anghenion siaradwyr Cymraeg eu hadlewyrchu ar draws holl weithgareddau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys sicrhau bod contractau a chyllid tymor hwy yn llifo'n gyflymach i sefydliadau llawr gwlad, yn ogystal â dwyn gwasanaethau ynghyd mewn modd mwy ffurfiol ar gyfer trefniadau cyllido. Nodwyd y bydd trefniadau comisiynu ar y cyd yn dal i ddibynnu ar ewyllys da rhwng asiantaethau yn hytrach nag ar drefniadau cyllido ffurfiol.

Mynegodd darparwyr y sector preifat bryder ynglŷn â'r ffaith bod diffyg pŵer gwirioneddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn golygu nad ydynt wedi cael fawr o effaith ar gomisiynu rheng flaen hyd yn hyn, a bod comisiynwyr â rhwydd hynt i anwybyddu neu fychanu'r goblygiadau sydd ynghlwm wrth asesu anghenion y boblogaeth ac asesu sefydlogrwydd y farchnad pan ddaw hi'n fater o bennu ffioedd a siapio'r farchnad ehangach.

Hefyd, mynegodd rhai o ddarparwyr y trydydd sector ddymuniad i roi pwerau cryfach i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, fel y gellid ysgogi newid. Soniodd ymatebion y trydydd sector am gyllid hefyd, yn cynnwys rhagor o gyfleoedd cyllido ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector a sicrhau y caiff adnoddau eu dosbarthu'n fwy cyfartal ledled Cymru. Awgrymwyd y dylid mynd ati i raddau helaethach i gynnwys gwasanaethau ataliol wrth gynllunio iechyd a gofal cymdeithasol, gan roi adnoddau priodol iddynt; ac y dylid cydnabod i raddau mwy bod tai o ansawdd da yn gwbl sylfaenol i iechyd a llesiant da. Gofynnwyd hefyd a ellid nodi bod ymgysylltu a chydgynhyrchu yn bethau y mae'n 'rhaid' eu gwneud yn hytrach nag yn bethau y 'dylid' eu gwneud. Cafwyd un awgrym penodol y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu rhwydwaith a grŵp cyfeirio cenedlaethol o sefydliadau Trydydd Sector i gydweithio â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac i ategu'r broses ail-gydbwyso.

### 2.7.2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn cynnwys llawer o sylwadau manwl ac amrywiol gan yr holl sectorau a gynrychiolir ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r adborth a gafwyd ynglŷn â'r cynigion i ddiwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, a bydd yn paratoi cyfres o reoliadau diwygio y gellir ymgynghori ymhellach yn eu cylch ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Gyda thîm ein Gwasanaethau Cyfreithiol, byddwn yn ystyried yn ofalus sut y caiff rhai o'r amcanion newydd arfaethedig ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu ffurfio, yn enwedig pan fônt yn gysylltiedig â goruchwylio dyletswyddau a roddir ar lywodraeth leol.

Mae'n bwysig cofio bod y trefniadau llywodraethiant a chraffu sydd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau diwygiedig wedi'u siapio gan benderfyniadau a wnaed mewn ymateb i'n hymgynghoriad ar y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, yn enwedig y penderfyniad i beidio â newid statws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy eu gwneud yn gyrff corfforedig. Byddai sefydlu'r Byrddau fel cyrff corfforedig wedi rhoi mwy o eglurder o ran gwneud penderfyniadau, ond roedd yn amlwg o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn nad oedd sefydliadau statudol (yn enwedig awdurdodau lleol) yn cefnogi'r newid hwn. Felly, penderfynodd Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sefyllfa a oedd yn cael ei ffafrio, a cheisio cryfhau a gwella trefniadau llywodraethiant y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o fewn cyfyngiadau eu statws cyfreithiol presennol.

Hefyd, byddwn yn edrych drachefn ar y gofyniad i gyrff partneriaeth bennu unigolyn cyfrifol, yn cynnwys dod o hyd i derm mwy addas a sicrhau bod y Canllawiau Statudol yn esbonio'n well beth fydd natur y rôl hon a sut y bydd yn ymwneud â chydatebolrwydd cyrff partneriaeth er mwyn sicrhau cydweithredu. Byddwn hefyd yn ystyried sut y bydd y gofyniad arfaethedig mewn perthynas â chynlluniau cyflawni blynyddol yn cyd-fynd â'r gofynion cynllunio ac adrodd cyffredinol a roddir ar gyrff partneriaeth a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn sicrhau bod y dull yn gymesur a'i fod yn osgoi dyblygu.

Ein bwriad yw ailymgynnull y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gynllunio a Pherfformiad er mwyn ein helpu i sicrhau bod y dull newydd o ymdrin â chynlluniau cyflawni blynyddol, hunanasesiadau a phrosesau adrodd blynyddol yn gadarn, yn gydgysylltiedig ac yn gymesur, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed cyn cynnal yr ymgynghoriad. Hefyd, bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu a Llais yn parhau i gyfarfod i gwblhau ei raglen waith barhaus ar bennu deunyddiau ac adnoddau arferion da yn ymwneud â chyfranogi, llais a chydgynhyrchu, fel y gellir ategu'r gofynion yn Rhan 2 o'r Cod Ymarfer a Rhan 9 o'r Canllawiau Statudol.

Yn achos unrhyw newidiadau eraill a wnawn mewn perthynas â diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, bydd angen iddynt gael eu cynnwys yn Rhan 9 o'r Canllawiau Statudol. Hefyd, byddwn yn ceisio caboli'r canllawiau yng ngoleuni'r amryfal awgrymiadau ynghylch diwygio a gwella a gyflwynwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nid ydym yn bwriadu ymgynghori ynglŷn â drafft arall o'r canllawiau, ond bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu nodi yn y ddogfen ymgynghori a gyflwynir ochr yn ochr â'r fersiwn ddiwygiedig o'r Rheoliadau.

### 2.8 Rhan 8 – Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Pennod 6 yr ymgynghoriad)

#### 2.8.1 Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 6.1:** A oes unrhyw rwystrau i weithredu'r canllawiau newydd ar gyfer cynhyrchu Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol?

Cyflwynodd 25 o ymatebwyr ateb ar gyfer cwestiwn 6.1. O blith y rhain, nid oedd tri ateb yn cynnwys unrhyw sylwadau o sylwedd, felly caiff y crynodeb ei seilio ar y 22 ymateb o sylwedd a ddaeth i law. O blith y 22 ymateb hyn, cyflwynwyd 11 ymateb gan awdurdodau lleol neu fwrdd partneriaeth rhanbarthol ar ran amryfal awdurdodau lleol. Cyflwynwyd chwe ymateb gan sefydliadau'r trydydd sector. Cyflwynwyd y pum ymateb sy'n weddill gan unigolion neu sefydliadau statudol eraill.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cefnogi fersiwn ddiweddaraf y canllawiau gan fod y canllawiau newydd yn trafod mwy ar yr hyn sy'n ofynnol mewn perthynas â'r fframweithiau a chan eu bod yn cyfeirio at "newid" tuag at y pethau sy'n gweithio'n dda ac yn nodi'r pethau y gellir eu gwella. O ran rhwystrau penodol posibl wrth weithredu'r canllawiau newydd, cyfeiriodd yr ymatebwyr at bryderon yn ymwneud ag amser, cyllid, capasiti, llwyth gwaith ychwanegol a dyblygu gwaith.

Wrth drafod amser, soniodd yr ymatebwyr am bryderon yn ymwneud â'r amser y byddai angen ei dreulio'n ysgrifennu'r adroddiadau. Hefyd, mynegwyd pryderon ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r adroddiadau – mae'r "amserlen yn dynn" ac fe allai datganiadau data diwedd blwyddyn esgor ar anawsterau oherwydd byddent yn cael eu cwblhau ym mis Mehefin a byddai angen cyhoeddi'r adroddiad ym mis Gorffennaf.

*"Amseru a chapasiti. Yn aml, nid yw data a pherfformiad diwedd blwyddyn ar gael tan ddiwedd mis Mai, ac felly mae goblygiadau o ran cwrdd â'r dyddiad targed i gwblhau'r gwaith a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf."*

Roedd cysylltiad agos i'w gael rhwng y trafodaethau ynglŷn ag amser a'r trafodaethau ynglŷn â chyllid. Dywedodd yr ymatebwyr y byddai'n rhaid i'r gofynion fod yn "ddiwastraff" i awdurdodau lleol er mwyn eu cynorthwyo gydag adnoddau. Cynigiodd yr ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer helpu gyda'r rhwystrau posibl hyn – dywedwyd y byddai'n rhaid i'r prosesau newydd fod yn gost-effeithiol a hefyd dywedwyd y byddai cyfnod pontio yn cynnig "cyfnod addasu" ac y byddai cyfnod o'r fath "yn rhesymol".

Yn olaf, roedd yr ymatebwyr yn pryderu y byddai'r cynigion yn arwain at ddyblygu gwaith adrodd – yn eu tyb nhw, roeddynt eisoes yn mynd i'r afael â gwaith adrodd o'r fath mewn perthynas â gweithgareddau eraill. Y farn oedd y byddai hyn yn cynyddu eu llwyth gwaith ac yn rhoi pwysau ar eu capasiti cyfyngedig. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r ffaith y ceir cysylltiad agosach â deddfau, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ond trwy ddangos y cysylltiad hwnnw'n gliriach a thrwy ystyried y trefniadau adrodd, byddai modd helpu i leihau dyblygu.

Trafododd yr ymatebwyr rwystr arall hefyd yn ymwneud â gwahanol gynulleidfaoedd yr adroddiadau, yn enwedig o ran sut y dylid ysgrifennu'r adroddiadau ar gyfer y cyhoedd. Er bod yr ymatebwyr yn credu mai gwasanaethau cymdeithasol ar lefel leol fyddai'r canolbwynt, roeddynt o'r farn mai tasg anodd fyddai creu fersiwn hygyrch a diddorol ar gyfer dinasyddion oherwydd yr iaith dechnegol a natur gymhleth y pwnc. Ond er bod hyn yn her, nodir yn yr ymgynghoriad bod yn "rhaid" ei wneud er mwyn sicrhau tryloywder i'r cyhoedd. O ganlyniad, awgrymodd yr ymatebwyr y dylid llunio crynodeb cyhoeddus, wedi'i seilio ar y prif adroddiad; trwy wneud hyn, byddai modd cynnwys lefel angenrheidiol o wybodaeth mewn fersiwn y gallai'r cyhoedd ei deall yn rhwydd.

*"Nid yw adroddiadau blynyddol fel y cyhoeddir nhw ar hyn o bryd yn hawdd iawn i'r cyhoedd eu deall, ac felly mae angen ystyried sut y gellir ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ddeall gwaith awdurdodau lleol."*

**Cwestiwn 6.2:** Pa gymorth/hyfforddiant sydd ei angen i weithredu'r canllawiau newydd?

Cyflwynodd 19 o ymatebwyr ateb i gwestiwn 6.2. O blith y rhain, nid oedd dau ateb yn cynnwys unrhyw sylwadau o sylwedd, felly caiff y crynodeb ei seilio ar yr 17 ymateb o sylwedd a ddaeth i law. O blith yr 17 ymateb hyn, cyflwynwyd 10 ymateb gan awdurdodau lleol neu fwrdd partneriaeth rhanbarthol ar ran amryfal awdurdodau lleol. Cyflwynwyd pump ymateb gan sefydliadau'r trydydd sector. Cyflwynwyd y ddau ymateb sy'n weddill gan unigolion neu sefydliadau statudol eraill.

Aeth yr ymatebwyr ati yn bennaf i drafod yr hyfforddiant a'r adnoddau a fyddai'n ddefnyddiol pe baent ar gael.

*"Byddai'n ddefnyddiol cael llyfrgell o opsiynau dylunio ar gyfer cyflwyno adroddiadau o'r fath, yn enwedig gan fod y gofyniad hwn bellach yn arfer safonol gan wasanaethau cyhoeddus Cymru, a phartneriaethau rhanbarthol."*

O ran adnoddau, soniodd yr ymatebwyr am gael pethau fel 'llyfrgell o opsiynau dylunio' ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau, ynghyd â Chwestiynau Cyffredin a thempledi. Y farn oedd y byddai hyn yn cynnig elfen o adolygu gan gymheiriaid ac y byddai'n sicrhau ansawdd.

*"Gan fod y canllawiau newydd yn golygu newidiadau i'r Adroddiadau Blynyddol, mae angen hyfforddi'r staff ar ddulliau casglu data newydd, fformatau adrodd, mewnbynnu data, dilysu a gweithdrefnau adrodd."*

Croesawodd yr ymatebwyr yr hyfforddiant posibl a fyddai ar gael iddynt ar gyfer y newidiadau hyn. Nodwyd y byddai hyfforddiant, o bosibl trwy gyfrwng gweithdai neu seminarau, yn eu galluogi i ddeall arferion gorau a dilyn y canllawiau hyd eithaf eu gallu. Roedd y pynciau penodol y soniwyd amdanynt yn cynnwys ysgrifennu adroddiadau, gwerthuso, sicrhau ansawdd a dulliau casglu data (rhai meintiol ac ansoddol).

Hefyd, soniodd yr ymatebwyr am gymorth ar ffurf cyllid ychwanegol, yn ogystal â chamau i gydnabod a lleihau effaith yr amser ychwanegol y byddai ei angen ar gyfer hyn oll.

**Cwestiwn 6.3:** Pa allbynnau neu ddadansoddiad o Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol sydd angen eu cwblhau yn eich barn chi?

Cyflwynodd 23 o ymatebwyr ateb i gwestiwn 6.3. O blith yr ymatebion hyn, cyflwynwyd 10 ymateb gan awdurdodau lleol neu fwrdd partneriaeth rhanbarthol ar ran amryfal awdurdodau lleol. Cyflwynwyd chwe ymateb gan sefydliadau'r trydydd sector. Cyflwynwyd yr ymatebion sy'n weddill gan unigolion neu sefydliadau statudol eraill.

O ran Cwestiwn 6.2, roedd yr ymatebwyr yn awyddus i gael man lle gallent rannu arferion gorau yn y sector gofal cymdeithasol a chyda defnyddwyr gwasanaethau. Gellid rhannu pethau o'r fath mewn "hwb canolog" a fyddai, o bosibl, yn berchen i'r Swyddfa Genedlaethol, a thrwy hyn gellid rhannu arbenigedd, data ac arferion gorau.

*"Dylai'r Swyddfa Genedlaethol gynnal proses ddysgu i Awdurdodau Lleol – gan rannu arferion da. Mae amser ac adnoddau sylweddol yn cael eu neilltuo i ddatblygu'r adroddiad blynyddol – yn gyfnewid am hynny mae angen dadansoddiad cadarn, arbenigol o'r hyn sy'n cael ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella ledled Cymru."*

*"Mae angen arweiniad gan Lywodraeth Cymru o ran sut yr hoffent i'r adroddiad edrych (byddai enghraifft yn dda), ac mae angen i hyn gael ei rannu er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru."*

Roedd hyn yn cynnwys cael adborth gan Lywodraeth Cymru neu'r Swyddfa Genedlaethol ynglŷn â'r Adroddiadau Blynyddol er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau'n bodloni'r amcanion. Efallai y byddai'r wybodaeth hon yn lleddfu pryderon ynglŷn â'r cynigion a pham yr eir i'r afael â'r gwaith hwn.

Dywedodd yr ymatebwyr eu bod eisiau amrywiaeth eang o ddata ac roeddynt o blaid cynnwys data ansoddol. Dyma rai pynciau yr hoffai'r ymatebwyr gael data yn eu cylch:

- Hanesion unigolion a grwpiau, yn cynnwys gofalwyr di-dâl a phobl sy'n rhoi gofal
- Dadansoddiad o'r staff a'r gweithlu, yn cynnwys llesiant gweithwyr gofal a rôl undebau llafur
- Manylion demograffig
- Y defnydd a wneir o wasanaethau, ansawdd a chostau
- Dulliau mesur canlyniadau
- Gwasanaethau ataliol
- Diogelwch, amddiffyn a diogelu
- Ymgysylltu â chymunedau
- Effeithiolrwydd partneriaethau
- Pynciau penodol yn ymwneud â chefndir eu proffesiwn, megis dementia a gofal cymdeithasol plant

Ar wahân i feysydd penodol, roedd yr ymatebwyr eisiau gallu edrych ar dueddiadau dros amser, gan arwain o bosibl at ddadansoddiad rhagfynegol. Hefyd, trafodwyd lefelau gwahanol o ddadansoddi, o ddadansoddiadau rhanbarthol hyd at ddadansoddiadau cenedlaethol.

Fel y trafodwyd yng Nghwestiwn 6.1, roedd yr ymatebwyr o blaid cysylltu'r allbynnau â'r pum egwyddor a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan wneud cynnydd tuag atynt.

**Cwestiwn 6.4:** Ydych chi'n credu bod y cyfuniad o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella, y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ac Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn rhoi arweiniad a strwythur digonol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni'r canlyniadau?

Cyflwynodd 19 o ymatebwyr ateb i gwestiwn 6.4. O blith y rhain, nid oedd un ateb yn cynnwys unrhyw sylwadau o sylwedd, felly caiff y crynodeb ei seilio ar yr 18 ymateb o sylwedd. O blith yr 18 ymateb hyn, cyflwynwyd 10 ymateb gan awdurdodau lleol neu fwrdd partneriaeth rhanbarthol ar ran amryfal awdurdodau lleol. Cyflwynwyd pedwar ymateb gan sefydliadau'r trydydd sector. Cyflwynwyd yr ymatebion sy'n weddill gan unigolion neu sefydliadau statudol eraill.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r Adroddiad Blynyddol o fudd i'r sector wrth symud ymlaen.

Er bod canllawiau digonol wedi'u darparu o bosibl, dywedodd yr ymatebwyr y byddai'n rhaid bod yn amyneddgar wrth weithredu'r canllawiau ac y dylid cynnal adolygiad i fesur effeithiolrwydd y fframweithiau. O gofio'r pryderon a fynegwyd eisoes ynglŷn ag adnoddau, byddem yn argymell cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn inni allu rhoi adborth i'n rhanddeiliaid a sicrhau na roddir unrhyw bwysau ychwanegol ar y sector.

*"Mae'r cod ymarfer diwygiedig, y fframwaith cenedlaethol ar gyfer Perfformiad a Gwella a'r canllawiau technegol yn gynhwysfawr ac yn sicr yn gam sylweddol ymlaen. Yr hyn sy'n arbennig o ddefnyddiol yw bod y fframwaith yn cynnig cyfle ar gyfer dehongliad mwy deallus, hyblyg a chynaliadwy o berfformiad o fewn awdurdodau lleol ac ar draws yr holl faes iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus."*

Trafodwyd cysondeb o fewn y cwestiwn hwn. Dywedodd yr ymatebwyr fod y cyd-destun wedi newid a bod hyn wedi cael effaith, megis diffyg data cyson, a dywedwyd y gallai diffyg eglurder a'r posibilrwydd o ddyblygu prosesau arwain at anghysondebau wrth adrodd.

Trafododd yr ymatebwyr natur gydgysylltiedig y fframweithiau a'r adroddiadau. Er eu bod yn darparu canllawiau digonol, y farn oedd y byddai'n rhaid nodi'n gliriach sut y mae'r fframweithiau'n cysylltu â'i gilydd, a beth yw'r gwahaniaethau rhyngddynt. Rydym yn argymell y dylid nodi'r cysylltiad yn gliriach; yna, efallai y byddai hynny'n helpu gyda'r pryderon uchod ynglŷn ag anghysondebau a dyblygu.

### 2.8.2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb i'r pryderon a'r materion a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno camau ategol ychwanegol er mwyn cynorthwyo i weithredu Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol. Disgwylir y bydd y canllawiau newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024. Bydd cyfnod pontio ar ôl hynny am flwyddyn ac felly bydd adroddiadau a ysgrifennir am flwyddyn ariannol 2023/24 yn seiliedig ar y canllawiau gwreiddiol. Bydd adroddiadau a ysgrifennir am flwyddyn ariannol 2024/25 ymlaen yn defnyddio'r canllawiau newydd.

Yn gyntaf, bydd yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r adroddiadau a'r dyddiadau cyhoeddi disgwyliedig yn cael eu symud i ddiwedd mis Medi. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i lunio'r adroddiadau hyd at y safon ddisgwyliedig, gan ddefnyddio'r dystiolaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i argymell y dylai awdurdodau lleol gyflwyno crynodeb byr ar gyfer y cyhoedd, ar ffurf dogfen annibynnol, ar wahân. Bydd hyn yn sicrhau bod yr adroddiadau a'r wybodaeth a gynhwysir ynddynt yn dryloyw ac yn hygyrch. Fodd bynnag, bydd yn rhaid parhau i gynhyrchu'r adroddiadau o fewn cyllidebau presennol.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ategu'r canllawiau newydd gyda phecyn cymorth, a fydd yn cynnwys templedi, opsiynau dylunio a dogfen 'Cwestiynau Cyffredin'. Trwy ddarparu'r adnoddau a'r hyfforddiant a drafodwyd, bydd modd i'r rhai sy'n llunio'r adroddiadau wneud defnydd o dempledi a chanllawiau – bydd hyn yn eu galluogi i lunio'r adroddiadau'n gyflymach, gan ryddhau capasiti. Hefyd, bydd y Cwestiynau Cyffredin yn egluro sut y bydd yr adroddiadau blynyddol yn cyd-fynd â'r fframwaith ehangach ar gyfer adrodd am berfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

O ran llunio'r pecyn cymorth hwn, y bwriad yw sefydlu rhwydwaith a fydd yn cynnwys staff awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â llunio'r adroddiadau blynyddol. Diben y rhwydwaith hwn fydd trafod ac adolygu dulliau, canfyddiadau ac allbynnau, yn ogystal ag adolygu a diwygio'r pecyn cymorth fel bo'r angen. O blith y rhwydwaith hwn, byddwn yn chwilio am grŵp o wirfoddolwyr i ffurfio gweithgor ar gyfer drafftio fersiynau cyntaf y pecyn cymorth. Hefyd, cynhelir sesiynau hyfforddi a gweminarau'n ymwneud â'r canllawiau newydd a'r pecyn cymorth, er mwyn cynorthwyo i roi'r canllawiau newydd ar waith.

Yn olaf, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio defnyddio a dadansoddi mwy ar yr adroddiadau a gyflwynir. Y bwriad yw llunio adroddiad am 'Gyflwr y Genedl'. Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r Adroddiadau Blynyddol a bydd yn cael ei ategu gan ddata a fydd wedi deillio o weithgareddau'r Fframwaith Perfformiad a Gwella a data perfformiad. Bydd yr adroddiad cryno hwn yn cynnwys themâu a gwaith dadansoddi adroddiadau blynyddol, ond hefyd bydd yn cynnwys gwaith dadansoddi data'n ymwneud â data cenedlaethol, a drefnir o amgylch pum egwyddor y Ddeddf. Trwy gyfrwng y dadansoddiadau hyn, bydd modd rhoi adborth i awdurdodau lleol unigol ynglŷn â chynnwys a strwythur eu hadroddiadau blynyddol.

## 2.9 – Cwestiynau cyffredinol – Asesiad Effaith Integredig (Pennod 7 yr ymgynghoriad)

### 2.9.1 Crynodeb o'r ymatebion

Atebwyd y cwestiwn hwn (neu'r cwestiwn cyfatebol yn y ddogfen 'hawdd ei deall') gan 34 o ymatebwyr o blith y 96. Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar yr ymatebion hyn. O blith y 34 ymateb hyn, cyflwynwyd 11 ymateb gan sefydliadau sy'n cynrychioli'r trydydd sector/sector gwirfoddol a chyflwynwyd 10 ymateb gan lywodraeth leol. Cyflwynwyd 3 ymateb gan gyrff y GIG a chyflwynwyd y 10 ymateb sy'n weddill gan reoleiddwyr (2 ymateb), comisiynwyr statudol (2 ymateb), darparwyr (2 ymateb), cyrff cynrychiadol (1 ymateb), cyrff statudol annibynnol (1 ymateb), byrddau partneriaeth rhanbarthol (1 ymateb) a'r sector undebau llafur (1 ymateb).

**Cwestiwn 7.1:** Hoffem wybod eich barn ar Adrannau 1 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig. A oes unrhyw feysydd penodol lle rydych chi'n teimlo bod angen rhagor o fanylion, neu unrhyw faterion penodol rydych chi am eu hamlygu a allai gael effaith ar grŵp penodol?

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod lefel y manylion yn adrannau'r Asesiad Effaith Integredig drafft yn ddigonol, a chyflwynwyd adborth cadarnhaol gan lawer ohonynt. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen rhagor o fanylion, ac aethant yn eu blaen i nodi, er enghraifft, bod angen i'r asesiad effaith integredig ystyried nodweddion gwarchodedig fel oedran a rhywedd, yn ogystal â grwpiau fel plant. Mewn perthynas â lefel y manylion, dywedodd un ymatebydd fod angen i'r asesiad effaith gynnwys goblygiadau'n ymwneud â chostau ac adnoddau ar gyfer y gyfres o gynigion, a chyfeiriodd ymatebydd arall yn fwy cyffredinol at fylchau cyllidebol oddi mewn i sefydliadau wrth ymdrin ag anghenion asesedig eu poblogaethau.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at faterion yn ymwneud â chostau ac adnoddau, a thynnodd un ymatebydd sylw at yr adnoddau ychwanegol sy'n angenrheidiol ar gyfer rhoi'r newidiadau hyn ar waith, a'r her o ran sicrhau na cheir unrhyw effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau oddi mewn i sefydliadau wrth i'r newidiadau hyn gael eu cyflwyno. Cyfeiriodd ymatebydd arall at yr amserlen dynn, gan dynnu sylw'n arbennig at roi'r Swyddfa Genedlaethol ar waith o 2024 ymlaen.

Gan barhau â'r thema adnoddau, gofynnodd un ymatebydd a ellid ystyried yr effaith a gâi gweithredu'r argymhellion ar lefel awdurdodau lleol. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at y costau posibl sy'n gysylltiedig â chynigion penodol, er enghraifft y ffioedd a delir gan gomisiynwyr y sector cyhoeddus wrth ystyried goblygiadau cost posibl y Fframwaith Cenedlaethol.

### 2.9.2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi nodi'r ymatebion hynny sy'n gofyn am ragor o fanylion ynglŷn â rhai agweddau ar yr Asesiad Effaith Integredig. O ran dwy adran yr Asesiad Effaith Integredig a gynhwysir ar ffurf ddrafft yn yr ymgynghoriad, efallai ei bod yn werth nodi mai rhan o'r broses asesu effaith yn unig a gynrychiolir gan yr adrannau hyn. Yn ychwanegol at yr Asesiad Effaith Integredig cyffredinol, bydd asesiadau effaith penodol yn cael eu cynnal ar gyfer y gwahanol gynigion, er enghraifft asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Bydd y rhain yn ystyried yr effeithiau posibl ar bobl â nodweddion gwarchodedig a phobl o wahanol grwpiau.

Hefyd, rydym wedi nodi'r gofyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd 'sylw dyladawy' o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Drachefn, bydd yr asesiadau hyn yn cael eu cynnal ar gyfer y cynigion unigol y bwrir ymlaen â nhw.

Mewn perthynas â manylion am y goblygiadau posibl o ran costau ac adnoddau, bydd y rhain yn cael eu hystyried fel rhan o ddogfennau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhelir ar gyfer yr holl gynigion sy'n gysylltiedig â newidiadau deddfwriaethol, er enghraifft y newidiadau arfaethedig i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017. Hefyd, bydd yr Asesiad Effaith Integredig cyffredinol terfynol yn

cynnwys adran lle ystyrir effaith y cynigion ar lesiant economaidd, a bydd lle hefyd i gofnodi'r effeithiau economaidd posibl.

## 2.10 Cwestiynau cyffredinol – Yr Iaith Gymraeg (Pennod 8 yr ymgynghoriad)

### 2.10.1 Crynodeb o'r ymatebion

Cyn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau isod, mae'n bwysig nodi bod cwestiynau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg wedi'u cynnwys hefyd mewn rhannau eraill, sef:

- **Cwestiwn 1.3** yn adran y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir, lle gofynnir: "Ydych chi'n credu y bydd y gofynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn helpu i sicrhau cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg a'r cynnig rhagweithiol?"

- **Cwestiwn 3.6** yn adran y Swyddfa Genedlaethol, lle gofynnir: "Yn eich barn chi, beth yw'r cyfleoedd penodol i'r Swyddfa Genedlaethol arwain newid diwylliant mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, gan ganolbwyntio'n benodol ar y cynllun pum mlynedd, 'Mwy na Geiriau' (2022-27)."

Paratowyd crynodebau o'r ymatebion i'r cwestiynau hyn ac fe'u cyflwynir yn adrannau perthnasol yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Cwestiwn 8.1:** Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai unrhyw un o'r cynhyrchion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad ail-gydbwyso hwn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Atebwyd y cwestiwn hwn (neu'r cwestiwn cyfatebol yn y ddogfen 'hawdd ei deall') gan 28 o ymatebwyr o blith y 96. O blith y rhain, cyflwynwyd 9 ymateb gan lywodraeth leol ac 8 ymateb gan sefydliadau sy'n cynrychioli'r trydydd sector/sector gwirfoddol. Cyflwynwyd yr ymatebion sy'n weddill gan reoleiddwyr (2 ymateb), darparwyr gofal cymdeithasol (2 ymateb), unigolion (2 ymateb), corff statudol sy'n cynrychioli comisiynwyr a darparwyr, undeb llafur, bwrdd partneriaeth rhanbarthol, ac un o gyrff y GIG.

Ni chyflwynwyd ymatebion o sylwedd gan nifer o'r ymatebwyr; yn hytrach, fe wnaethant nodi eu bod wedi ymateb i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg wrth ateb cwestiynau eraill, ac roeddynt o'r farn bod yr atebion hynny'n delio â'r cwestiwn hwn hefyd. Fel uchod, ystyriwyd unrhyw ymatebion i gwestiynau penodol eraill yn ymwneud â'r Gymraeg (cwestiwn 1.3 a chwestiwn 3.6) fel rhan o ddadansoddiad y cwestiynau penodol hynny.

Cyflwynwyd adborth cadarnhaol ac amrywiol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r trefniadau newydd gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, yn enwedig o ran cryfhau trefniadau comisiynu i sicrhau bod darparwyr gofal cymdeithasol yn mynd i'r afael â'r cynnig rhagweithiol mewn modd ystyrlon. Hefyd, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod y cynigion yn atgyfnerthu dyletswyddau a safonau presennol, yn cynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Safonau'r Gymraeg a Mwy na Geiriau. Adlewyrchwyd yr adborth cadarnhaol mewn ymateb arall hefyd, lle croesawyd rôl y Swyddfa Genedlaethol o ran ategu newid diwylliannol yn ymwneud â'r Gymraeg.

Cafwyd adborth mwy cymysg hefyd. Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod effaith y cynigion ynglŷn â'r Gymraeg yn aneglur, a soniodd un ymatebydd am faterion ehangach yn ymwneud ag argaeledd siaradwyr Cymraeg yn y farchnad lafur ehangach a'r gystadleuaeth o du sectorau eraill i recriwtio pobl â sgiliau Cymraeg. Roedd un awdurdod lleol o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith yn ei ardal ef gan fod dewis iaith eisoes yn cael ei gynnig yn yr ardal honno.

Hefyd, cyflwynwyd rhai pwyntiau ehangach yn ymwneud â'r Gymraeg yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Er enghraifft, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr heriau sy'n wynebu sefydliadau o ran sicrhau adnoddau (amser a staff) wrth ddarparu dewis iaith cynhwysfawr ar gyfer y Gymraeg, er eu bod yn cydnabod gwerth y dewis hwnnw. Mewn perthynas â'r thema hon, cyflwynodd ymatebydd arall sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r ffaith bod Llywodraeth Cymru, yn ei dyb ef, yn cydnabod bod bwlch i'w gael o ran argaeledd gwasanaethau gofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig o ran darparu gofal nyrsio. Gan barau i sôn am faterion ehangach, tynnodd ymatebydd arall sylw at gynigion sydd ar ddod, fel Papur Gwyn Bil Addysg y Gymraeg a strategaeth Cymraeg 2050, a fyddai'n gosod disgwyliadau uwch ar gyfer gweithleoedd dwyieithog.

O ran y Fframwaith Cenedlaethol, tynnodd un awdurdod lleol sylw at y ffaith bod ganddo fwy o gapasiti i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg o gymharu â phartneriaid rhanbarthol eraill, ac y gallai'r Fframwaith Cenedlaethol gryfhau'r ddarpariaeth iaith Gymraeg mewn rhai ardaloedd. I'r gwrthwyneb, nodwyd hefyd fod yna berygl y gallai'r safonau ostwng mewn rhai ardaloedd o ganlyniad i roi dull cenedlaethol ar waith.

O ran awgrymiadau, awgrymodd un ymatebydd fod yna gyfle i'r gwasanaethau presennol a'r Swyddfa Genedlaethol (ar ôl iddi ennill ei phlwyf) gysylltu â chyrsiau trochi yn y Gymraeg. Nodwyd hefyd y byddai'n fuddiol datblygu mwy ar gyrsiau 'cyflwyniad i'r Gymraeg' sy'n gysylltiedig â phrentisiaethau a ariennir.

**Cwestiwn 8.2:** Esboniwch hefyd sut y credwch y gallai'r cynhyrchion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad ailgydbwyso hwn gael eu llunio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu ragor o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac

fel nad ydynt yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Atebwyd y cwestiwn hwn (neu'r cwestiwn cyfatebol yn y ddogfen 'hawdd ei deall') gan 21 o ymatebwyr o blith y 96, ac mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar yr ymatebion hyn. O blith yr ymatebion hyn, cyflwynwyd 8 ymateb gan lywodraeth leol a 6 ymateb gan sefydliadau sy'n cynrychioli'r trydydd sector/sector gwirfoddol. Cyflwynwyd yr ymatebion sy'n weddill gan reoleiddwyr (2 ymateb), darparwyr gofal cymdeithasol (2 ymateb), unigolyn, undeb llafur, a bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

Fel yn achos cwestiwn 8.1, cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at eu hatebion blaenorol – naill ai eu hatebion ar gyfer y cwestiwn hwnnw neu'r atebion a gyflwynwyd ganddynt i gwestiynau'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg wrth drafod y Fframwaith Cenedlaethol (cwestiwn 1.3) a'r Swyddfa Genedlaethol (cwestiwn 3.6).

O ran newidiadau posibl ar gyfer cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr heriau sy'n wynebu rhai darparwyr wrth geisio bodloni'r cynnig rhagweithiol, ac awgrymwyd y dylid rhoi cymorth ymarferol ychwanegol i ddarparwyr, megis deunyddiau recriwtio sy'n annog siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swyddi yn y sector gofal cymdeithasol, a darparu deunyddiau dysgu ar gyfer y staff er mwyn eu helpu i ddysgu Cymraeg. Soniodd ymatebydd arall am bwynt cysylltiedig, sef sicrhau y caiff ymdrechion hyrwyddo eu cynnal yn y ddwy iaith oddi mewn i wasanaethau. Awgrymodd un ymatebydd y dylid nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn faen prawf 'dymunol' (fan leiaf) ar gyfer staff rheng flaen sy'n darparu gofal, ac y dylai Llywodraeth Cymru fandadu hyn. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid cael ychwaneg o gategorïau mewn contractau lle nodir bod y Gymraeg yn ofynnol.

Cyflwynodd ymatebydd arall awgrym ehangach, sef y dylai gwahanol elfennau'r ymgynghoriad ddarparu dogfennau ategol ar gyfer ymarferwyr a phobl sy'n derbyn gofal a chymorth, er enghraifft dogfennau hawdd eu deall a deunyddiau hygyrch eraill (e.e. fideos arferion gorau), lle tynnir sylw at y modd yr aethpwyd ati i hyrwyddo'r Gymraeg ledled Cymru. Awgrymwyd y gallai hyn godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl a gwella safonau.

Tynnwyd sylw at hygyrchedd yng nghyd-destun y Gymraeg, a nododd un ymatebydd pa mor bwysig yw sicrhau bod deunyddiau Cymraeg yn hygyrch i Bobl Anabl e.e. trwy ddarparu fersiynau Braille neu brint bras.

Cyfeiriodd un ymatebydd yn benodol at Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd yr ymatebydd hwn yn mynnu y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi dull mwy penodol ar waith wrth ymdrin â'r Gymraeg, yn cynnwys darparu cyfleoedd cyfieithu ochr yn ochr â dogfennau ac adroddiadau dwyieithog. Hefyd, awgrymodd yr un ymatebydd y dylid cryfhau'r Asesiad Effaith Integredig mewn perthynas â'r Gymraeg. O ran cyfieithu, cyflwynodd ymatebydd arall sylw cyffredinol ynglŷn â pha mor bwysig yw sicrhau bod y deunyddiau'n cael eu cyfieithu hyd at safon uchel, er mwyn osgoi camddehongli o unrhyw fath.

Soniodd un ymatebydd am y Swyddfa Genedlaethol wrth ateb y cwestiwn hwn. Ar ôl i'r Swyddfa ennill ei phlwyf, awgrymwyd y gallai gasglu ystadegau am y gweithlu, megis faint o siaradwyr Cymraeg sydd i'w cael yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn fwy cyffredinol, tynnodd un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sylw at y ffaith bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn y rhanbarth hwnnw yn parhau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a 'Mwy na Geiriau' er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd partneriaid yn parhau i wneud yn fawr o gyfleoedd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

**2.10.2. Ymateb Llywodraeth Cymru**

Byddwn yn cnoi cil ar yr awgrymiadau y dylai'r gwasanaethau a'r Swyddfa Genedlaethol gysylltu â chyrsiau trochi yn y Gymraeg, gan ystyried y ffordd orau y gall Llywodraeth Cymru hyrwyddo'r dull hwn, a'r modd y gallwn weithio gyda phartneriaid er mwyn iddynt hwythau hefyd wneud yr un peth.

Er bod cyfleoedd rhad ac am ddim ar gael i weithwyr gofal cymdeithasol ddysgu Cymraeg, er enghraifft trwy gyfrwng menter Gofal Cymdeithasol Cymru i greu cwrs Cymraeg ar-lein newydd ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, rydym yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu sefydliadau o ran sicrhau adnoddau a darparu gwasanaeth Cymraeg cynhwysfawr – o ran y costau ariannol a'r heriau recriwtio.

Mewn perthynas â deunyddiau ategol lle ymdrinnir â'r Gymraeg mewn ffordd hygyrch (fideos ac ati), mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru adran 'Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle' ar ei wefan. Mae'r adran hon yn nodi pa mor bwysig yw defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac mae'n cynnwys amryfal adnoddau y gall gweithwyr droi atynt, er enghraifft wrth ddarparu'r cynnig rhagweithiol. Hefyd, mae'r adran hon yn cynnwys fideos ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol lle sonnir am bwysigrwydd y Gymraeg yn y lleoliadau hyn. Ymhellach, mae Gofal Cymdeithasol Cymru ar fin cwblhau adnodd e-ddysgu sy'n dangos pam y mae'r Gymraeg mor bwysig, ac mae gan y sefydliad brosiect ar gyfer cyflogwyr sy'n anelu at ategu prosesau cynllunio'r gweithlu mewn perthynas â'r Gymraeg.

O ran cymorth ymarferol arall yn ymwneud â deunyddiau recriwtio i annog siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swyddi yn y sector gofal cymdeithasol, bydd hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried fel rhan o drafodaethau ehangach gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yng nghyd-destun gwaith presennol y sefydliad i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithlu gofal cymdeithasol, fel y nodir uchod. Yn gynharach eleni, lansiwyd ymgyrch benodol gan Gofalwn Cymru, ac mae'r asedau ar gyfer yr ymgyrch hon yn dal i fod ar gael pe bai angen. Mae Gofalwn Cymru yn tynnu sylw'n rheolaidd at bwysigrwydd y Gymraeg fel rhan o'i ymgyrchoedd a'i bresenoldeb parhaus ar y cyfryngau cymdeithasol.

Bydd y pwyntiau penodol am Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad terfynol Canllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth. O ran yr adborth a gyflwynwyd ynglŷn â'r Asesiad Effaith Integredig, ymdriniwyd â hyn yn yr ymateb i gwestiwn 7.1 – hynny yw, bydd asesiadau effaith penodol yn cael eu cynnal ar gyfer y gwahanol gynigion, yn ychwanegol at yr Asesiad Effaith Integredig, a bydd materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu hystyried yn yr asesiadau hynny.

Nodwn y pwynt penodol lle awgrymir y dylai'r Swyddfa Genedlaethol ddarparu ystadegau'n ymwneud â lefel y Gymraeg oddi mewn i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Ond mae'n werth nodi bod y data hwn yn cael ei gasglu ar hyn o bryd gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

O ran y pwyntiau ehangach a gyflwynwyd ynglŷn â hygyrchedd deunyddiau Cymraeg, bydd holl ganllawiau cyhoeddedig Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar ein gwefan gyhoeddus, a bydd modd i'r cyhoedd ofyn am gael yr wybodaeth mewn fformat gwahanol, er enghraifft Braille neu brint bras.

## 2.11. Cwestiynau cyffredinol – Unrhyw faterion cysylltiedig eraill (Pennod 8 yr ymgynghoriad)

### 2.11.1 Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 8.3:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Atebwyd y cwestiwn hwn (neu'r cwestiwn cyfatebol yn y ddogfen 'hawdd ei deall') gan 27 o ymatebwyr o blith y 96. O blith yr ymatebion hyn, cyflwynwyd 6 ymateb gan lywodraeth leol a 7 ymateb gan sefydliadau sy'n cynrychioli'r trydydd sector/sector gwirfoddol. Cyflwynwyd yr ymatebion sy'n weddill gan ddarparwyr gofal cymdeithasol (3 ymateb), undebau llafur (2 ymateb), cyrff cynrychiadol – proffesiynol (2 ymateb), cyrff y GIG (2 ymateb), Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (2 ymateb), 2 unigolyn, 1 rheoleiddiwr ac 1 corff cynrychiadol – darparwyr.

Gan fod y cwestiwn hwn yn gwestiwn agored, soniwyd am amrywiaeth eang o faterion. Tynnwyd sylw at lawer o'r materion hyn mewn mannau eraill yn yr ymgynghoriad oddi mewn i benodau penodol. Mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar rai o'r themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg ar draws yr holl atebion, yn ogystal â materion na thynnwyd sylw atynt eisoes mewn mannau eraill.

Cyflwynodd nifer o ymatebwyr adborth ar strwythur yr ymgynghoriad yn ei gyfanrwydd, ac ar y dogfennau a gynhwysir oddi mewn iddo. Dywedodd un ymatebydd fod y cwestiynau yn y fersiwn 'hawdd ei deall' yn wahanol i'r cwestiynau yn y brif ddogfen, a bod rhai ar goll. Roedd eglurder cyflwyno yn thema allweddol

trwy'r ymatebion. Soniodd un ymatebydd am yr holl ddogfennau ymgynghori ar wahân a gyflwynwyd gyda'r ymgynghoriad, a dywedodd pa mor bwysig yw cadw unrhyw reoliadau/canllawiau mor fyr a syml â phosibl, heb ddyblygu unrhyw beth. Yn yr un modd, nododd ymatebydd arall pa mor bwysig yw sicrhau bod yr wybodaeth ar gael mewn fformat hawdd ei ddefnyddio. O ran fformat yr ymgynghoriad, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at hyd yr ymgynghoriad, gan awgrymu ei fod yn rhy gymhleth ac y gallai ymgynghoriadau byrrach, ar wahân fod wedi esgor ar fwy o ymatebion o bosibl.

O blith yr ymatebion niferus a grybwyllodd faterion ehangach yn yr adran hon, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at Daliadau Uniongyrchol. Awgrymodd un ymatebydd na nodir yn glir sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar y taliadau hyn, a soniodd ymatebydd arall am anghysondebau o ran y modd y rhoddir y taliadau hyn ar waith ledled Cymru. O ran materion ehangach eraill, tynnodd un ymatebydd sylw raglen Llywodraeth Cymru i ddatblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, a gofynnodd am gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r camau nesaf.

Yn olaf, defnyddiodd nifer o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn i gynnig eu syniadau eu hunain ynglŷn â'r rhaglen yn ei chyfanrwydd, a'i nodau ehangach. Roedd rhai ymatebwyr yn gefnogol i nodau cyffredinol y rhaglen, megis creu sector iechyd a gofal mwy cynaliadwy ac integredig. Ond soniodd ymatebwyr eraill am amryfal rwystrau o ran cyflawni'r nodau hyn, er enghraifft rhwystrau diwylliannol, diffyg darpariaeth gwasanaethau amgen a heriau ariannol, fel y nodir mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad. O ran rhai o'r nodau ehangach, yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth, tynnodd un ymatebydd sylw at bwysigrwydd rhannu gwybodaeth a sicrhau tryloywder data ar draws sefydliadau a phartneriaethau, gan awgrymu y byddai hyn yn gwella gwaith partneriaeth ac yn osgoi dyblygu.

### 2.11.2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth ynglŷn â strwythur yr ymgynghoriad a'r dogfennau a gynhwysir oddi mewn iddo. O ran y fersiwn hawdd ei deall, rydym yn cydnabod bod nifer y cwestiynau'n wahanol o gymharu â'r brif ddogfen ymgynghori. Mewn rhai achosion, cafodd amryfal gwestiynau eu cymhathu a'u cyfuno i greu un cwestiwn, oherwydd barnwyd y byddai hynny'n gwneud y cwestiynau'n haws eu darllen a'u deall. I'r gwrthwyneb, cafodd cwestiynau eraill, y barnwyd eu bod yn fwy cymhleth, eu hollti'n amryfal gwestiynau. Nid yw'r dull hwn yn unigryw i'r ymgynghoriad arbennig yma. Fodd bynnag, yn achos ymgynghoriadau eraill a gynhelir yn y dyfodol mewn perthynas â'r maes hwn, byddwn yn ystyried a oes modd nodi'r gwahaniaeth hwn yn gliriach.

O ran y dogfennau ymgynghori niferus, sylweddolwn fod y pecyn ymgynghori hwn yn cynnwys llawer o ddogfennau; ond trwy gynnwys dogfennau unigol, bu modd i bobl â diddordeb arbennig mewn meysydd penodol ganolbwyntio ar yr elfennau hynny'n unig. Wedi dweud hyn, yn achos ymgynghoriadau mawr eraill a gynhelir yn y dyfodol mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol, byddwn yn cnoi cil ar yr adborth hwn a byddwn yn ystyried a oes modd cyflwyno'r wybodaeth mewn ffyrdd eraill.

O ran y gwaith i ddatblygu'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, disgwyliwn gyflwyno diweddariad cyhoeddus ynglŷn â'r cynnydd cyn diwedd y flwyddyn galendr.

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth ehangach ynglŷn â'r rhaglen a'i nodau strategol, yn ogystal â'r myfyrdodau ystyriol a gyflwynwyd gan nifer o'r ymatebwyr ynglŷn â rhai heriau a rhwystrau ehangach. Er bod y cynigion yn arwydd o gynnydd sylweddol ers cyhoeddi'r Papur Gwyn cyntaf ar ailgydbwyso yn 2021, sylweddolwn fod yna lawer o waith i'w wneud o hyd ar draws y gwahanol elfennau, a bod yna faterion ehangach yn effeithio ar y sector, yn cynnwys pwysau ariannol parhaus. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r sector er mwyn inni allu mynd ati ar y cyd i bennu ac ymdrin â'r rhwystrau o ran cynnydd wrth inni symud tuag at gadarnhau'r cynigion amrywiol.

## 2.12 Y Camau Nesaf

Yn unol â'r adrannau 'Ymateb Llywodraeth Cymru', bydd yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori hwn a'r dadansoddiad canlyniadol yn llywio gwaith pellach ar ddatblygu ein polisïau a'n deddfwriaethau, wrth inni fwrw ymlaen â'r cynigion hyn fel rhan o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Byddwn yn parhau i ymgysylltu gyda'n partneriaid cyflawni a chyda rhanddeiliaid eraill wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

## Atodiad A: Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad

| Sefydliad / Enw | Math o Ymatebydd |
|---|---|
| Canolfan Gofal, Prifysgol Sheffield | Academaidd |
| Archwilio Cymru | Corff statudol annibynnol |
| Llais | Corff statudol annibynnol |
| Dienw | Unigolyn |
| Dienw | Unigolyn |
| Gaynor Daniel | Unigolyn |
| Margaret Price | Unigolyn |
| ADSS Cymru | Llywodraeth Leol |
| Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Powys | Llywodraeth Leol |
| Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd, Cyngor Sir Ddinbych | Llywodraeth Leol |
| Dienw | Llywodraeth Leol |
| Dienw | Llywodraeth Leol |
| Dienw | Llywodraeth Leol |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Llywodraeth Leol |
| Gwasanaethau i Oedolion Cyngor Caerdydd | Llywodraeth Leol |
| Cyngor Sir Gaerfyrddin | Llywodraeth Leol |
| Cyngor Sir Ceredigion | Llywodraeth Leol |
| Grŵp Partneriaeth Comisiynu Gofal Cymru | Llywodraeth Leol |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Llywodraeth Leol |
| Cyngor Sir y Fflint | Llywodraeth Leol |
| Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Leol |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe | Llywodraeth Leol |
| Cyngor Sir Benfro | Llywodraeth Leol |
| Consortiwm Comisiynu Plant Cymru (4C) | Llywodraeth Leol |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | Llywodraeth Leol |
| Cyngor Bro Morgannwg | Llywodraeth Leol |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Llywodraeth Leol |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Llywodraeth Leol |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Corff y GIG |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Corff y GIG |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Corff y GIG |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Corff y GIG |

| **Sefydliad / Enw** | **Math o Ymatebydd** |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Corff y GIG |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Corff y GIG |
| Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | Corff y GIG |
| Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru | Corff y GIG |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Eraill |
| Dienw | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | Rheoleiddiwr |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Rheoleiddiwr |
| Fforwm Gofal Cymru | Corff cynrychioliadol – darparwr |
| Cymdeithas Gofal Cartref | Corff ynrychioliadol – darparwr |
| Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol | Corff cynrychioliadol - proffesiynol |
| Coleg Brenhinol y Meddygon | Corff cynrychioliadol - proffesiynol |
| Fforwm Arweinyddiaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol – Cadeiryddion ac Arweinwyr Cymru gyfan | Corff cynrychioliadol - proffesiynol |
| Y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol | Corff cynrychioliadol - proffesiynol |
| Cynghrair Iechyd a Lles Cydffederasiwn GIG Cymru | Corff cynrychioliadol - proffesiynol |
| Canolfan Bro Aled | Darparwr gofal cymdeithasol |
| Grŵp Caron | Darparwr gofal cymdeithasol |
| Drive – Darparwr Cymorth Anabledd Dysgu | Darparwr gofal cymdeithasol |
| HC-One | Darparwr gofal cymdeithasol |
| Grŵp Pobl | Darparwr gofal cymdeithasol |
| SICS Gofal Cymru cyf | Darparwr gofal cymdeithasol |
| Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Comisiynydd Statudol |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Comisiynydd Statudol |
| Comisiynydd Plant Cymru | Comisiynydd Statudol |
| Comisiynydd y Gymraeg | Comisiynydd Statudol |
| Cynghrair Henoed Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |

| **Sefydliad / Enw** | **Math o Ymatebydd** |
|---|---|
| Age Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Fforwm Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Pobl yn Gyntaf Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Cymdeithas Alzheimer | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Barnardo’s Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Gofal a Thrwsio Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Gyrfa Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Plant yng Nghymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| ClwydAlyn | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Ymateb ar y cyd gan Tai Cymunedol Cymru a Cymorth Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Cwmpas | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Cynghrair Pobl Hŷn Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Cŵn Tywys Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Hengoed Care | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Jackies Revolution | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Anabledd Dysgu Cymru. | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Leonard Cheshire | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Llamau | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Marie Curie | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Mencap Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| NSPCC | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Oxfam Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Pobl yn Gyntaf RhCT | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |

| **Sefydliad / Enw** | **Math o Ymatebydd** |
|---|---|
| RNIB Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Y Gymdeithas Strôc | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| YMCA Caerdydd | Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol |
| Y Coleg Nyrsio Brenhinol | Undeb Llafur |
| UNISON Cymru Wales | Undeb Llafur |
| Dienw | Anhysbys |
| Dienw | Anhysbys |